

HAWLIAU NAWR, HAWLIAU HEDDIW:

A YW HAWLIAU PLANTYN
REALAETH YNG NGHYMRU?



Adroddiad Interim Cyrff Anllywodraethol
Cymru

Golygwyd gan Rhian Croke



Achub y Plant

Save the Children

HAWLIAU NAWR, **HAWLIAU** HEDDIW: A YW HAWLIAU PLANT YN REALAETH YNG NGHYMURU?

Adroddiad Interim Cyrff Anllywodraethol Cymru

Golygwyd gan Rhian Croke

MAE ACHUB Y PLANT YN GWEITHIO MEWN DROS **120 O WLEDYDD**
RYDYM YN ACHUB BYWYDAU **PLANT**
RYDYM YN YMLADD DROS EU **HAWLIAU**
RYDYM YN EU HELPU I GYFLAWNI EU R **POTENSIAL**

Cyhoeddwyd gan Raglen Cymru Achub y Plant

3ydd Llawr, Phoenix House,
8 Heol y Gadeirlan,
Caerdydd, CF11 9LJ

Ffôn: 029 2039 6838
E.bost: Walesinfo@savethechildren.org.uk
www.savethechildren.org/wales

Cyhoeddwyd gyntaf 2013

©Cronfa Achub y Plant 2013

Mae Cronfa Achub y Plant yn elusen sydd yn gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (213890) a'r Alban (SC039570). Rhif Cofrestru'r Cwmni 178159

Mae hawlfraint ar y cyhoeddiad hwn, ond gellir ei atgynhyrchu trwy unrhyw ddull heb ffi neu ganiatâd ymlaen llaw at ddibenion addysgu, ond nid i'w ailwerthu. O ran copïo mewn unrhyw amgylchiadau eraill, mae'n rhaid cael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y cyhoeddwr, a gellir codi ffi.

Ymwrthodiad: Barn yr awduron yw'r holl farnau sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli barn neu bolisiâu Achub y Plant y DU.

Dyluniwyd y clawr blaen gan Scarletdesign
Cyfieithwyd gan Adnod
Cysodwyd ac argraffwyd gan Carrick Business Services Ltd.

Cydnabyddiaeth

Dymuna Achub y Plant a Grŵp Monitro CCUHP Cymru ddiolch i'r holl awduron a ysgrifennodd erthyglau ar gyfer yr adroddiad hwn. Rydym yn hynod ddiolchgar iddynt am eu harbenigedd ac am ei wneud yn bosibl i gael dealltwriaeth interim o ran y graddau yr ydym yn llwyddo i gydymffurfio â gweithredu'r CCUHP yng Nghymru, cyn adrodd i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn 2014.

Hoffem hefyd ddiolch i'r holl gyfranwyr sydd wedi rhoi eu harbenigedd a'u hamser gwerthfawr i gyflwyno tystiolaeth lafar a/neu ysgrifenedig i Grŵp Monitro CCUHP Cymru.

Yn olaf, dymuna'r golygydd ddiolch i gydweithwyr Achub y Plant, i Trudy Aspinwall am arwain y gwaith o gydlynu gwrandawiadau Grŵp Monitro CCUHP Cymru, i Pat Dunmore am broflen derfynol yr adroddiad a Sara Drysdale am fynd â'r adroddiad trwy'r cyfnod cynhyrchu.

Mae **Grŵp Monitro CCUHP Cymru** yn gynghrair cenedlaethol o asiantaethau anllywodraethol ac academiaidd sy'n cael ei gydlynw a'i gadeirio gan raglen Cymru Achub y Plant. Mae gan y grŵp y dasg o fonitro a hyrwyddo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru.

Mae aelodau'r grŵp yn cynnwys: Canolfan Materion Cyfreithiol Cymreig Prifysgol Aberystwyth, Barnardo's Cymru, Adran Iechyd Plant Prifysgol Caerdydd, Plant yng Nghymru, y Ddraig Ffynci, NSPCC Cymru, Achub y Plant Cymru (Cadeirydd a Chydlynnydd), Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Abertawe.

Mae'r sylwedyddion yn cynnwys: Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru a'r Comisiwn Hawliau Dynol, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, UNICEF y DU.

Cynnwys

- Pennod Un:** *Cyflwyniad*
Rhian Croke, Cydlynnydd Grŵp Monitro CCUHP Cymru, Achub y Plant Cymru.
- Pennod Dau:** *Mesurau gweithredu cyffredinol*
Rhian Croke a Pat Dunmore, Achub y Plant a Dr Simon Hoffman a Jane Williams, Arsyllfa Cymru ar Hawliau Plant a Phobl Ifanc
- Pennod Tri:** *Egwyddorion arwain*
 - **Cyfranogiad**
Danielle Lavin a Mererid Lewis, Uned Gyfranogiad.
- Pennod Pedwar:** *Hawliau sifil a rhyddid*
 - **Cosb gorfforol**
Dr Anne Crowley a Peter Newell, Cynghair Sdim Curo Plant! Cymru
- Pennod Pump:** *Amgylchedd teuluol a gofal amgen*
 - **Plant carcharorion**
Laura Tranter, Barnardo's Cymru.
 - **Amddiffyn plant**
Kate Carr, Cecile Gwilym a Vivienne Lang, NSPCC Cymru.
- Pennod Chwech:** *Iechyd a lles sylfaenol*
 - **Plant ag anableddau**
Lynne Hill, Plant yng Nghymru.
 - **Iechyd a gwasanaethau iechyd**
Dr Elspeth Webb, Adran Iechyd Plant, Coleg Meddygaeth Prifysgol Caerdydd.
 - **Tlodi plant**
Ruth Mullineux, Achub y Plant a Sean O'Neill, Plant yng Nghymru.
- Pennod Saith:** *Addysg, hamdden a gweithgareddau diwylliannol*
 - **Chwarae**
Marianne Manello, Chwarae Cymru.
- Pennod Wyth:** *Mesurau amddiffyn arbennig*
 - **Camfanteisio'n rhywiol a masnachu**
Menna Thomas, Barnardos Cymru.
 - **Cyfiawnder yr Ifanc**
Pat Dunmore, Dr Simon Hoffman, Sue Thomas, Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc.

Pennod Un: Cyflwyniad

Rhian Croke, Cydlynnydd Grŵp Monitro CCUHP Cymru, Achub y Plant Cymru

Safbwynt interim cyrff anllywodraethol yng Nghymru ar Arsylwadau Terfynol y DU 2008

Datganoli yng Nghymru

Yn 2011, roedd poblogaeth plant 0-17 oed yn 633,400, tua 20% o gyfanswm y boblogaeth.¹ Ym Mai 2007, daeth Deddf newydd Llywodraeth Cymru i rym. Cynyddodd y Ddeddf y pwerau sydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) a gwahanu swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi datganoli pwerau deddfu mewn nifer o feysydd allweddol, yn cynnwys addysg, y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaethau iechyd. Mae Llywodraeth y DU yn dal yn gyfrifol am yr heddlu a'r system gyfreithiol, treth a budd-daliadau; lloches a mewnfudo a chyfiawnder ieuenctid ac mae'n rhoi ei grant bloc i'r Cynulliad yng Nghymru.² O ganlyniad i doriadau Clymblaid y DU, disgwylir y bydd gostyngiadau i gyllideb Llywodraeth Cymru gymaint ag £1.8bn neu 7% dros 4 blynedd³ fydd yn effeithio ar gyflenwi gwasanaethau yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymgynghori ar greu awdurdodaeth ar wahân i Gymru yn y DU, ac mae Comisiwn Silk yn bwriadu ymestyn pwerau cyllidol CCC o dymor yr hydref 2012.

Grŵp Monitro CCUHP Cymru

Er 2002, mae Grŵp Monitro CCUHP Cymru wedi cynyddu o ran maint a chryfder gan arwain at ymgysylltu Cyrff Anllywodraethol a sefydliadau academiaidd yn fwy yn datblygu dealltwriaeth o bwysigrwydd CCUHP. Cryfder y Grŵp Monitro yw ei ystorfa gadarn o wybodaeth ac arbenigedd amlddisgyblaethol yn ogystal â'i gysylltiadau â meysydd ehangach o wybodaeth a dylanwad yng Nghymru, ar draws y DU ac yn rhyngwladol. Gan fanteisio ar bŵer y fframwaith rhyngwladol, yn arbennig proses adrodd CCUHP, cyhoeddwyd *Righting the wrongs: the reality of children's rights in Wales*⁴ ac Aros, edrych, gwranddo: sut mae gwireddu hawliau plant⁵ yn 2006 a 2007. Mae'r adroddiadau cadarn hyn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn ymwneud â sefyllfa hawliau plant yng Nghymru, wedi bod o gymorth yn datblygu trafodaeth adeiladol a beirniadol ar y cyd ar faterion hawliau plant yng Nghymru.

Mae'r Grŵp wedi cyfrannu at newidiadau sylweddol i'r broses o wneud polisiau strategol ar gyfer plant yng Nghymru ac at y ffaith mai Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i ymgorffori CCUHP (o fewn ei chyfyngiadau datganoledig) yn ei chyfraith ddomestig.

*"Mae'n rhaid i mi ddweud bod y ddeddfwriaeth hon yn ddarn hanesyddol ac rwy'n talu teyrnged i bawb oedd yn gysylltiedig â hi yn arbennig i Grŵp Monitro CCUHP, a roddodd dystiolaeth o ansawdd uchel yn fy mam i."*⁶

Mae ei benderfyniad i gadw'r rôl annibynnol gref yn ogystal ag ymgysylltu mewn deialog uniongyrchol a rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, cefnogi datblygiad gwybodaeth am hawliau dynol plant yn ogystal â chynghori ynghylch sut i ddatblygu safbwynt hawliau plant ar draws mecanwaith Llywodraeth, wedi bod yn hanfodol i'w lwyddiant.

1 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2012

2 Mae Atodlen 6 o'r Cynnig Cyllidebol Blynnyddol yn dangos bod Trysorlys EM wedi darparu £15.4 biliwn ar gyfer cyfanswm bloc Cymru ym mlwyddyn ariannol 2013-14. Mae hwn £339,000 yn is nag y nodwyd ar adeg y gyllideb ddrafft.

3 Mae'r ffigurau gwirioneddol yn destun dadl yn dibynnu a yw chwyddiant yn cael ei ystyried neu beidio.

4 Croke & Crowley (gol) *Righting the wrongs: the reality of children's rights in Wales*. Achub y Plant 2006.

5 Croke & Crowley (gol) *Aros, edrych, gwranddo: sut mae gwireddu hawliau plant yng Nghymru*. Achub y Plant 2007.

6 Cofnod y Trafodion, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 18 Ionawr 2011.

Mae'r adroddiad hwn, *Hawliau Nawr*, *Hawliau Heddiw*: A yw hawliau plant yn realaeth yng Nghymru? yn safbwynt interim Grŵp Monitro CCUHP Cymru y mae wedi bod galw amdano ers tro o'r graddau y mae'r gyfraith, polisi ac ymarfer yng Nghymru wedi datblygu ers i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn gyhoeddi Arsylwadau Terfynol y DU 2008 ar gyfer Llywodraeth y DU.⁷ Mae'r adroddiad hwn wedi mabwysiadu canllawiau Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn ymwneud â'r wyth clwstwr thematig a nododd y cynnydd a wnaed yn erbyn yr Arsylwadau Terfynol o dan y meysydd thematig perthnasol.

Casglu tystiolaeth

Cynhaliodd Grŵp Monitro CCUHP Cymru gyfres o wrandawiadau a seminarau dilynol a wnaeth wahodd tystion arbenigol i drafod y cynnydd (neu'r diffyg cynnydd) mewn perthynas â maes o Arsylwadau Terfynol y DU 2008 ac annog trafodaeth grŵp yn ymwneud â'r ffordd orau ymlaen o ran eu gweithredu.

Gwahoddwyd tystion arbenigol oedd yn cynrychioli Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus, y sector gwirfoddol a sefydliadau academiaidd i gyfrannu tystiolaeth ysgrifenedig ac, yn y rhan fwyaf o achosion, tystiolaeth lafar. Fel rhan o'r sesiynau llafar, clywodd y grŵp gan uchafswm o bum tyst arbenigol ym mhob gwrandawriad. Cafodd cyflwyniadau ysgrifenedig eu hannog gan unigolion nad oeddent yn gallu mynychu sesiynau'r gwrandawriad.

Cynhaliwyd y gwrandawiadau rhwng Hydref 2011 a Hydref 2012, gan ganolbwyntio ar feysydd thematig hawliau plant, sef Tlodi Plant, Iechyd Plant, Anabledd, Amddiffyn Plant a Chyfiawnder yr Ifanc. Yn ystod y cyfnod o Hydref - Rhagfyr 2012 cafodd tystiolaeth ysgrifenedig ei chydgrynhoi gan dystion arbenigol ar bynciau Cyfranogiad, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Chwarae a Chosb Gorfforol.

Canfuodd Grŵp Monitro CCUHP Cymru fod y dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig yn gyfraniad gwerthfawr iawn i'r sail dystiolaeth sylweddol sydd yn tanategu'r adroddiad hwn. Mae hyn, ar y cyd ag arbenigedd awduron y penodau a'u rhwydweithiau, llenyddiaeth ac ymchwil ehangach, wedi cael eu defnyddio i ddangos y cynnydd (neu'r diffyg cynnydd) ar yr Arsylwadau Terfynol ac yn gwneud argymhellion allweddol i'r rheiny sydd â'r ddyletswydd berthnasol.

System goleuadau traffig

Mae'r adroddiad hwn yn dilyn y system goleuadau traffig a ddefnyddiwyd yn Aros, edrych, gwrandao: sut mae gwireddu hawliau plant yng Nghymru, er mwyn i'r darllenydd wybod ar unwaith lefel y cynnydd yn ymwneud â phob Arsywl Terfynol. Ei fwriad yw hysbysu'r rheiny sydd â'r ddyletswydd allweddol ble y dylent ganolbwyntio eu hymdrechion.



Coch = Cynnydd cyfyngedig er 2008 o ran datblygiad polisi/deddfwriaeth/canllawiau sy'n hyrwyddo'r Arsywl Terfynol a gweithredu annigonol o ran hawliau plant ar lefel cyflenwi gwasanaeth.



Ambr = Cynnydd da er 2008 o ran datblygiad polisi/deddfwriaeth/canllawiau sy'n hyrwyddo'r Arsywl Terfynol ond mae angen gwneud mwy yn arbennig ar lefel cyflenwi'r gwasanaeth er mwyn gweithredu hawliau plant yn effeithiol.



Gwyrdd = Cynnydd rhagorol er 2008 o ran datblygiad polisi/deddfwriaeth/canllawiau a cheir tystiolaeth bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar lefel cyflenwi gwasanaeth gyda hawliau plant yn cael eu gweithredu'n llawn.

7 49fed Sesiwn y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn, Ystyriaeth o adroddiadau'r Partïon Gwladwriaethau yn unol ag Erthygl 44 o Arsylwadau Terfynol y Confensiwn: Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon. CRC/C/GBR/CO/4 20 Hydref 2008 <http://www2.ohchr.org/english/bodies/crc/docs/AdvanceVersions/CRC.C.GBR.CO.4.pdf>

Adrodd gan gyrff anllywodraethol 2013-2014

Bydd Grŵp Monitro CCUHP Cymru yn canolbwyntio ar fonitro cyfres bellach o bynciau yn ymwneud ag Arsylwadau Terfynol y DU 2008 yn ystod 2013, yn cynnwys plant Sipsiwn Teithwyr; addysg, budd pennaf, plant sy'n derbyn gofal, materion LGBT a Cheiswyr Lloches a Ffoaduriaid. Bydd y meysydd pwnc hyn yn cyfrannu at yr adroddiad terfynol i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Trosolwg o Hawliau Nawr, Hawliau Heddiw: A yw hawliau plant yn realaeth yng Nghymru?

Ymagwedd wahanol tuag at hawliau plant yng Nghymru

Mae *Hawliau Nawr, Heddiw a Thu Hwnt* yn cydnabod bod plant wedi bod yn flaenoriaeth i lywodraethau yng Nghymru ers datganoli ac mae'r cyd-destun polisi a deddfwriaethol gwahanol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru wedi arwain at rai datblygiadau radical a blaengar sy'n cefnogi hawliau plant a phobl ifanc.

Er 2008 mae dau ddarn allweddol o ddeddfwriaeth wedi cael eu datblygu i greu newid ar gyfer plant yng Nghymru. Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn cwmpasu ymagwedd ehangach tuag at dlodi plant na Deddf Tlodi Plant y DU, gan grynhoi 13 o Nodau Eang sydd yn cynnwys nodau y gellir eu cysylltu'n glir ag egwyddorion hawliau dynol, fel dim gwahaniaethu, cyfranogiad a goroesi a datblygiad.

Golygodd y ddeddfwriaeth arloesol, Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 mai Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mewn cyfraith ddomestig, a roddodd gyfle tyngedfennol i ni fynd â'r gwaith o sefydlu'r ymagwedd sy'n seiliedig ar hawliau dynol plant ymhellach. Mae'r Mesur hwn yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r cyfrifoldebau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'i Brotocolau Dewisol. Daw'r ddeddfwriaeth mewn dau gam; yn gyntaf, o 1 Mai 2012, yn berthnasol i wneud cyfraith neu bolisi newydd ac adolygu polisiâu presennol ac o 1 Mai 2014 bydd yn berthnasol i holl swyddogaethau Gweinidogion Cymru.

Mae'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, a ddechreuodd ei daith trwy'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Ionawr 2013 ac y bydd yn dechrau ar 1 Ebrill 2016, yn rhoi cyfle deddfwriaethol pwysig arall i gyflenwi o ran gwella lles plant a gwneud newidiadau i strwythurau diogelu. Fodd bynnag, mae angen i hawliau a chanlyniadau plant fod yn fwy amlwg yn y Bil er mwyn gwireddu hawliau plant yn llawn yn y system amddiffyn plant.

Yn 2011, Cymru oedd y wlad gyntaf erioed i dderbyn Gwobr Hawl i Chwarae gan y Gymdeithas Chwarae Ryngwladol. Rhoddwyd y wobr i gydnabod y cynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud mewn perthynas â'r hawl i chwarae.⁸

Mewn cyferbyniad, mae *Hawliau Nawr, Heddiw a Thu Hwnt* yn amlygu lle mae polisi Llywodraeth San Steffan wedi parhau i weithio yn erbyn graen y Confensiwn mewn meysydd fel cosbi plant yn gorfforol a chyfiawnder yr ifanc. Ni chafwyd unrhyw newid perthnasol yn sefyllfa Llywodraeth y DU o ran cydymffurfio â CCUHP a chyfiawnder yr ifanc ers adroddiad y Parti Gwladol yn 2008. O ran cosb gorfforol, mae llywodraeth y DU yn parhau i amddiffyn ei safle presennol, nid yw amddiffyn cosbi rhesymol, yn ei barn hi, yn mynd yn erbyn hawliau dynol plant. Yr hyn sydd yn peri mwy o bryder efallai yw ers datganoli, bod llywodraethau olynol Cymru wedi cefnogi'r alwad i ddiwygio'r gyfraith i roi'r un amddiffyniad i blant yng Nghymru rhag cael eu taro, ond, er 2011, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhyfeddol o dawel yn ymwneud â'r farn wahanol y mae wedi ei mynegi mor feiddgar

a huawdl yn aml. Dylai Llywodraeth Cymru achub ar y cyfle i fynegi'r ymrwymïadau y mae wedi eu datgan yn ymwneud â hawliau plant a dangos arweinyddiaeth ar y mater hwn fel mater o frys.

Y bwlch rhwng polisi a gweithredu

Yr hyn sy'n peri pryder mawr ac, fel y nodir yn *Aros, edrych, gwranddo yn 2007*, er gwaethaf ymrwymiad clir i sicrhau bod hawliadau yn seiliedig ar hawliau yn bodoli ar lefel polisi a deddfwriaethol yng Nghymru, mae realaeth bresennol profiad plant yn dal ymhell y tu ôl i'r hyn y gallent ei ddisgwyl mewn cenedl ffyniannus a datblygedig. Mae cynnydd yn dileu tlodi plant a lleihau anghydraddoldebau yng Nghymru wedi pallu. Mae ffigurau presennol y Llywodraeth yn rhoi lefelau tlodi plant ar 200,000 neu 31% o blant yng Nghymru.⁹ Yn seiliedig ar y ffigurau presennol, er mwyn bodloni targed 2020 Llywodraeth Cymru i ddileu tlodi plant, byddai'n rhaid i'r lefelau presennol ostwng 4 gwaith yn gyflymach yn y degawd nesaf nag y gwnaethant yn y degawd diwethaf.¹⁰

Mae data Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos bod anghydraddoldebau yn parhau wrth gymharu'r pumed mwyaf difreintiedig o'r boblogaeth â'r pumed lleiaf difreintiedig o ran y dangosyddion canlynol: pwysau geni isel, beichiogi yn yr arddegau, anafiadau cerddwyr sydd yn blant a derbyniadau i'r ysbyty. Fodd bynnag, mae data Arolwg Amenedigol Cymru Gyfan yn awgrymu y gallai'r anghydraddoldeb o ran marw-enedigaethau a marwolaethau babanod fod yn lleihau.

Yn 2009 daeth archwiliad ar y cyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, AGIC, Estyn, ac AGGCC o wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion emosiynol ac iechyd meddwl¹¹ i'r casgliad: "er gwaethaf rhai gwelliannau dros y blynyddoedd diweddar, mae gwasanaethau yn dal i esgeuluso llawer o blant a phobl ifanc, sydd yn adlewyrchu'r rhwystrau allweddol rhag gwella." Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynllun gweithredu (Chwalu'r Ffiniau, 2010), wedi pasio'r Mesur Iechyd Meddwl ac wedi cyhoeddi strategaeth iechyd ar gyfer pob oed, Law yn Llaw at Iechyd Meddwl. Y gobaith yw y bydd y pentwr hwn o fesurau newydd yn mynd i'r afael â'r bwlch o ran gweithredu ac na fydd gwasanaethau iechyd meddwl plant sydd mor hanfodol i gefnogi'r grwpiau agored i niwed niferus o blant a phobl ifanc mewn argyfwng bellach.

Mae *Hawliau Nawr, Heddiw a Thu Hwnt* yn adrodd bod esgeuluso plant yn dal yn broblem ystyfnig ac mai dyma'r rheswm mwyaf cyffredin yn barhaus dros roi plant ar y gofrestr amddiffyn plant yng Nghymru. Gan gymharu'r niferoedd ar y gofrestr amddiffyn plant dros y blynyddoedd diweddar, cafwyd cynnydd cyson: rhwng 2004 a 2012 mae'r niferoedd wedi cynyddu 34%. Yr hyn sydd hefyd yn achos pryder yw bod niferoedd y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi cynyddu 24% dros y pum mlynedd diwethaf ac mae gan Gymru bellach y gyfradd uchaf (92 fesul 10,000 o'r boblogaeth o dan 18 oed) o blant sy'n derbyn gofal y pen o'r boblogaeth ar draws gwledydd y DU.

Mae gwranddo ar blant fel yr arbenigwyr ar eu bywydau mor bwysig ag erioed a chaiff ei amlygu trwy gydol *Hawliau Nawr, Heddiw a Thu Hwnt*. Mae'r gwarth diweddar yn ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol yn pwysleisio nad ydym bob amser wedi gwranddo ar blant. Mae *Hawliau Nawr, Heddiw a Thu Hwnt* hefyd yn mynegi pryderon yn ymwneud â gweithredu Erthygl 12 yn llawn mewn gweithrediadau cyfreithiol o ran nad yw barn plant yn cael ei chlywed ac na roddir digon o bwysau iddi ac nad oes unrhyw un yn ymgynghori â'r plant a'r bobl ifanc hynny am ddatblygiad y gwasanaethau. Er 2008, cafwyd datblygiadau sylweddol yn ymwneud â gwireddu Erthygl 12 yng Nghymru, gyda chynnydd cyflym mewn gweithgareddau cyfranogiad a pholisïau yn cynnwys plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, mae'r rhethreg o ran cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau yn dal mewn cyferbyniad ag ymarfer cyfranogiad plant, sydd yn dal yn dameidiog ac ymhell o fod yn gynhwysol nac wedi ei sefydlu.

9 DWP (2012). Households Below Average Income: An analysis of the income distribution 1994/95–2010/11, Mehefin 2012. Llundain: Y Llyfrfa.

10 Kenway, P. & Parekh, A (2011). Op. cit.

11 http://www.wao.gov.uk/assets/englishdocuments/CAMHS_eng.pdf

Prinder data'n cael ei gasglu ar fywydau plant

Mae'r adroddiad trwyddo draw yn cydnabod bod prinder data sy'n cael ei gasglu am fywydau plant. Ni chafwyd unrhyw arolwg pendant ar iechyd meddwl na lles emosiynol plant yng Nghymru. Ceir absenoldeb data da ar lefelau cenedlaethol a lleol ar broffil ac ar adnabod plant carcharorion, camfanteisio'n rhywiol ar blant a masnachu mewn plant yng Nghymru. Nid oes unrhyw gronfa ddata unigol sy'n cofnodi yn rheolaidd y trais a'r cam-drin y mae plant a phobl ifanc yng Nghymru yn ei brofi ac er gwaetha'r ffaith mai bwllo yw'r ail reswm pennaf y mae plant yn cysylltu â ChildLine, nid yw Llywodraeth Cymru yn monitro achosion o fwlio yn ganolog. Ceir diffyg data wedi ei ddatgyfuno sydd yn mesur profiad grwpiau agored i niwed fel plant anabl, BME, Sipsiwn Teithwyr ac ati. Heb ddatgyfuno data yn briodol, mae'r grwpiau hyn yn mynd yn fwy ac yn fwy anweledig mewn polisi a darpariaeth gwasanaethau.

Cynilo ariannol

Mae toriadau mewn gwariant cyhoeddus¹² eisoes yn effeithio ar gyflenwi gwasanaethau yng Nghymru. Nodir hefyd bod cyllid yn aml yn rhywbeth tymor byr a manteisgar, sydd yn cyfyngu'r effaith y gall strwythurau a gwasanaethau eu cael ar gyfer plant a phobl ifanc sydd yn gadael gwasanaethau a strwythurau yn fwy agored i ail-flaenoriaethu gwleidyddol a mwy o ostyngiadau mewn gwariant cyhoeddus.

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu dirprwyo i fynd i'r afael â'r ystod lawn o ymyriad â hawliau plant, gan gymryd pob cam o fewn ei gallu i gyflenwi, blaenoriaethu ac ariannu gwasanaethau effeithiol ar gyfer plant i *'raddau eithaf yr adnoddau sydd ar gael'*. Mae'n fwy hanfodol nag erioed yn y cyfnod hwn o gynilo ariannol bod Llywodraeth Cymru'n ymrwymo i ddangos yn dryloyw cyfran y gwariant ar blant ac nad yw'r ffocws ar blant yn mynd ar goll fel rhan o'r pontio i agenda integredig o ddarparu gwasanaethau ar gyfer oedolion a phlant.

Casgliad

Yn erbyn y cefndir hwn, mae angen gwneud mwy o waith i ddysgu blaenoriaethau a rennir a pherchnogi'r agenda hawliau plant ar draws portffolios y Llywodraeth a rhwng llywodraeth genedlaethol a lleol a sectorau eraill. Mae angen gweithredu unedig i leihau'r bwlch o ran gweithredu rhwng rhethreg polisi cenedlaethol a chyflenwi lleol. Mae angen integreiddio rhaglenni a mentrau yn well er mwyn cydweithio'n fwy effeithiol i gael yr effaith strategol angenrheidiol.

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn rhoi cyfle hanfodol i ni weithredu hawliau plant yng Nghymru yn well. Fodd bynnag, mae angen i Weinidogion Cymru ddangos arweinyddiaeth gref - Gweinidogion sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r Mesur - a Gweinidogion sydd yn bennaf gyfrifol am sicrhau bod hyrwyddo hawliau plant yn cael ei gymryd o ddifrif yn y broses rhwng polisi a gweithredu yng Nghymru. Mae gan aelodau'r Cynulliad, Comisiynydd Plant Cymru, cyrff anllwydraethol a phlant a phobl ifanc eu hunain rôl hanfodol hefyd yn craffu ar benderfyniadau Gweinidogion ac, fel eiriolwyr penderfynol, cyfrannu at ddatblygiad parhaus diwylliant cryf o hawliau plant yng Nghymru.

Ein gobaith yw y bydd yr adroddiad hwn yn cyfrannu at y broses hanfodol o ddwyn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gyfrif er mwyn creu newid ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru a'i fod yn nodi dechrau agenda glir ar gyfer gweithredu gan ein rhoi mewn sefyllfa llawer cryfach wrth i ni wynebu dechrau cyfnod adnodd nesaf CCUHP.

12 Mae'r ffigurau gwirioneddol yn destun dadl yn dibynnu a yw chwyddiant yn cael ei ystyried neu beidio.

Pennod Dau: Mesurau gweithredu cyffredinol

Rhian Croke a Pat Dunmore, Achub y Plant, Dr Simon Hoffman a Jane Williams, Arsyllfa Cymru ar Hawliau Plant a Phobl Ifanc.

Deddfwriaeth



CRC/C/GBR/CO/4 para 11: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Parti Gwladol yn parhau i gymryd camau i wneud ei ddeddfwriaeth yn unol â'r Confensiwn.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru

Tra bod y gwrthwynebiad i weithredu'r Confensiwn mewn cyfraith ddomestig yn parhau ar lefel y DU, cafwyd datblygiadau sylweddol yng Nghymru. Ar 14 Gorffennaf 2009, cyhoeddodd Rhodri Morgan, Prif Weinidog Cymru ar y pryd, y byddai ei lywodraeth yn archwilio'r posibilrwydd o sefydlu egwyddorion y Confensiwn yn gyfraith ar ran plant Cymru. Roedd yr ymrwymiad gwleidyddol hwn yn cael ei ystyried fel parhad safbwynt parhaus gan Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol.¹³ Cymerodd y broses ddeddfwriaethol dair blynedd arall: cafodd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 (y Mesur) Gymeradwyaeth Frenhinol ar 16 Mawrth 2011, a daeth i rym ar 1 Mai 2012. Y Mesur yw'r cyntaf, a hyd yma'r unig fesur deddfwriaethol cyffredinol sy'n gweithredu'r Confensiwn mewn cyfraith ddomestig yn y DU: mae mewn grym yng Nghymru yn unig.

Mae Adran 1 o'r Mesur yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus¹⁴ i'r hawliau a'r rhwymedigaethau yn Rhan Un o'r Confensiwn ac i adrannau penodedig ei BroTOCOLau Dewisol. Mae'r ddyletswydd i roi sylw dyledus yn berthnasol pan fydd Gweinidogion yn ymarfer eu swyddogaethau. Daw'r Mesur i rym mewn dau gam: o 1 Mai 2012 mae'r ddyletswydd i roi sylw dyledus yn berthnasol pan fydd Gweinidogion yn llunio cyfraith neu bolisi newydd, neu'n adolygu neu'n diwygio; o 1 Mai 2014 bydd y ddyletswydd i roi sylw dyledus yn berthnasol pan fydd Gweinidogion yn ymarfer unrhyw un o'u swyddogaethau.

Yng nghyd-destun argymhelliad y Pwyllgor mae'r Mesur yn arwyddocaol gan fod adran 6 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio deddfwriaeth nad yw'n cydymffurfio â'r Confensiwn neu ei BroTOCOLau Dewisol. Bydd y pŵer yn cael ei ymarfer o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae ymarfer y pŵer hwn yn dibynnu ar adnabod diwygiadau posibl trwy broses adrodd a gyflwynwyd gan y Mesur: mae adran 4 yn sefydlu gofyniad i Weinidogion adrodd ar gynnydd tuag at gydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus - i ddechrau erbyn 31 Ionawr 2013, a phob pum mlynedd wedi hynny.

Mae agweddau arwyddocaol pellach y Mesur fel a ganlyn: gofyniad, yn unol ag adran 2, i gael Cynllun Plant yn nodi'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus. Ceir rhwymedigaeth gysylltiedig i ymgynghori â rhanddeiliaid allanol wrth ddatblygu'r Cynllun (yn cynnwys Comisiynydd Plant Cymru, y sector gwirfoddol a phlant a phobl ifanc (adran 3), ac i roi sylw i adroddiadau ac argymhellion a wnaed gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.¹⁵

13 Datganiad llafar y Prif Weinidog Rhodri Morgan (14 Gorffennaf 2009). Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009-10.

14 Mae'r ddyletswydd i roi sylw dyledus yn addas ar gyfer cyd-destun datganoli yng Nghymru. Mae'n golygu newid cadarnhaol yn weinyddol ond ni fydd yn cael effaith ar unioni barnwrol yn y llysoedd. Mae hyn yn briodol o ystyried cyfnod penodol datganoli yng Nghymru a chan fod Cymru'n rhannu ei system gyfreithiol â Lloegr.

15 Cyhoeddwyd y Cynllun Hawliau Plant cyntaf ym mis Mawrth 2012 a chaiff ei ddiwygio erbyn mis Mai 2014.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei adroddiad cyntaf yn unol ag adran 4 ar 31 Ionawr 2013. Cafwyd rhai datblygiadau cadarnhaol, er enghraifft, sefydlu Tîm Gweithredu Mesur Llywodraeth Cymru, cyflwyno proses asesu'r effaith ar hawliau plant, a hyfforddiant 'sylw dyledus' ar-lein ar gyfer swyddogion. Ceir rhywfaint o dystiolaeth hefyd o sylw dyledus yn cael ei roi i'r Confensiwn mewn meysydd polisi ac wrth ddatblygu deddfwriaeth (e.e. Bil Teithio, Bil Trawsblannu Dynol).

Mae nifer o feysydd yn peri pryder fodd bynnag. Caiff y rhain eu nodi mewn asesiad o Adroddiad Cynnydd y Cynllun Hawliau Plant¹⁶ a wnaed gan Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc.¹⁷

Trefniadau sefydliadol

Er bod y Cynllun Plant yn hyrwyddo'r syniad o arweinyddiaeth gan uwch swyddogion o ran gweithredu'r ddyletswydd o roi sylw dyledus, mae'r adroddiad cynnydd yn awgrymu tynnu'n ôl o'r sefyllfa hon. Y bwriad gwreiddiol oedd arweinyddiaeth, cyngor ac arweiniad i hyrwyddo hawliau plant ar draws meysydd y Cyfarwyddwr Cyffredinol. Mae'r dull bwriadol hwn ers hynny wedi cael ei wanhau trwy gyflwyno Grŵp Monitro'r Cynllun Hawliau Plant sy'n ymddangos i fod â chylch gorchwyl llai rhagweithiol. Mae arweinyddiaeth effeithiol yn hanfodol er mwyn gweithredu'r ddyletswydd i roi sylw dyledus yn y fath fodd a fyddai'n sicrhau bod deddfwriaeth newydd yn cydymffurfio â'r Confensiwn ac er mwyn sicrhau adolygiad systematig o ddeddfwriaeth bresennol.

Asesiad effeithiol a thryloyw o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA)

Mae CRIA yn allweddol i weithredu'r ddyletswydd i roi sylw dyledus yn effeithiol ac i sicrhau bod deddfwriaeth yn cydymffurfio â'r Confensiwn. Mae cyflwyno offeryn 'Chwe Cham' o asesu effaith fel agwedd ar weithredu'r ddyletswydd i roi sylw dyledus yn rhywbeth newydd, cadarnhaol. Er mwyn pennu a yw ystyried hawliau cadarn yn cael ei wneud yn ddigon trylwyr, ac felly a yw'r ddyletswydd i roi sylw dyledus yn cael ei chymhwyso'n iawn, mae angen i'r broses CRIA fod yn dryloyw ac yn agored i graffu. Er y dywedir wrthym y bydd swyddogion yn cadw cofnod o brosesau'r CRIA, nid yw'r rhain ar gael i gyrff anllwyodraethol eu hystyried. Mae hyn yn rhwystro craffu ac atebolrwydd priodol. Yn absenoldeb tryloywder, ni ellir cadarnhau bod pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod deddfwriaeth yng Nghymru yn cydymffurfio â'r Confensiwn. Ceir hefyd diffyg data i gadarnhau (neu i wrthbrofi) honiadau'n ymwneud ag ymgymeriad cymorth a mentrau hyfforddiant gan swyddogion, data fel nifer y cyfranogwyr, lefel ac adrannau. Mae'r dystiolaeth o effaith y prosesau hyn, h.y. asesiadau ansoddol ynghylch a yw'r hyfforddiant a'r cymorth yn cynyddu gwybodaeth ynghylch hawliau'r Confensiwn, yn gyfyngedig iawn hefyd.

Adolygiad o'r ddeddfwriaeth Bresennol

Fel y nodir uchod, mae'r Mesur yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio deddfwriaeth nad yw'n cydymffurfio os caiff hyn ei nodi mewn adroddiad a gyhoeddwyd yn unol ag adran 4 o'r Mesur. Nid yw'r adroddiad cyntaf a gyhoeddwyd yn unol â'r adran hon yn nodi deddfwriaeth at y diben hwn. Enghraifft o'r ddeddfwriaeth sydd yn addas ar gyfer ei diwygio o fewn pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw adran 58 o Ddeddf Plant 2004. Yn ei hanfod, mae adran 58 yn parhau i amddiffyn cosbi plant yn rhesymol gan eu rhieni a thrwy hyn mae'n awdurdodi ymosod yn gyfreithiol ar blentyn. Mae'n anffodus nad yw'r adroddiad cynnydd yn ceisio nodi deddfwriaeth (yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i adran 58), sydd yn addas i'w diwygio (Gweler Pennod Pedwar: Cosb Gorfforol am drafodaeth bellach).

¹⁶ Ymateb Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc i Adroddiad Cynnydd Cynllun Hawliau Plant Llywodraeth Cymru (2013) (ardystiwyd gan Grŵp Monitro CCUHP Cymru).

¹⁷ Mae Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc wedi ei leoli ym Mhrifysgol Abertawe.

Cydgysylltu



CRC/C/GBR/CO/4 para 13: Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd ei argymhelliad blaenorol bod y Parti Gwladol yn sicrhau cydgysylltu effeithiol wrth weithredu'r Confensiwn ar draws y Parti Gwleidyddol.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru

Cyn 2011, cymerwyd camau addawol yng Nghymru i wella cydgysylltu CCUHP ar draws Llywodraeth Cymru. Cafodd Gweinidog Plant â chyfrifoldeb dros CCUHP yng Nghymru ei sefydlu yn 2002 a chafodd Pwyllgor Cabinet ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ei sefydlu yn 2003. Cafodd y Pwyllgor Cabinet ei gadeirio gan y Gweinidog Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes gyda Grŵp Swyddogion Plant a Phobl Ifanc i gefnogi ei waith. Roedd Prif Weinidog Cymru hefyd yn aelod.

Roedd cylch gorchwyl y Pwyllgor yn cynnwys sicrhau bod buddion plant a phobl ifanc yn cael blaenoriaeth ddyledus yn holl waith y Cabinet a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud polisiau; goruchwyllo'r gwaith o weithredu CCUHP yng Nghymru a 'Saith Nod Craidd' Llywodraeth y Cynulliad; a sicrhau ymagwedd strategol tuag at ddatblygu polisiau a rhaglenni er mwyn cyflenwi ymrwymadau i blant a phobl ifanc.¹⁸

Fel sydd yn wir yn rhannau eraill o'r DU, mae diffyg adnoddau a grym gwleidyddol yn dal yn rhwystrau allweddol i gydgysylltu a monitro gweithredu CCUHP yn foddhaol ar draws llywodraeth yng Nghymru. Mynegwyd pryderon yn ddiweddar bod hawliau plant yn dechrau llithro i lawr yr agenda gwleidyddol yng Nghymru. Gellir cadarnhau'r pryder hwn yn rhannol gan mai Dirprwy Weinidog sy'n gyfrifol am blant (yn flaenorol roedd yn rhan o bortffolio uwch Weinidog) ac nid oes bellach Pwyllgor Cabinet ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.

Yn ymateb y Dirprwy Weinidog i gais y Grŵp Monitro am dystiolaeth¹⁹ nododd er nad yw'r Pwyllgor Cabinet ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yn bodoli, ei fod eisiau iddo gael ei gydnabod ei fod yn ofyniad yn unol â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 bod pob Gweinidog yn 'ystyried dystiolaeth o'r ffordd y mae hawliau plant wedi cael eu hystyried o fis Mai 2012 ymlaen'. Tynnodd y Dirprwy Weinidog sylw hefyd at y gofyniad yn y Mesur bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gynnwys ac ymgynghori â phlant a phobl ifanc. Mae ymatebion y Dirprwy Weinidog yn adlewyrchu effaith bwysig Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) yn cyffredinol i'r cyfrifoldeb o weithredu CCUHP ar draws holl swyddogaethau Llywodraeth Cymru a'r ffordd y gall y Cynllun Hawliau Plant helpu i sicrhau strwythurau effeithiol ar gyfer gweithredu ar draws Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae angen egluro nifer o faterion ymhellach a/neu weithredu arnynt.

Nid yw'n glir o'r Cynllun Hawliau Plant bod gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol gyfrifoldeb dros gydgysylltu a monitro CCUHP ar draws y llywodraeth. Yn wir, mae'r Cynllun ac ymateb y Dirprwy Weinidog yn awgrymu bod y cyfrifoldeb dros weithredu yn cael ei gyffredinoli neu ei wasgaru ymysg holl Weinidogion Cymru. Mae hyn yn dda gan fod angen gweithredu ar draws pob maes polisi sydd wedi ei ddatganoli. Fodd bynnag, mae diffyg cydlynw'r gwaith o weithredu CCUHP yn ganolog o fewn Llywodraeth Cymru yn achos pryder: os yw pawb yn gyfrifol y perygl yw nad oes unrhyw un yn atebol. Fel y nodwyd uchod, nid yw rôl Grŵp Monitro'r Cynllun

¹⁸ <http://wales.gov.uk/about/cabinetsubcommittees/cyp/?lang=en>

¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i Grŵp Monitro CCUHP Cymru yn 2012 mewn perthynas â chynnydd Mesurau Cyffredinol Gweithredu gan y Dirprwy Weinidog Plant, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Hawliau Plant newydd a phwy sydd yn atebol yn gyffredinol yn glir yn adroddiad cynnydd diweddar y Cynllun Hawliau Plant. Mae tranc y Pwyllgor Cabinet ar gyfer Plant yn achos pryder am yr un rheswm: dywedir bod hawliau plant wedi cael eu cyffredinoli gan y ddyletswydd i roi sylw dyledus yn unol â'r Mesur, ond mae cydgysylltu canolog ac atebolrwydd gwleidyddol wedi cael eu gwanhau.

Cyfranogiad plant a phobl ifanc

Bydd ymgynghori â phlant a phobl ifanc fel sy'n ofynnol gan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn cael ei groesawu ond dim ond rhan fach o gyfranogiad effeithiol plant a phobl ifanc ydyw yn ymwneud â monitro a gweithredu. Mae angen eglurhad ynghylch cyfranogiad arfaethedig plant a phobl ifanc yn 'craffu a gweithredu'. Yn ymarferol, dylai cyfranogiad plant a phobl ifanc ddod i'r amlwg fel rhan o ddiwylliant o newid sy'n cael ei greu gan y Mesur. Rydym yn disgwyl gweld rôl glir a chefnogaeth i'r Ddraig Ffyni yn ogystal â rhwydweithiau'r Comisiynydd Plant fel rhan o hyn, gan wneud defnydd effeithiol o sefydliadau presennol sydd wedi datblygu amgylchedd sy'n canolbwyntio'n benodol ar hawliau plant (gweler hefyd Pennod Tri: Cyfranogiad).

Rôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Pwyllgor Pobl Ifanc

Cafodd Pwyllgor Plant a Phobl Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei sefydlu yn 2008. Yn 2011, fel rhan o'r pedwerydd Cynulliad, cafodd Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc newydd â chylch gorchwyl i "*archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif trwy graffu ar wariant, gweinyddu a materion polisi yn cwmpasu: addysg, iechyd a lles plant a phobl ifanc Cymru, yn cynnwys eu gofal cymdeithasol*" ei sefydlu. Roedd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn hanfodol i ddatblygu'r Mesur ar hyd ei daith ddeddfwriaethol yn unol â chyfarwyddyd cadarn y Cadeirydd bryd hynny, Helen Mary Jones, Plaid Cymru AC.²⁰

Ym mis Mai 2012, croesawodd Cadeirydd Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cynulliad Cenedlaethol argymhelliad y Grŵp Monitro eu bod yn parhau â'r rôl hanfodol o sicrhau craffu a monitro penderfyniadau a pholisïau Gweinidogion Cymru yn drawsbynciol mewn perthynas â gweithredu CCUHP a chydymffurfio â'r Mesur. Mynegodd y Cadeirydd ei dymuniad bod ei Phwyllgor yn cael ei lywio gan waith parhaus y Grŵp Monitro wrth i'r Pwyllgor fynd at y dasg o graffu ar feysydd yn ymwneud â phlant ac yn arbennig wrth ystyried adroddiad cynnydd cyntaf Gweinidogion Cymru yn unol â'r Mesur.

Rhoddodd Arsyllfa Cymru a'r Grŵp Monitro hyfforddiant i'r Pwyllgor ym mis Hydref 2012 er mwyn cefnogi gallu'r Pwyllgor i gwestiynu gweithredu'r llywodraeth ym mhob maes o safbwynt hawliau plant. Yn dilyn yr hyfforddiant, gwnaed ymrwymiad pellach gan y Pwyllgor i graffu ar adroddiad cynnydd y Cynllun Hawliau Plant a hefyd Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar hawliau plant yn ystod gwanwyn 2013. Y gobaith yw y bydd pob Pwyllgor, nid y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn unig yn cael hyfforddiant ar hawliau dynol plant a "sylw dyledus" mewn perthynas â'r Mesur a bydd yn cyflawni'r cyfrifoldeb o graffu ar benderfyniadau'r Gweinidogion o ran cydymffurfio â CCUHP.

Cynlluniau gweithredu cenedlaethol



CRC/C/GBR/CO/4 para 15: Y Pwyllgor yn annog y Parti Gwladol i fabwysiadu cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar gyfer gweithredu'r Confensiwn ym mhob rhan o'r Parti Gwladol.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru

Ym mis Tachwedd 2009, ychydig dros flwyddyn ar ôl cyhoeddi'r Arsylwadau Terfynol, cafodd: 'Gwneud Pethau'n lawn 2009: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn' ei gyhoeddi.²¹ Wedi ei ddisgrifio fel cynllun gweithredu treigl 5 mlynedd, mae'n nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru wrth ymateb i argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig. Mae'n cynnwys 16 o feysydd blaenoriaeth a 90 o weithredoedd arfaethedig sy'n gaeth i amser. Mae'r 16 blaenoriaeth yn seiliedig ar ymateb Llywodraeth Cymru i gais Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig (yn ystod y broses adrodd) i'w flaenoriaethau ar gyfer plant, a ddatblygwyd yn dilyn rhywfaint o ymgynghori cyfyngedig gyda chyrff anllywodraethol yn ystod haf 2008. Yn ogystal â'r 16 maes blaenoriaeth, mae'r cynllun gweithredu hefyd yn cynnwys gweithgareddau'n ymwneud â bwydo ar y fron, plant Sipsiwn a Theithwyr ac iechyd a gwasanaethau iechyd.

Yn 2009, yn gadarnhaol iawn, cydnabu Llywodraeth Cymru mai dim ond 'dechrau'r daith' oedd "Gwneud Pethau'n lawn 2009" a'i ddisgrifio fel sylfaen ar gyfer symud ymlaen - 'dogfen fyw' a fyddai'n cael ei hadolygu'n rheolaidd. Yn 2010, gofynnodd Grŵp Monitro CCUHP Cymru i'r drefn adolygu gael ei defnyddio i fynd i'r afael â gwendidau'r ddogfen, er enghraifft, roedd y diffyg cyllideb yn amlwg yn gysylltiedig â gweithredu yn y dyfodol; argraff ei fod weithiau'n naratif o weithgaredd presennol; diffyg eglurder ynghylch y ffordd y mae'n cysylltu â'r 'Saith Nod Craidd', y monitor lles cenedlaethol neu Arsylwadau Terfynol y DU 2008; mae absenoldeb fframwaith monitro clir a chanlyniadau clir ar gyfer plant a phobl ifanc; ac weithiau darlun anghywir o sefyllfa bresennol Cymru yn gweithredu CCUHP. Mynegwyd anniddigrwyd hefyd bod 'Gwneud Pethau'n lawn 2009' wedi cael ei ddatblygu mewn seilo heb gefnogaeth gadarn gan bob rhan o'r llywodraeth na chyswllt digonol â strategaethau a chynigion perthnasol eraill y llywodraeth.

Yn 2010, sefydlodd Llywodraeth Cymru "Rwydwaith Cymorth Gweithredu Cywir" rhanddeiliaid allweddol. Nod y grŵp hwn yw dwyn y gwaith yn ei flaen a rhoi mewnbwn i ddatblygu fframwaith gwerthuso ar gyfer Cynllun Gweithredu 'Gwneud Pethau'n lawn 2009'. Ceir cynrychiolaeth gan Grŵp Monitro CCUHP Cymru ar y grŵp rhanddeiliaid hwn ac er 2010, mae wedi cynghori'n barhaus y dylid mynd i'r afael â'r pryderon uchod. Fodd bynnag, yn adroddiad cynnydd cynllun gweithredu cenedlaethol hawliau plant a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2013²² ymddengys nad oes llawer o'r pryderon hyn wedi cael eu trin.

Dylai cynllun gweithredu cenedlaethol ar hawliau plant fod yn ddogfen sydd yn helpu i godi ymwybyddiaeth a chynyddu dealltwriaeth o CCUHP ar draws y llywodraeth a dylai fod yn offeryn defnyddiol i alluogi cyrff anllywodraethol a Chomisiynydd Plant Cymru ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Mae cefnogaeth llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill yn allweddol i lwyddiant y cynllun gweithredu er mwyn lleihau'r bwlch o ran gweithredu polisi a nodwyd gan bob rhanddeiliad yn ystod proses adrodd CCUHP 2008 fel un o'r prif rwystrau rhag cyflawni hawliau plant. Fodd bynnag, nid oes llawer o waith wedi cael ei wneud yn y maes hwn chwaith.

Mae'n gadarnhaol iawn bod gennym gynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer hawliau plant yng Nghymru ond mae angen gwneud mwy er mwyn ei gwneud yn ddogfen effeithiol sy'n "addas at y diben", a all helpu

21 Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Gwneud Pethau'n lawn 2009 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Cynllun Gweithredu Treigl 5 Mlynedd ar gyfer Cymru.

22 Llywodraeth Cymru (2013) Adroddiad cynnydd Gwneud Pethau'n lawn.

i greu newid ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae Grŵp Monitro CCUHP Cymru wedi cynghori Llywodraeth Cymru bod angen iddynt ystyried cyngor Swyddfa'r Uwch Gomisiynydd ar Hawliau Dynol ar ddatblygu a chyflenwi cynlluniau gweithredu hawliau dynol cenedlaethol²³ ac adolygu cylch gorchwyl Rhwydwaith Cymorth Gweithredu Gwneud Pethau'n lawn er mwyn cael y ddogfen hon yn iawn.

Dyrannu adnoddau



CRC/C/GBR/CO/4 para 19: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Parti Gwladol, yn unol ag erthygl 4 o'r Confensiwn, yn dyrannu graddau eithaf yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer gweithredu hawliau plant, gyda ffocws arbennig ar ddileu tlodi a'i fod yn lleihau anghydraddoldebau ar draws pob awdurdodaeth. I'r perwyl hwn, dylai'r Parti Gwladol ystyried argymhellion y Pwyllgor a gyhoeddwyd ar ôl y diwrnod o drafod cyffredinol ar 21 Medi 2007 yn canolbwyntio ar "Adnoddau ar gyfer hawliau'r plentyn - cyfrifoldeb Gwledydd". Dylid cynnal asesiad o effaith hawliau plant yn rheolaidd er mwyn gwerthuso sut mae dyrannu cyllideb yn gymesur â gwreiddau datblygiadau polisi a gweithredu deddfwriaeth.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru yw'r unig Lywodraeth yn y DU i gydnabod pwysigrwydd gallu nodi faint o wariant sy'n cael ei ddyrannu ar gyfer plant. Caiff ei gomisiynu ar ddadansoddiad o ddarpariaeth ariannol ar gyfer plant yn ei gyllideb ar gyfer 2004-05 mewn "ymateb i ofyniad i ddeall yr adnoddau sy'n cael eu defnyddio ar blant, er mwyn llywio datblygiad polisi, ac i gydymffurfio â chyfrifoldeb yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i adrodd ar faint a chanran cyllidebau cenedlaethol sy'n cael ei gwario ar blant."²⁴ Er i'r dadansoddiad gael ei ddisgrifio gan adroddiad amgen cyrff anllywodraethol Cymru i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig fel un "cymharol elfennol" mae'n cydnabod hefyd mai dyma'r tro cyntaf i Lywodraeth Cymru geisio nodi gwariant ar blant neu yn wir unrhyw lywodraeth.²⁵ Gwnaed dadansoddiad pellach ar gyfer cyllideb 2006-07 ac ym mis Mawrth 2009 cyhoeddwyd bwletin ystadegol oedd yn cyflwyno amcangyfrifon ar gyfer y gyfran i gael ei gwario ar blant yn y cyfnod rhwng 2007-08 a 2010-11.²⁶ Yn seiliedig ar gynlluniau gwariant presennol, amcangyfrifwyd y byddai cyfran cyllideb y Llywodraeth a ddyrennir i blant yn parhau tua 28%.²⁷

Yn 'Gwneud Pethau'n lawn 2009' ymrwymodd Llywodraeth Cymru i "wella tryloywder cyllidebu ar gyfer plant a phobl ifanc" fel un o'i 16 blaenoriaeth a chydabu fod angen iddi "fynd lawer ymhellach i roi darlun mor gywir â phosibl".²⁸

Cafodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru (yn cynnwys swyddogion polisi a chyllid) ei sefydlu yn 2010 i: weithio tuag at ddealltwriaeth well o ffyrdd cyfredol o wella rhagolygon cyllideb a gwariant ar blant; ystyried materion perthnasol eraill fel cyllidebu cyfranogol a gwariant o blaid y tlawd; ac ystyried yr argymhellion a wnaed gan ymchwiliad Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad

- 23 Llawlyfr Swyddfa'r Uwch Gomisiynydd Hawliau Dynol ar Gynlluniau Gweithredu Hawliau Dynol Cenedlaethol. Y Cenhedloedd Unedig Genefa. 2002
- 24 Achub y Plant (2007) Aros, edrych, gwrando: sut mae gwreiddu hawliau plant yng Nghymru.
- 25 Ibid
- 26 Ystadegau ar gyfer Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Darpariaeth ariannol ar gyfer Plant yng Nghyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- 27 Dyfynnwyd yn Cyllidebu ar gyfer Plant yng Nghymru Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2009).
- 28 Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Gwneud Pethau'n lawn 2009 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Cynllun Gweithredu Treigl 5 Mlynedd ar gyfer Cymru.

Cenedlaethol Cymru i gyllidebu ar gyfer plant a gyflwynodd adroddiad yn 2009.²⁹

Ers i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ddod i ben yn 2010, cafwyd rhywfaint o gynnydd, yn arbennig mewn perthynas â chyllidebu cyfranogol ac addysg ariannol fel y nodir yn adroddiad cynnydd "*Gwneud Pethau'n lawn*" 2013. Hefyd yn nhymor yr Hydref 2012, lluniwyd pecyn cymorth a thaflen i helpu plant a phobl ifanc i ddeall y gyllideb ddrafft a rhoddwyd cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru trwy broses asesu effaith hawliau plant Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, mae'n amhosibl i gymdeithas sifil asesu pa mor gadarn oedd yr asesiad hwn am nad yw'r broses asesu yn un gyhoeddus. Nid yw'n glir chwaith a yw cwestiynau safonol sy'n ymwneud â chyllidebu ar gyfer plant yn cael eu cynnwys yn y broses asesu effaith hawliau plant ar gyfer pob polisi a deddfwriaeth.

Nid oes unrhyw beth yn cael ei ddatgan yn glir yn adroddiad cynnydd "*Gwneud Pethau'n lawn*" 2013³⁰ yn ymwneud â chytundeb 2010 y Gweinidog Jane Hutt i greu datganiad cyllideb plant Llywodraeth Cymru bob 3 blynedd. Mae diffyg amlygrwydd gan blant o hyd yng nghyllideb Llywodraeth Cymru, nad yw, fel y mae, yn gwneud unrhyw gyfeiriad penodol at blant. Mae'r diffyg tryloywder mewn gwariant cyhoeddus ar blant yn golygu nad yw'n bosibl dweud ar hyn o bryd, heb ddadansoddiad manylach, a yw Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i'r 'graddau eithaf' i gyflawni hawliau plant yn unol â CCUHP ac a oes, er enghraifft, lefelau digonol o wariant i gyflawni'r targed o ddileu tloedi plant erbyn 2020. Mae angen casglu a chyhoeddi data tryloyw ar wariant ar blant. Bydd y dull hwn yn annog datblygu dangosyddion i fonitro a yw gwariant yn cyrraedd ac o fudd i'r plant a'r teuluoedd tlotaf. Dylid defnyddio'r data hwn i lywio rowndiau dyrannu cyllideb yn y dyfodol.

Yn unol ag Erthygl 4 o CCUHP, mae gan Weinidogion ddyletswydd glir i ddangos a yw'r Llywodraeth yn cyflawni hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol plant 'i raddau eithaf yr adnoddau sydd ar gael'. Mae paratoi cyllideb plant yn offeryn hanfodol i fodloni'r ddyletswydd i Erthygl 4 yn unol â'r Mesur hawliau a rhoi tystiolaeth o'r ffordd y mae toriadau gwariant sydd wedi eu cynllunio yn effeithio ar y canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc o ran cael hawliau. Yn olaf, mae'n glir ac yn amlwg bod angen gwneud mwy o waith i annog awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol a'u partneriaid i ddangos tryloywder cyfran y gwariant ar blant a phobl ifanc.

Lledaenu, hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth



CRC/C/GBR/CO/4 para 21: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Parti Gwladol yn cryfhau ei ymdrechion ymhellach, er mwyn sicrhau bod holl ddarpariaethau'r Confensiwn yn hysbys ac yn ddealladwy i oedolion a phlant fel ei gilydd, ymhlith pethau eraill trwy gynnwys y Confensiwn yn y cwricwlwm cenedlaethol statudol, a'i fod yn sicrhau bod egwyddorion a gwerthoedd yn cael eu hintegreiddio i strwythurau ac ymarfer pob ysgol. Mae hefyd yn argymhell atgyfnerthu hyfforddiant digonol a systematig ar gyfer pob grŵp proffesiynol sy'n gweithio ar ran a chydau phlant, yn arbennig swyddogion gorfodi'r gyfraith, swyddogion mewnfudo, y cyfryngau, athrawon, personél iechyd, gweithwyr cymdeithasol a phersonél sefydliadau gofal plant.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru

29 Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2009) Cyllidebu ar gyfer Plant yng Nghymru a Gweler Ymateb Ysgrifenedig Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) i Adroddiad Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar Gyllidebu ar gyfer Plant yng Nghymru. <http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/bus-business-documents-doc-laid.htm?act=dis&id=202996&ds=11/2010>

30 Llywodraeth Cymru (2013) Adroddiad cynnydd Gwneud Pethau'n lawn.

Rhoddodd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 ddyletswydd i roi sylw dyledus yn ymwneud ag Erthyglau 1 i 41 ond nid Erthygl 42. Yn lle hynny, mae Adran 5 o'r Mesur yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth ymysg y cyhoedd, yn cynnwys plant. Mae Adran 5 bellach yn cael ei gynnwys gydag Erthygl 42 fel dyletswyddau cyfreithiol Llywodraeth Cymru. Mae *Gwneud Pethau'n lawn*³¹ yn nodi 'codi ymwybyddiaeth o CCUHP a'r Arsylwadau Terfynol' fel blaenoriaeth. Mae *Diweddariad Gwneud Pethau'n lawn* ym mis Ionawr 2013³² yn rhestru nifer o gyflawniadau yn cynnwys datblygu ystod o ddeunyddiau hyfforddiant trwy wefan *Gwneud Pethau'n lawn*, a chyflenwi hyfforddiant craidd i weision sifil llywodraeth ganolog. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda phartneriaid allanol i ddechrau cyflawni'r ddyletswydd hon, yn cynnwys comisiynu pecynnau hyfforddiant a chefnogi'r gynhadledd *Cymryd y Camau Cywir* a gynhelir ym Mhrifysgol Abertawe. Fodd bynnag nid oes unrhyw dystiolaeth o unrhyw ymdrechion systematig tuag at weithredu Erthygl 42 nac Adran 5 o'r Mesur.

Codi ymwybyddiaeth o ran oedolion a phlant yn gyffredinol

Mae'r camau a nodir yn niweddariad *Gwneud Pethau'n lawn* 2011 ynghyd ag adroddiad diweddar i Grŵp Monitro CCUHP ar gyfer Cymru gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2013³³ yn dangos rhai camau bach tuag at godi ymwybyddiaeth gyffredinol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae hyn i gyd wedi bod yn dameidiog ac ni chafwyd unrhyw ymdrech eang i'r perwyl hwn. Mewn rhai meysydd mae'r gwaith wedi lleihau mewn gwirionedd. Er enghraifft yn *Gwneud Pethau'n lawn* tud. 18 18 'addawodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau y byddai'n cynnal cynhadledd flynyddol i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Confensiwn yn Nhachwedd bob blwyddyn ac ymhen amser bydd y gynhadledd hon hefyd yn cael ei defnyddio fel llwyfan i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sydd wedi'i wneud ar sail y Cynllun Gweithredu hwn'. Cafodd y penderfyniad hwn ei wrthdroi yn 2011 ac ni chynhelir y gynhadledd a'r adborth blynyddol bellach. Hefyd yn *Gwneud Pethau'n lawn* tud. 17 addawodd Llywodraeth Cymru gynnwys CCUHP yn ei Graidd Cyffredin o Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth fel rhan o'i Gynllun Datblygu Gweithlu Plant a Phobl Ifanc. Daeth y gwaith hwn i ben ganol 2010 a hyd yma nid oes unrhyw gynlluniau i'w aildechrau.

Cynnwys yng nghwricwlwm yr ysgol

Mae CCUHP bellach wedi ei gynnwys yn y cwricwlwm ABCh³⁴ mewn ysgolion ar gyfer plant 7 i 19 oed yng Nghymru. Fodd bynnag, nid oes llawer wedi cael ei wneud i annog ysgolion i wneud mwy na chyfeirio ato yn gyffredinol. Ni ddangosodd y dystiolaeth a roddwyd yn 2011 i is-grŵp Erthygl 42 o Grŵp Monitro CCUHP ar gyfer Cymru lawer o ymwybyddiaeth o hawliau plant ymysg staff yr ysgol na'r disgyblion. Ni ddangosodd ymchwil ddiweddar, sydd heb ei chyhoeddi eto, a wnaed yn 2012, unrhyw welliant.

Hyfforddiant systematig gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar ran a chyda phlant

Yn 2011/12, cynhaliodd is-grŵp Erthygl 42 gyfres o wrandawiadau yn edrych ar ymwybyddiaeth o CCUHP gyda nifer o grwpiau proffesiynol allweddol.³⁵ Cafodd y dystiolaeth o'r gwrandawiadau hyn ei hysgrifennu mewn strategaeth codi ymwybyddiaeth³⁶ ar gyfer Llywodraeth Cymru a'i chyflwyno iddynt

-
- 31 Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) *Gwneud Pethau'n lawn 2009 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Cynllun Gweithredu Treigl 5 Mlynedd ar gyfer Cymru.*
 - 32 Llywodraeth Cymru (2011) *Cynllun Gweithredu Gwneud Pethau'n lawn ar gyfer Cymru – Adroddiad Diweddar 2011*
 - 33 Llywodraeth Cymru (Ionawr 2013) *Cynnydd Llywodraeth Cymru yn unol ag Argymhellion Adroddiad Strategaeth Erthygl 42*
 - 34 Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru*, 2008
 - 35 Cynhaliwyd gwrandawiadau yn archwilio athrawon, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal plant, yr heddlu, y cyfryngau a gweithwyr iechyd proffesiynol. Nid oedd yn bosibl trefnu gwrandawiad gyda swyddogion mewn fudo ar y pryd.
 - 36 Grŵp Erthygl 42 ar ran Grŵp Monitro CCUHP ar gyfer Cymru (2012) *Codi Ymwybyddiaeth o'r CCUHP yng Nghymru – tuag at ddull strategol gan Lywodraeth Cymru*

yn Ebrill 2012. Dangosodd y dystiolaeth nad oes llawer o ymwybyddiaeth o CCUHP ymysg gweithwyr proffesiynol yng Nghymru ac nad oes unrhyw hyfforddiant systematig o hyd ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar ran a chyda phlant yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cyfres o sesiynau hyfforddi'r hyfforddwr yn y maes hwn ac mae nifer fach iawn o sefydliadau yn cynnig sesiynau undydd neu hanner diwrnod cyflwyniadol i weithwyr proffesiynol. Fodd bynnag, nid yw mynychu hyfforddiant o'r fath yn ofyniad i unrhyw grŵp proffesiynol ac nid yw'n bodloni'r gofyniad a nodir yn adran H o Sylw Cyffredinol rhif 5 bod '*Angen i hyfforddiant fod yn systematig ac yn barhaus – hyfforddiant cychwynnol ac ailhyfforddiant*'. Nid yw papur gan Lywodraeth Cymru³⁷ a gyflwynwyd fel Cynnydd yn erbyn Argymhellion Adroddiad Strategaeth Erthygl 42 yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at yr adroddiad na'i argymhellion.

I grynhoi, nid chafwyd llawer o gynnydd yn gweithredu Erthygl 42 yng Nghymru ac mewn rhai meysydd mae'r ymrwymadau wedi eu diddymu ac mae'r gwaith wedi dod i ben.

Argymhellion allweddol

DEDDFWRIAETH

Dylai Llywodraeth Cymru:

- Sicrhau arweinyddiaeth ragweithiol gryfach gan uwch swyddogion ar weithredu'r Mesur, yn cynnwys darparu cylch gorchwyl wedi ei gyfleu'n glir ar gyfer grwpiau gweithredu.
- Sicrhau bod adroddiadau cynnydd y Cynllun Hawliau Plant yn y dyfodol yn cynnwys data i gefnogi gwerthusiad cadarn o fentrau a gyflwynwyd er mwyn gweithredu'r ddyletswydd i roi sylw dyledus.
- Ym mhob achos, darparu cofnodion CRIA (neu grynoded digonol) er mwyn craffu arnynt.
- Mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid perthnasol, parhau i wneud gwelliannau i offer CRIA ac asesu'r effaith ar y gyllideb.
- Adolygu deddfwriaeth bresennol yn systematig er mwyn pennu a ddylid ei diwygio er mwyn sicrhau cydymffurfio â'r Confensiwn.

CYDGYSYLLTU

Dylai Llywodraeth Cymru:

- Gryfhau awdurdod y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol gyda chyfrifoldeb clir dros weithredu CCUHP.
- Sicrhau bod atebolrwydd gwleidyddol priodol a chydgyssylltu canolog ar gyfer gweithredu CCUHP o fewn y Llywodraeth.

Cyfranogiad plant a phobl ifanc

- Egluro'r broses ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc wrth 'graffu ar a gweithredu' CCUHP.

Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

- Sicrhau bod yr holl Bwyllgorau'n gyfrifol am y gwaith trawsbynciol o graffu ar a monitro penderfyniadau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â gweithredu CCUHP a chydymffurfio â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc Cymru.

37 Llywodraeth Cymru (Ionawr 2013) Cynnydd Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag Argymhellion Adroddiad Strategaeth Erthygl 42

CYNLLUNIAU GWEITHREDU CENEDLAETHOL

Dylai Llywodraeth Cymru:

- Ystyried cyngor Swyddfa'r Uwch Gomisiynydd ar Hawliau Dynol yn ymwneud â datblygu a chyflenwi Cynlluniau Gweithredu Hawliau Dynol Cenedlaethol.
- Adolygu'r 'cynllun gweithredu' er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y diben ac yn cynnwys fframwaith monitro gwell gyda gweithredoedd clir, y mae adnoddau ar eu cyfer, sydd yn gaeth i amser, yn ogystal â chanlyniadau clir ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Datblygu cysylltiadau gwell rhwng "Gwneud pethau'n iawn" ac adrodd ar wybodaeth cyllideb hawliau plant, y data sydd wedi ei gydgrynhoi fel rhan o Fonitro Lles Plant a Phobl Ifanc, Arsylwadau Terfynol y DU 2008 a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru).
- Gweithio gydag awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill i weithredu "Gwneud Pethau'n iawn" yn effeithiol cyn gynted â phosibl.

DYRANNU ADNODDAU

Dylai Llywodraeth Cymru:

- Wella'r systemau angenrheidiol i alluogi holl variant y Llywodraeth ar blant i gael ei ddadansoddi fel mater o drefn (Datganiad Cyllideb Plant) yn ei holl gyllidebau yn y dyfodol.
- Sicrhau bod y broses gynllunio ac adrodd yn gwneud y cysylltiad rhwng cyllidebau a chanlyniadau yn fwy amlwg a thryloyw.
- Datblygu'r cysylltiad rhwng adrodd ynghylch gwybodaeth am gyllideb plant a phobl ifanc a Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc, a'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Hawliau Plant a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru).
- Targedu 'graddau eithaf yr adnoddau sydd ar gael' ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny sydd fwyaf agored i niwed a'r tlotaf.

Dylai awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol:

- Lunio datganiadau cyllideb plant a nodi graddfeydd amser ar gyfer eu llunio.

LLEDAENU, HYFFORDDIA A CHODI YMWHYBYDDIAETH

Dylai Llywodraeth Cymru:

- Ddatblygu, trwy drafodaeth gyda rhanddeiliaid statudol ac anllywodraethol, strategaeth gynhwysfawr ar gyfer codi ymwybyddiaeth o CCUHP ledled Cymru
- Cynnwys yr argymhellion sy'n dod i'r amlwg o drafodaethau o'r fath yn y strategaeth gynhwysfawr, ynghyd â'r adroddiadau, yr ymarferion mapio a'r mentrau niferus eraill a gynhaliwyd hyd yn hyn.

Pennod Dau: Egwyddorion arwain

Parch tuag at farn y plentyn (Erthygl 12)

Danielle Lavin a Mererid Lewis, Uned Gyfranogiad, Cymru

Sylwadau ar y cynnydd

Dros y saith mlynedd diwethaf, gwnaed cynnydd mawr o ran gweithredu Erthygl 12 yng Nghymru, gyda chynnydd cyflym o ran gweithgareddau cyfranogiad a pholisiau'n ymwneud â phlant a phobl ifanc. Fodd bynnag, mae'r rhethreg o ran cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau yn dal yn wahanol i ymarfer cyfranogiad plant, sydd yn dal yn dameidiog ac ymhell o fod yn gynhwysol, nac wedi ei sefydlu^{38 39 40 41}.

Yn wir, er bod plant a phobl ifanc yn gadarn ar agenda Llywodraeth Cymru, mae perygl mawr y bydd y cynnydd a wnaed er 2007 o ran cyfranogiad plant a phobl ifanc yn cael ei wrthdroi o ganlyniad i 'brif ffrydio' o fewn ymagwedd sy'n seiliedig ar hawliau plant. Mae ymarferwyr yn bryderus y bydd hyn yn gwanhau pwysigrwydd Erthygl 12 a'i fod o bosibl yn cael ei ddefnyddio i guddio toriadau mewn gwariant cyhoeddus. Mae pryder hefyd na fydd Erthygl 12 bellach yn cael ei ystyried yn hanfodol i gyflawni'r holl hawliau eraill a fynegir yn CCUHP ac y bydd yn y dyfodol yn cael ei esgeuluso yn unol ag ymagwedd fwy cyffredinol dadol tuag at hawliau plant.

Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad i hyrwyddo a chefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc trwy fabwysiadu CCUHP yn ffurfiol ac i weithredu hawl plant a phobl ifanc i gymryd rhan fel y nodir yn Erthygl 12. Mae hefyd yn dangos ei ymrwymiad parhaus trwy'r rhaglen Lywodraethu sydd yn datgan y bydd yn:

"parhau i wella cyfleoedd ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ar faterion sy'n effeithio arnynt."⁴²



CRC/C/GBR/CO/4 para 33a: hyrwyddo, hwyluso a gweithredu, mewn deddfwriaeth yn ogystal ag ymarfer, o fewn y teulu, mewn ysgolion a'r gymuned yn ogystal â sefydliadau ac mewn trafodion gweinyddol a barnwrol, yr egwyddor o barch tuag at farn y plentyn

Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU a Chymru

Deddfwriaeth

Cafwyd cefnogaeth gref gan Lywodraeth Cymru ac ar draws y pleidiau tuag at ddatblygiad strategol cyfranogiad plant a phobl ifanc. Yn 2010, ymgorfforodd fframwaith deddfwriaethol newydd Mesur

- 38 Lansdown, G (2001), 'Children's Welfare and Children's Rights', yn Pam Foley, Jeremy Roche a Stanley Tucker (gol) *Children in Society, Policy and Practice* (Palgrave Macmillan, Basingstoke)
- 39 Inclair, R. (2004) 'Participation in practice: making it meaningful, effective and sustainable', *Children and Society*, 18: 106-118.
- 40 James, A. (2007) 'Giving voice to children's voices: practices and problems, pitfalls and potentials', *American Anthropologist*, 109 (2): 261-272.
- 41 Skeels a Lewis (2012) 'Using national standards for children and young people's participation to inform health research', yn Jennie Fleming a Thilo Boeck (gol) *Involving Children and Young People in Health and Social Care Research* (Routledge, Oxon)
- 42 *Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu* (2011)

Plant a Theuluoedd (Cymru) nod i helpu pobl ifanc i gymryd rhan yn effeithiol ac yn gyfrifol ym mywyd eu cymuned, fel un o'i nodau eang. Mae Adran 12 yn benodol yn datgan:

Cyfranogiad plant ym mhroses awdurdod lleol o wneud penderfyniadau:

(1) Mae'n rhaid i awdurdod lleol wneud y fath drefniadau y mae'n eu hystyried yn addas i hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad gan blant ym mhenderfyniadau'r awdurdod a allai effeithio arnynt.

Yn ogystal, mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus wrth ddatblygu a/neu adolygu polisi a deddfwriaeth. O 2014 ymlaen, caiff hwn ei ymestyn i holl swyddogaethau Gweinidogion. Mae pryder fodd bynnag bod rhoi 'sylw dyledus' a 'rhoi pwysau dyledus' yn ei hanfod yn golygu bod gallu plant i weithredu pŵer yn nwylo "oedolion cyfrifol."⁴³ Mae hyn yn golygu bod oedolion yn gallu cymhell 'yr hyn sy'n bwysig'⁴⁴ a bod ganddynt y pŵer i benderfynu faint o lais sydd gan blant a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Fodd bynnag, os yw sylw dyledus yn cael ei weithredu'n briodol, gyda phlant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn systematig a bod eu barn yn ymwneud â pholisi a deddfwriaeth yn cael ei hystyried, yna mae hwn yn gyfle gwirioneddol i ddatblygu Erthygl 12 wrth wneud polisiau yng Nghymru. Mae'n bwysig peidio colli'r cyfle hwn a bod cymdeithas sifil yn cymryd rôl weithredol yn eirioli cynnwys llais plant a phobl ifanc yn y broses hon.

Polisi ac ymarfer

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi datblygu strategaeth gyfranogiad genedlaethol drosfwaol fel yr argymhellwyd yn adroddiad amgen diwethaf Cyrff Anllywodraethol Cymru⁴⁵ a chafodd ei amlygu yn adroddiad y Llywodraeth 'Gwneud Pethau'n lawn' fel 'ffordd ymlaen ar gyfer rhoi arweiniad strategol i strategaethau cyfranogiad lleol'.⁴⁶

Er hynny, cyhoeddwyd canllawiau cynghori i awdurdodau lleol ym mis Awst 2007 er mwyn iddynt allu, ynghyd â'u partneriaid, ddatblygu strategaeth gyfranogiad lleol. Roedd gan yr holl strategaethau gynllun gweithredu ac ymrwymiad i fonitro ac adolygu. Fodd bynnag, yn ôl y gwerthusiad o strategaethau cyfranogaeth lleol a gynhaliwyd gan Ecorys yn 2010, datgelodd yn ymarferol, 'bod hyn yn neilltuol i raddau helaeth y tu hwnt i'r strategaethau diwygiedig sydd wedi cael eu creu hyd yma'.⁴⁷ Yn ogystal, tan yn ddiweddar, mae'r sefyllfa gyda strategaethau cyfranogiad lleol wedi bod mewn cyflwr o lif gan fod canllawiau statudol a ddrafftwyd ar sail y canllawiau cynghori wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ym mis Hydref 2011 ond dim ond newydd gael eu cadarnhau (Chwefror 2013). Roedd y canllawiau drafft gwreiddiol yn cynnwys gofyniad i sefydlu strategaeth a fforwm ieuencid. Fodd bynnag, mae'r canllawiau a gyhoeddwyd yn galluogi'r awdurdod lleol i benderfynu ar 'ddull' ar gyfer ymgysylltu – gall hyn fod yn fforwm ieuencid neu ddim.

43 Wyness, M. (2001) 'Children, childhood and political participation: Case studies of young people's councils, *The International Journal of Children's Rights* Rhifyn 9: Cyhoeddiad 3 tud. 193–212,

44 Lundy (2007), 'Voice is not enough: conceptualising Article 12 of the United Nations Convention on the Rights of the Child', (*British Educational Research Journal* 33/6, 927-42)

45 Achub y Plant (gol) (2007), Aros, Edrych, Gwranddo: Sut Mae Gwireddu Hawliau Plant yng Nghymru (Rhaglen Cymru Achub y Plant, Caerdydd)

46 Llywodraeth Cymru (2009), Gwneud Pethau'n lawn: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Llywodraeth Cynulliad Cymru, Caerdydd)

47 Ecorys (2010, Evaluation of Local Authority Participation Strategies – Final Report to the Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills of the Welsh Assembly Government, (Ecorys, Llundain)

48 Heb ei gyhoeddi eto

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau strategol ar gyfranogiad, yn canolbwyntio ar brif ffrydio'r maes mewn cynllunio strategol lleol, fel atodiad i "Gydamcanu – Cydymdrechu" (y Canllawiau Cynllunio Integredig Unigol a gyhoeddwyd i bob awdurdod lleol yng Nghymru) . Oherwydd yr oedi sylweddol yn ei gyhoeddi, roedd yr awdurdodau lleol wedi dechrau ffurfio eu Cynlluniau Integredig Unigol ar gyfer 2011-14 heb unrhyw ganllawiau trosfwaol wedi eu cymeradwyo'n ffurfiol ynghylch sut y dylid gwrandao ar blant a phobl ifanc ac ystyried eu barn. Mae pryder bod hyn wedi tarfu ar y cysondeb blaenorol oedd yn datblygu ar draws y wlad.

Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro trefniadau lleol ar gyfer cyfranogiad a'r wybodaeth a gyhoeddir fel rhan o gysylltu â dinasyddion yn unol â'r Cynllun Integredig Unigol. Y bwriad yw y bydd y cynlluniau hyn yn darparu tystiolaeth i Arolygiaethau a Swyddfa Archwilio Cymru wrth gynnal adolygiadau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau lleol. Gall arolygiaethau a Swyddfa Archwilio Cymru hefyd adolygu'r canlyniadau a gyflawnwyd a'r gweithdrefnau cysylltiedig er mwyn dangos pa mor effeithiol y gwrandawir ar blant a phobl ifanc a'u cynnwys a'u hymgysylltu. Bydd yn rhaid aros i weld pa mor effeithiol y bydd y trefniadau hyn yn ymarferol.

Gweithredu polisi penodol mewn cyngorau ysgol

Gwnaed cynnydd sylweddol a chadarnhaol o ran 'cyfranogiad disgyblion' wrth gyhoeddi Rheoliad (2004) a Chanllawiau (2006) statudol Cyngorau Ysgol. Yn dilyn y ddeddfwriaeth hon, mae gan bob ysgol yng Nghymru bellach gyngor ysgol. Yn ogystal, ceir enghreifftiau o arfer arbennig o dda yn dod i'r amlwg ar draws Cymru lle mae gweithredu wedi annog creu polisi ysgol cyffredinol lle mae cyfranogiad yn ganolog i bopeth y maent yn ei wneud.⁴⁹ Mae gwefan y cyngorau ysgol wedi cael ei ailddylunio a'i ail-lansio ac fe'i gelwir bellach yn Llais Disgyblion Cymru. Mae'r wefan yn rhoi cyfoeth o wybodaeth am arfer da yn y maes.

Y prif fater sydd wedi effeithio ar weithrediad llwyddiannus cyngorau ysgol yw diffyg dull cyson, hyfforddi gweithwyr proffesiynol a monitro ar draws awdurdodau lleol ac ysgolion. Mae hyn wedi arwain at lefelau amrywiol o gyfranogiad plant a phobl ifanc yn cael ei ystyried yn annerbyniol.

Gwnaed ymgais i fynd i'r afael â'r mater hwn gan Lywodraeth Cymru trwy greu canllawiau statudol. Fodd bynnag, ni chafodd y canllawiau eu cymeradwyo gan weinidogion a heb gefnogaeth gweinidogion nid yw'n cael ei ledaenu na'i hyrwyddo'n ddigonol. Mae'r canllawiau wedi cael eu cyhoeddi fel dogfen arfer da ar wefan Llais Disgyblion Cymru⁵⁰ ond yn anffodus nid yw hyn yn ddigon i sicrhau dull cyson ar draws y wlad.

Ymarfer mewn Trafodion Barnwrol a Gweinyddol a Gweithredu Gwasanaethau Eirioli Annibynnol

Rhoddir pwyslais ar hawl plentyn i gael ei glywed, "mewn unrhyw drafodion barnwrol a gweinyddol sy'n effeithio ar y plentyn" ym mharagraff 2 o Erthygl 12. Mae'r Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn wedi pwysleisio bod hyn yn berthnasol i'r holl drafodion barnwrol perthnasol "heb gyfyngiad".⁵¹

Mae'n aneglur ar hyn o bryd y graddau y mae Erthygl 12 yn cael ei barchu, ac felly pa mor abl yw plant i gymryd rhan, yn yr ystod eang o drafodion barnwrol perthnasol. Mae hyn oherwydd diffyg tystiolaeth gyd-destunol arwyddocaol yn archwilio'r mater yng Nghymru. Ym mis Tachwedd 2012, aed ag achos prawf pwysig yn ymwneud â hawliau plant gerbron y llys apêl lle'r oedd bachgen 15 oed o Sir Gaerfyrddin wedi herio penderfyniad i'w roi mewn gofal maeth yn seiliedig ar ddadl na chafodd gyfle i fynegi ei farn ac am na roddwyd pwyslais dyledus arni yn y trafodion.⁵²

49 <http://pupilvoicewales.org.uk/english/home/about-us/our-case-studies/>

50 <http://www.pupilvoicewales.org.uk/grown-ups/get-involved/good-practice-guide/>

51 Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn (2009), Sylw Cyffredinol Rhif 12, 'Hawl y plentyn i gael ei glywed' (Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig, Genefa) para.32

52 <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-south-west-wales-20400405>

Yng nghyd-destun y DU gyfan, dangosodd ymchwil a wnaed gan CAF/CASS mai dim ond traean o blant yr ymgynghorwyd â nhw a oedd wedi bod yn gysylltiedig â thrafodion ysgariad oedd wedi gallu cyfleu i'r llys yr hyn yr oedden nhw eisiau i ddigwydd iddynt.⁵³ Mae hyn er gwaetha'r ffaith fod nifer o ymatebwyr a fyddai wedi dymuno gallu hysbysu'r llys yn uniongyrchol ynghylch eu hanghenion, eu dymuniadau a'u teimladau.

Mae'r enghreifftiau hyn yn codi pryderon mawr yn ymwneud â gweithredu Erthygl 12 yn llawn o fewn trafodion barnwrol lle nad yw barn plentyn yn cael ei glywed nac yn cael pwyslais dyledus. Gellir dadlau, oherwydd difrifoldeb posibl y canlyniadau i'r plentyn neu'r person ifanc, mai dyma lle mae mwy o angen nag erioed i wrando ar eu llais.

Gwnaed cynnydd yn galluogi plant i gael eu clywed mewn gwrandawriadau gweinyddol addysg. Yn dilyn Mesur Addysg (Cymru) 2009⁵⁴ mae plant a phobl ifanc bellach yn gallu apelio'n uniongyrchol i Dribiwnlys AAA Cymru yn ymwneud â'u hanghenion addysgol arbennig (AAA). Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi canllawiau statudol⁵⁵ yn ddiweddar yn ymwneud â Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelu) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003, yn datgan yn benodol bod gan ddysgwyr dros 11 oed, fel person perthnasol, yr hawl i gael ei hysbysu ynghylch gwaharddiad ac apelio'n uniongyrchol yn erbyn y penderfyniad hwnnw.

Fodd bynnag, mae amheuon ynghylch trafodion gweinyddol a barnwrol o ran y graddau y mae pobl ifanc yn gallu cynrychioli eu hunain yn annibynnol ac yn effeithiol a pha mor addas yw darpariaeth cymorth eiriolaeth i'w galluogi i gymryd rhan. Mae hyn yn peri pryder penodol mewn perthynas â phlant sy'n agored i niwed, er enghraifft y rheiny mewn gofal, plant sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain, y rheiny sydd yn y ddalfa a phlant digartref. Ar gyfer y gwrandawriadau addysg y soniwyd amdanynt uchod, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud y 'trefniadau priodol' i alluogi'r person perthnasol i apelio.⁵⁶ Mae'r graddau y gwneir hyn yn ddigonol yn ansicr ac mae'n ymwneud i ryw raddau â darpariaeth anghyson gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ar draws Cymru.

Yn 2010, lansiodd Cymru wasanaeth eirioli cenedlaethol arloesol, o'r enw Meic. Gwasanaeth gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth yw Meic a ddarperir trwy linell gymorth sydd ar gael 24 awr y dydd 7 diwrnod yr wythnos. Mae gan wasanaethau eiriolaeth annibynnol yn gyffredinol rôl hanfodol yn diogelu plant wrth iddynt ymarfer eu hawl i gael llais.

Amlygwyd pwysigrwydd hyn yng Nghymru yn dilyn Adroddiad Waterhouse⁵⁷ i gam-drin ac amddiffyn plant. Cafodd pwysigrwydd gwrandawro ar blant a chymryd eu barn o ddifrif ei bwysleisio yn yr adroddiad ac un o'r argymhellion terfynol oedd creu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol. Yn anffodus, yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o'r gwasanaethau yng Nghymru gan y Comisiynydd Plant⁵⁸ yn 2011, mae cryn dipyn o bryder o hyd yn ymwneud â'r gwendidau yn narpariaeth ymarferol gwasanaethau.

53 Cafcass (2010), How it looks to me – Private law consultation (Sheffield: Cafcass)

54 Rhan 1, Adran 1

55 Llywodraeth Cymru (2012), Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion, (Dogfen ganllaw rhif: 081/2012) (Caerdydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru)

56 Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelu) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003, Rheoliad 4

57 Adroddiad Waterhouse (2000), Ar Goll mewn Gofal – Adroddiad Tribiwnlys yr Ymchwiliad i gam-drin plant mewn gofal yn ardaloedd cyngor sir blaenorol Gwynedd a Chlwyd er 1974, (Llundain: Y Llyfrfa)

58 Comisiynydd Plant Cymru (2012), Lleisiau coll – Adolygiad o'r eiriolaeth broffesiynol annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen yng Nghymru (Abertawe: Comisiynydd Plant Cymru)

Roedd canfyddiadau allweddol yr adroddiad a'r rhwystrau yn defnyddio'r gwasanaethau yn cynnwys diffyg dealltwriaeth o ystyr 'eiriolaeth' gan bobl ifanc⁵⁹ neu fodolaeth yr hawl i'w derbyn⁶⁰; diffyg cefnogaeth a dealltwriaeth gan weithwyr proffesiynol o'r angen am wasanaethau annibynnol; a diffyg cysondeb ar draws awdurdodau lleol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r adroddiad ac wedi gwneud ymrwymadau. Fodd bynnag, mae'n hanfodol nawr bod yr ymrwymadau hyn yn cael eu cynnal a bod datblygiadau pellach yn y maes yn arwain at arweinyddiaeth strategol gref gan y Llywodraeth. Yn ystod y cyfnod hwn, efallai fod angen ailedrych ar adroddiad Waterhouse 'Ar goll mewn Gofal'. Nid yw'n glir a yw gwersi wedi cael eu dysgu o'r adroddiad yn ymwneud â'r angen hanfodol i wrando ar blant a'r niwed yn sgil peidio gwneud hynny.



CRC/C/GBR/CO/4 para 33b: Fforymau cymorth ar gyfer cyfranogiad plant, fel Senedd Ieuencid y Deyrnas Unedig, y Ddraig Ffynci yng Nghymru a'r Senedd Ieuencid yn yr Alban

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru

Yng Nghymru, ceir fforwm Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad, y Ddraig Ffynci, a fforymau ieuencid awdurdodau lleol rhanbarthol (er nad yw hyn yn ymarfer cyson ar draws Cymru). Ceir rhai fforymau arbenigol hefyd ar gyfer sectorau sydd yn fwy agored i niwed, fel Sipsiwn a Theithwyr.

Mae'n bwysig nad bodoli yn unig y mae'r fforymau hyn ond ei bod yn bosibl i farn pobl ifanc ddylanwadu ar agendâu'r llywodraeth. Mae ymarfer yn dod i'r amlwg o bobl ifanc o'r Ddraig Ffynci yn gallu eistedd ar fforymau oedolion, fel Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd, a'r gobaith yw y bydd hyn yn annog gwahoddiadau pellach i grwpiau cynghori gweinidogaethol. Gallai cynnydd yn yr ymarfer hwn yn y dyfodol helpu i leihau'r bwlch rhwng darparu'r llwyfan ar gyfer cyfranogiad a'r gallu i bobl ifanc gael dylanwad hanfodol ar bolisi.

Mae dyfodol fforymau ieuencid ar gyfer cyfranogiad ar draws Cymru yn ansicr. Nid oes unrhyw gymorth deddfwriaethol ar ôl ar gyfer y Ddraig Ffynci ac, er y gwnaed 'mecanweithiau' ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc yn orfodol ar gyfer awdurdodau lleol ym mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, nid yw creu fforwm ieuencid yn hanfodol. Mae hyn wedi cael ei gadarnhau yn ddiweddar wrth gyhoeddi canllawiau atodiad yn "Cydamcanu - Cydymdrechu".

Mae canlyniadau hyn yn ddeublyg. Heb safle statudol mae'n bosibl y gallai adnoddau a ddysgennir gan Lywodraeth Cymru i'r Ddraig Ffynci gael eu symud i rywle arall. O ran fforymau ieuencid awdurdodau lleol, mae'n debygol y bydd diffyg arweiniad yn ymwneud â 'mecanweithiau' ar gyfer cyfranogiad yn creu gwahaniaethau cynyddol o ran dulliau cyfranogiad ar draws Cymru. Gellir dadlau hefyd y gallai gostyngiad ym mhresenoldeb fforymau ieuencid awdurdodau lleol gael effaith ar allu'r Ddraig Ffynci i gynrychioli barn pob plentyn a pherson ifanc yn effeithiol.

59 Mae rhai gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill yn credu y gall y gair 'eiriolaeth' greu rhwystrau wrth ddefnyddio gwasanaethau: Comisiynydd Plant Cymru (2012), Llesiau coll – Adolygiad o'r eiriolaeth broffesiynol annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen yng Nghymru (Abertawe: Comisiynydd Plant Cymru), tudalen 21, para 4.1

60 O'r 457 o blant a holwyd, nid oedd 128 wedi clywed am eiriolaeth ac nid oeddent wedi cael cynnig eiriolwr: Comisiynydd Plant Cymru (2012), Llesiau coll – Adolygiad o eiriolaeth broffesiynol annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen yng Nghymru (Abertawe: Comisiynydd Plant Cymru), tudalen 21, para 4.1

Yn ogystal, nid oes digon o dystiolaeth i ddangos lle mae barn a safbwyntiau plant a phobl ifanc o fewn strwythurau ffurfiol wedi cael 'pwyslais dyledus' yn unol ag Erthygl 12. Enghraifft o hyn yw fforymau ieuentid rhanbarthol Sipsiwn a Theithwyr; lle mae pobl ifanc yn methu dylanwadu ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau yn barhaus, fel gwneud yn iawn am bryderon pwysig yn ymwneud â diogelwch ar safleoedd presennol teithwyr.

Mae dadl mai ffocws ar 'hawl plentyn i gael ei glywed' ond nid i wrando arno o reidrwydd sydd wedi achosi diffyg dylanwad y fforymau hyn ac mae hyn wedi golygu nad yw Erthygl 12⁶¹ wedi cael ei weithredu'n llawn. Er mwyn parchu'r erthygl yn llawn, mae angen lle i bobl ifanc fynegi eu barn, hwyluso'r mynegiant hwn, cyfleoedd i wrando ar y mynegiant hwn ac iddo allu dylanwadu. Ar hyn o bryd mae llawer o gefnogaeth ar gyfer creu 'mannau' ar gyfer cyfranogiad pobl ifanc ond absenoldeb dylanwad gofynnol (neu 'pwyslais dyledus') y farn a fynegir yn y mannau hynny. Mae hyn yn creu mater atebolrwydd yn ymwneud â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol y mae angen mynd i'r afael ag ef o hyd.



CRC/C/GBR/CO/4 para 33c: Parhau i gydweithredu â sefydliadau cymdeithas sifil er mwyn cynyddu cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad ystyrlon plant, yn cynnwys y cyfryngau

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru

Mae Uned Cyfranogiad Cymru, a leolir yn Achub y Plant - sydd yn gweithio gyda Chonsortium Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Cymru - wedi datblygu set o Safonau Cenedlaethol ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r bwlch rhwng rhethreg a realaeth. Cafodd y Safonau hyn eu hardystio gan bob aelod o Is-bwyllgor Cabinet Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cynulliad Cymru a'u lansio yn 2007 ac maent wedi cael eu cynnwys mewn polisiau a deddfwriaeth wedi hynny. Lansio'r Nod Barcud Cenedlaethol yn 2010 oedd y catalydd ar gyfer datblygu timau o arolygwyr ifanc ar draws Cymru. Fe wnaeth hyn roi hwb i ddymuniad llawer o sefydliadau i hunanasesu eu hymarfer er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud y gorau y gallent i sicrhau proses o ansawdd da a chael nod barcud gan bobl ifanc fel cydnabyddiaeth.

O fis Mawrth 2013, bydd gweithgaredd yr Uned Gyfranogiad, o ran cefnogaeth i gyflenwi amcanion Consortium Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Cymru, yn dod i ben. Mae perygl y bydd hyn yn creu gwactod o ran cefnogaeth ganolog a chenedlaethol i'r safonau, y nod barcud a'r timau Arolygwyr Ifanc. Mae'n hanfodol ar ôl y cyfnod hwn bod Llywodraeth Cymru yn arwain ac yn gweithio gyda phartneriaid yn y sector i ddatblygu strwythur neu gynllun cenedlaethol er mwyn sicrhau parhad y cynnydd a wnaed a chysondeb yn y dyfodol.

Yn unol â'r gwaith a wnaed gan yr Uned, mae corff mawr hefyd o adnoddau sydd wedi cael eu datblygu sydd yn annog arfer da. Mae ansicrwydd ble y caiff y rhain eu cynnal ar ôl mis Mawrth. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu 'Canolbwynt Cyfranogiad' sydd yn amlygu rhai o'r arferion allweddol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am a mynediad i wasanaethau eraill, gwefannau, adnoddau a chysiau hyfforddiant. Mae'n hanfodol bod cefnogaeth yn parhau ar gyfer y Canolbwynt a bod ymrwymiad i ledaenu'r adnoddau a grëwyd gan yr Uned fel nad ydynt yn cael eu colli.

61 Lundy (2007), 'Voice is not enough: conceptualising Article 12 of the United Nations Convention on the Rights of the Child', (British Educational Research Journal 33/6, 927-42)

Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau er 2007 i ariannu ffrydiau gwaith sy'n berthnasol i gyfranogiad plant a phobl ifanc. Cyfranogiad oedd un o brif gydrannau cais Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar draws Cymru. Arweiniodd rhan o'r cais hwn at raglen Cyrraedd y Nod, sydd yn ceisio annog cyfranogiad pobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, er mwyn iddynt gael y cyfle i gael eu clywed, i gael eu grymuso a chael yr hyder i leisio eu barn ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau. Fodd bynnag, gadawodd hyn fwlch o ran darpariaeth prosiectau sy'n canolbwyntio ar gyfranogiad plant. Cafwyd prosiectau tymor byr sydd wedi cefnogi cyfranogiad o dan 11 oed, fel Prosiect Plant fel Ymchwilwyr (CARS) a gynhaliwyd gan y Ddraig Ffyni. Fodd bynnag, mae'r gefnogaeth ar gyfer cyfranogiad plant 0-10 oed yn dal ar ei hol hi, ac mae datblygiadau strategol gan y Llywodraeth wedi bod yn fach iawn.

Daw'r cyllid ar gyfer menter Cyrraedd y Nod i ben ym mis Mawrth 2013 ac nid oes unrhyw arwydd ar hyn o bryd y bydd thema cyfranogiad yn cyd-fynd â rhaglenni a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn y dyfodol. Mae hyn yn peri pryder am nad yw'r ymarfer yn teimlo fel pe bai wedi ei sefydlu'n ddigonol. Prif sbardun y llywodraeth yw bod cyfranogiad yn barod i gael ei brif ffrydio. Er ei fod yn bwysig bod hyn yn digwydd, yn ymarferol, mae prif ffrydio diwylliant, fel cyfranogiad, yn cymryd cenhedlaeth yn hytrach na chylch bywyd ffrwd ariannu.

Casgliad

Er gwaethaf llwyddiant ymddangosiadol Llywodraeth Cymru yn datblygu polisiâu cyfranogiad mewn perthynas ag Erthygl 12, yn gyffredinol, mae ariannu strwythurau cyfranogiad yn dal yn rhywbeth tymor byr a manteisgar, sydd yn cyfyngu ar yr effaith y gallant ei chael. Mae hefyd yn eu gwneud yn agored i ailflaenoriaethu ac ailstrwythuro o ganlyniad i doriadau gwariant cyhoeddus.

Cafwyd llawer o bolisiâu â bwriadau da, ond mae perygl bod rhai yn cael eu gwneud heb gael eu cadw. Dylid cofio bod 'Gwahaniaeth hanfodol rhwng mynd trwy'r ddefod wag o gyfranogi a chael y pŵer gwirioneddol sydd ei angen i effeithio ar ganlyniad y broses'.⁶²

Mae hyn yn rhoi cwmplas i oedolion ddefnyddio'r ddyletswydd fel y mae'n gyfleus iddyn nhw yn hytrach na sicrhau bod cyfranogiad yn digwydd mewn gwirionedd a'i fod yn rhan annatod ohono. Mae perygl hefyd y bydd 'ymgysylltiad plant yn rhywbeth sydd yn apelio, ond yn ychwanegiad y gellir cael gwared arno ym mhreif fusnes llywodraethol'.⁶³

Argymhellion allweddol

Dylai Llywodraeth Cymru, yn gweithio gyda'i phartneriaid:

- Ddatblygu ymagwedd strategol genedlaethol gynhwysfawr tuag at gyfranogiad plant a phobl ifanc yn cynnwys darparu amcanion mesuradwy clir er mwyn sicrhau cysondeb ar draws awdurdodau lleol.
- Sicrhau bod eglurder a thryloywder ynghylch y ffordd y bydd sylw dyledus yn ystyried barn plant a phobl ifanc a bod y manylion yn ymwneud â hyn ar gael yn gyhoeddus.
- Sicrhau bod y canllawiau statudol terfynol, fel rhan o ganllawiau Cynllun Integredig Unigol "Cydamcanu - Cydymdrechu", yn cael eu cyhoeddi cyn gynted â phosibl.
- Cyhoeddi cynlluniau terfynol y trefniadau monitro ar gyfer cyfranogiad yn unol â'r Cynllun Integredig Unigol.
- Annog arolygiaethau i arolygu cyngorau ysgol ar sail ansawdd yn ogystal â phresenoldeb.

62 Arnstein, S. (1969) 'Eight rungs on the ladder of citizen participation', *Journal of the American Institute of Planners*, cyf 35, rhif 4, tud. 216-24.

63 Tisdall, E. a Bell, R. (2006). *Included in governance? Children's participation in 'public' decision making*. Yn: Tisdall, K., Davis, J. Hill, M a Prout, A. *Children, Young People and Social Inclusion, Participation for What?* Bristol, Policy Press.

- Cynnal adolygiad a gwerthusiad o ddarpariaeth gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer plant sydd yn gysylltiedig â thrafodion barnwrol.
- Cyflwyno system o fonitro a gwerthuso lefelau cyfranogiad plant mewn trafodion barnwrol.
- Ailedrych ar Adroddiad Waterhouse 'Ar Goll mewn Gofal' (2000) ac Adroddiad y Comisiynydd Plant 'Lleisiau Coll' yng nghyd-destun gwasanaethau eiriolaeth annibynnol.
- Sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn dangos arweinyddiaeth strategol gref yng nghyd-destun darparu gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc.
- Cyflwyno deddfwriaeth, cyllid craidd hirdymor a chymorth canolog i sicrhau strwythurau a mecanweithiau cyfranogiad cenedlaethol a lleol (yn cynnwys y Ddraig Ffyni).
- Ymrwymo i ddangos sut mae'r mannau ar gyfer cyfranogiad pobl ifanc yn cael y dylanwad gofynnol.
- Dyrannu adnoddau ychwanegol i gefnogi datblygiad strategol cyfranogiad plant 0-10 oed yn y broses o wneud penderfyniadau yng Nghymru, yn cynnwys datblygiad strwythurau perthnasol.
- Parhau i ariannu'r 'Canolbwynt Cyfranogiad' a lledaenu adnoddau ar gyfer cyfranogiad.

Pennod 4: Hawliau sifil a rhyddid

Cosb gorfforol

Dr Anne Crowley a Peter Newell, Cynghrais Sdim Curo Plant! Cymru

CRC/C/GBR/CO/4 para: 42 Mae'r Pwyllgor, gan ailadrodd ei argymhellion blaenorol yng ngoleuni sylw cyffredinol Rhif 8 ar "hawl y plentyn i gael ei amddiffyn rhag cosb gorfforol a mathau creulon neu israddol eraill o gosbi", yn ogystal â nodi argymhellion tebyg a wnaed gan y Pwyllgor Hawliau Dynol; y Pwyllgor Dileu Gwahaniaethu yn Erbyn Menywod; a'r Pwyllgor Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol, yn argymhell bod y Parti Gwladol:

- a) Yn gwneud gwahardd pob cosb gorfforol yn y deulu yn flaenoriaeth, yn cynnwys diddymu pob amddiffyniad cyfreithiol, yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a phob Tiriogaeth Dramor a Thiriogaethau sy'n Ddibynol ar y Goron;**
- b) Sicrhau bod cosb gorfforol yn cael ei gwahardd yn benodol mewn ysgolion a phob sefydliad a math arall o ofal amgen ledled y Deyrnas Unedig ac yn y tiriogaethau dramor a thiriogaethau sy'n ddibynol ar y goron;**
- c) Hyrwyddo mathau cadarnhaol nad ydynt yn dreisgar o ddisgyblu a pharch tuag at hawl cydradd plant i urddas dynol ac integreidd corfforol, gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o hawl plant i gael eu hamddiffyn rhag pob math o gosbi corfforol a lleihau'r graddau y mae gwneud hyn wrth fagu plant yn cael ei dderbyn;**
- d) Darparu addysg i rieni a hyfforddiant proffesiynol yn ymwneud â magu plant yn gadarnhaol.**



Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU



Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru

Sylwadau ar y cynnydd

Ar ôl i'r Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn gyhoeddi ei Arsylwadau Terfynol ym mis Hydref 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Hawliau Plant yn 2009 gan nodi ei flaenoriaethau allweddol a'i gamau mewn ymateb i hynny. Roedd Blaenoriaeth 10 o'r Cynllun Gweithredu fel a ganlyn:

“Gwneud cosbi plant a phobl ifanc yn gorfforol yn anghyfreithlon mewn pob sefyllfa”

Nododd y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi derbyn Arsylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ‘y dylid dileu amddiffyn “cosb resymol” (adran 58 o Ddeddf Plant 2004) er mwyn i blant a phobl ifanc allu cael yr un lefel o amddiffyniad gan y gyfraith ag oedolions.⁶⁴

Nododd cynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru ‘yr hyn fydd yn digwydd’ fel a ganlyn:

“Ym Mehefin 2009, llofnododd Gweinidogion Cymru Ddatganiad Ymgrych Sdim Curo Plant: Rydym yn dal yn ymrwymedig i alwad Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i wahardd cosb gorfforol yn fydeang a fydd:

- yn cyflawni hawliau dynol plant
- yn lleihau trais yn erbyn plant
- yn gwella effeithiolrwydd amddiffyn plant
- darparu sylfaen ar gyfer hyrwyddo disgyblaeth gadarnhaol sy'n gweithio

Mae gennym bolisi hirsefydlog o wrthwynebu cosb gorfforol a hyrwyddo mathau cadarnhaol, di-drais o ddisgyblu. Rydym yn derbyn argymhelliad Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig y dylid dileu amddiffyn ‘cosb resymol’, er mwyn i blant a phobl ifanc allu cael yr un lefel o amddiffyniad gan y gyfraith ag oedolion”.⁶⁵

Er nad oedd gan Lywodraeth Cymru y pŵer cyfansoddiadol i newid y gyfraith bryd hynny, fe wnaeth barhau i hyrwyddo negeseuon rhianta cadarnhaol trwy raglenni cymorth rhianta oedd yn eu hariannu fel *Dechrau'n Deg* a'r *Blynyddoedd Rhyfeddol*. Fe wnaeth ystod o sefydliadau cymdeithas sifil fel Barnardo's Cymru, Gweithredu dros Blant a'r NSPCC hefyd barhau i ddarparu rhaglenni cymorth i deuluoedd, mewn partneriaeth â Llywodraeth leol yn aml.

Ym Mawrth 2011, newidiodd refferendwm yng Nghymru y setliad datganoli gan roi pwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru i drosglwyddo ei ddeddfwriaeth ei hun mewn meysydd polisi penodol yn cynnwys amddiffyn plant. Ym mis Hydref 2011, mewn ymateb i ymholiad gan ddau Aelod o'r Cynulliad, dywedodd Prif Weinidog Cymru:

“Barn Gweinidogion Cymru yw y byddai'n bosibl i'r Cynulliad basio deddfwriaeth ... y byddai ei heffaith yn diddymu amddiffyn cosb resymol yn yr achosion hynny lle mae'n dal yn berthnasol am drosedd o ymosod ar blentyn.”

Ar 19 Hydref 2011, pleidleisiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru o blaid cynnig yn annog Llywodraeth Cymru i “ddwyn deddfwriaeth ymlaen i gael ei hystyried gan y Cynulliad a fyddai'n diddymu gallu amddiffyn ‘cosbi cyfreithiol’ am y drosedd o ymosod ar blentyn.” Pleidleisiwyd o blaid y cynnig gan fwyafrif cryf ar draws y pleidiau o 25 o bleidleisiau i 14. Ymataliodd Gweinidogion Cymru eu pleidlais.

Yn ystod y drafodaeth, tra'n datgan fel Llywodraeth a Chynulliad Cenedlaethol, “rydym o'r farn nad yw taro plentyn yn iawn”, a nodi ymrwymiad hirdymor i ddeddfwriaethu, dywedodd y Dirprwy Weinidog Plant “na fyddem yn gallu dwyn deddfwriaeth ymlaen yn ystod tymor y Cynulliad hwn”.

⁶⁴ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) *Gwneud Pethau'n Iawn 2009* Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn: Cynllun gweithredu treigl 5 mlynedd yn nodi blaenoriaethau allweddol a'r camau i'w cymryd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn ymateb i Arsylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 2008. Tud:48-49.

⁶⁵ Ibid

Yn adroddiad Cynnydd Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Hawliau Plant 2013, nodwyd:

*"Ym mis Hydref 2011, cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant na fyddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth yn ymwneud â chosb gorfforol, yn ystod tymor presennol y Cynulliad. Fodd bynnag, bydd newid diwylliannol yn cael ei hyrwyddo er mwyn annog disgyblu amgen cadarnhaol i gosb gorfforol. Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn gweithio gyda Chynghrair Sdim Curo Plant! Cymru i ddatblygu argymhellion yn ymwneud â'r ffordd orau o ddylanwadu a chreu'r newidiadau yr ydym yn eu ceisio. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y cyfrwng mwyaf priodol ar gyfer cyfathrebu â rhieni."*⁶⁶

Nid yw hyn yn gywir: Mewn cyfarfod â'r Dirprwy Weinidog ym mis Hydref 2012, eglurodd cynrychiolwyr CAU! Cymru y dylai Llywodraeth Cymru gyflawni ymrwymadau Llywodraethau olynol Cymru er 2002 a chyflwyno'r ddeddfwriaeth angenrheidiol ar y cyfle cyntaf. Nid yw'n cyd-fynd â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, i gadw plant Cymru'n aros nes ar ôl 2016. Fel y mae'r Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn wedi egluro mewn Arsyllwadau Terfynol olynol i'r DU a'i Sylw Cyffredinol ar hawliau'r plentyn i gael ei amddiffyn rhag cosb gorfforol, mae gwaharddiad - h.y. dileu amddiffyn 'cosb resymol' - yn ddyletswydd uniongyrchol i'r gwledydd. Hysbysodd Llywodraeth Cymru y Pwyllgor yn 2008 ei fod wedi ymrwymo i wahardd taro yn gyfan gwbl, ond nid oedd ganddo'r pŵer datganoledig i wneud hynny ar y pryd.

Nid yw Cynghrair Sdim Curo Plant yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar argymhellion yn ymwneud ag unrhyw weithredu arall ar wahân i ddeddfwriaethu cyn gynted â phosibl a chyflenwi ei rwymedigaethau yn ymwneud â hawliau dynol a'i ymrwymadau blaenorol.

Er mwyn i Gymru weithredu i sicrhau bod cyfraith a pholisi sy'n effeithio ar ei phlant yn bodloni'r rhwymedigaethau a gyflwynir gan CCUHP, yna mae'n glir bod yn rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol basio'r ddeddfwriaeth angenrheidiol i ddileu amddiffyniad "cosb resymol". Mae cam y Cynulliad o fabwysiadu Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn ailbwysleisio hyn.

Dylid defnyddio'r cyfle deddfwriaethol cyntaf i ddod â'r diwygiad hwn gerbron y Cynulliad. Mae Llywodraethau olynol Cymru wedi bod yn galw'n daer am y diwygiad cyfreithiol hwn er 2002 ac yn y cyfamser mae'r pwysau'n ymwneud â hawliau dynol ar Lywodraeth y DU, gydag argymhellion parhaus gan y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn a chyrrff hawliau dynol eraill, wedi tyfu'n sylweddol. Hyd yn oed er 2008, mae'r pwysau o ran hawliau dynol wedi parhau i gynyddu:

- Mewn Memorandwm i Lywodraeth y DU yn dilyn ymweliad ffurfiol yn 2008, tra'n condemnio'r diffyg cynnydd a wnaed gan Lywodraeth y DU, croesawodd Comisiynydd Cyngor Ewrop ar Hawliau Dynol y gefnogaeth gref y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei mynegi o blaid dileu amddiffyniad cosb resymol:

*"Fel y mae cyrrff cytuniad hawliau dynol rhyngwladol ac Ewropeaidd wedi ailadrodd, parch tuag at urddas dynol ac integreidd corfforol yw sylfaen hawliau dynol. Nid yw cynnal cyfraith sy'n caniatáu cyfiawnhau rhyw lefel o drais fel cosb neu ddisgyblaeth yn cydymffurfio â hawliau dynol. Mae rhoi llai o amddiffyniad cyfreithiol i blant rhag ymosodiad yn wahaniaethu ychwanegol ac yn anhygoel, o ystyried bod plant yn arbennig o agored i niwed. Ni ellir dychmygu y byddai unrhyw Aelod-wladwriaeth yn amddiffyn llai o amddiffyniad cyfreithiol rhag ymosodiad ar gyfer unrhyw grŵp arall o'r boblogaeth - menywod, pobl ag anableddau, yr henoed. Mae plant yn fwy dibynnol ac yn ddiamddiffyn mewn perthynas ag oedolion ac mae angen eu hamddiffyn yn fwy nid yn llai."*⁶⁸

⁶⁶ Welsh Government (2013) Getting it Right, National Action Plan on Children's Rights Progress Report.

⁶⁷ General Comment N° 8 (2006): The right of the child to protection from corporal punishment and other cruel or degrading forms of punishment (arts. 19; 28, para. 2; and 37, inter alia)

- Pan gafodd y DU ei archwilio yng nghylch cyntaf yr Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol yn 2008, argymhellodd yr Eidal, Ffrainc a Sweden y dylai'r Llywodraeth ailystyried ei safle ar gosb gorfforol. Gwrthododd Llywodraeth y DU yr argymhellion, gan ddatgan nad yw'n gweld unrhyw angen i ddiwygio'r gyfraith gan ei fod yn credu bod y gyfraith bresennol yn gweithio'n dda.
- Ym mis Mai 2009, ailadroddodd y Pwyllgor Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol argymhellion 2002, gan ddweud: Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd ei argymhelliad y dylid gwahardd cosbi plant yn gorfforol yn y cartref yn ôl y gyfraith⁷⁰
- Cyhoeddodd Pwyllgor Hawliau Cymdeithasol Ewrop, wrth fonitro'r graddau yr oedd y DU yn cydymffurfio â Siarter Cymdeithasol Ewrop, ei 'gasgliadau' diweddaraf ar adroddiad y DU ar ddechrau 2012, gan ateb holl esgusodion y DU dros beidio gwahardd yn gyfan gwbl a daeth i'r casgliad nad oedd y DU yn cydymffurfio oherwydd ei fethiant i ddileu amddiffyniad "cosb resymol" yn gyfan gwbl.⁷¹
- Yn ystod ail gylch yr Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol yn y DU yn y Cyngor Hawliau Dynol yng Ngenefa ar 24 Mai 2012, rhoddwyd pwysau mawr ar Lywodraeth y DU i wahardd cosbi plant yn gorfforol yn y cartref gydag argymhellion o'r Ffindir, Sweden a Hwngari, gan bwysleisio'r ddyletswydd hawliau dynol glir i wneud hynny.⁷²

Casgliad

Mae llywodraeth y DU yn parhau i amddiffyn ei safle presennol mewn ymateb i'r argymhellion hyn gan ddweud nad yw o'r farn bod amddiffyn cosb resymol yn mynd yn erbyn hawliau dynol plant. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau yn syndod o dawel ar y farn wahanol hon a wnaeth, cyn 2011, ei mynegi mor feiddgar a huawdl.

Ers datganoli mae llywodraethau olynol Cymru wedi cefnogi'r alwad i ddiwygio'r gyfraith er mwyn rhoi amddiffyniad cyfartal i blant yng Nghymru rhag cael eu taro. Cafwyd cefnogaeth ar draws y pleidiau hefyd ar gyfer y diwygio hyn yn y Cynulliad ei hun. Nid 'elfen ychwanegol ddewisol' yw dileu amddiffyn cosb resymol i lywodraeth sy'n cefnogi hawliau plant: mae'n ofyniad hanfodol.

Argymhellion allweddol

- Dylai Llywodraeth Cymru fanteisio ar yr ymrwymadau y mae wedi eu datgan i hawliau plant a dangos arweinyddiaeth fel mater o frys.
- Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddeddfwriaethu i ddileu amddiffyn 'cosb resymol' yn unol â'i ddyletswyddau hawliau dynol cyn gynted ag y mae hynny'n ymarferol. Mae plant yng Nghymru wedi aros yn rhy hir am amddiffyniad cyfartal yn unol â'r gyfraith yn ymwneud ag ymosod. Mae gennym gyfle bellach yng Nghymru gyda'r pwerau cyfreithiol newydd i ddwyn deddfwriaeth ymlaen a all hyrwyddo ac amddiffyn hawliau dynol plant i fyw yn rhydd rhag trais.
- Ynghyd â deddfwriaeth, dylai Llywodraeth Cymru gyda phartneriaid eraill barhau i fuddsoddi adnoddau er mwyn hyrwyddo disgyblu plant yn gadarnhaol ac yn ddi-drais.

68 Memorandwm gan Thomas Hammarberg, Comisiynydd Hawliau Dynol Cyngor Ewrop yn dilyn ei ymweliadau â'r Deyrnas Unedig, Chwefror a Mawrth 2008; adolygodd y rhifyn: cosb gorfforol, I CommDH(2008)28, Strasbourg, 9 Hydref 2008

69 (A/HRC/8/25, Adroddiad y Gweithgor, paragraffau 56(2), 56(3), 56(4) and 56(5))

70 E/C.12/GBR/CO/5, 22 Mai 2009, para. 24

71 Pwyllgor Ewrop ar Hawliau Cymdeithasol, ; Ionawr 2012, Casgliadau XIX-4 (2011)

72 Universal Periodic Review, Cyngor Hawliau Dynol, 13eg sesiwn (archwiliad Mai 24 2012, Genefa)

Pennod Pump: Amgylchedd teuluol a gofal amgen

Plant carcharorion

Laura Tranter, Barnardo's Cymru



CRC/C/GBR/CO/4 para. 44: Sicrhau cefnogaeth i blant ag un rhiant neu'r ddau yn y carchar, yn arbennig i gynnal cyswllt â'r rhiant (rhieni) oni bai nad yw hyn o fudd iddynt) a'u hatal rhag dioddef stigma a gwahaniaethu.

Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU a Chymru

Sylwadau ar y cynnydd

Mae Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy (NOMS) yn Asiantaeth Weithredol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ). Ei ddiben yw amddiffyn y cyhoedd a lleihau aildroseddau trwy gyflenwi cosbau a gorchmynion y llysoedd a chefnogi adsefydlu trwy helpu troseddwy i drawsnewid eu bywydau. Mae NOMS yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau troseddwy sy'n oedolion, yn y ddalfa ac yn y gymuned, yng Nghymru a Lloegr. Yn ogystal, mae'r Asiantaeth Weithredol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gwarchodol yn uniongyrchol ac o dan gontract i unrhyw adran arall o'r llywodraeth trwy wasanaeth carchardai'r sector cyhoeddus.

Mae'r asiantaeth wedi cyhoeddi *Cyflwyniad i Gomisiynu Gwasanaethau Troseddwy* sydd yn cynnwys y bwriad canlynol:

*'Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a'i asiantaethau datganoledig er mwyn sicrhau aliniad rhwng gwasanaethau troseddwy sydd wedi eu comisiynu'n uniongyrchol gan NOMS a chyfrifoldebau datganoledig Llywodraeth Cymru, i wella'r canlyniadau ar gyfer troseddwy, eu teuluoedd a chymunedau lleol.'*⁷³

Dros y 2 flynedd ddiwethaf datblygwyd nifer o wasanaethau arbenigol yng Nghymru gyda ffocws sylfaenol ar anghenion plant a theuluoedd troseddwy/carcharorion. Mae Arweinydd Llwybrau Plant a Theuluoedd dynodedig gan NOMS gyda chylch gorchwyl penodol o ddatblygu cysylltiadau â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ledled Cymru. Ceir Rheolwr Datblygu Rhanbarthol Cymru ar gyfer Gweithredu dros Deuluoedd Carcharorion⁷⁴ sydd yn rhoi cyngor, cefnogaeth ac arweiniad i bob Sector ar draws Cymru er mwyn eu galluogi i adnabod teuluoedd, datblygu offer asesu effeithiol a mesurau arfer da. Mae nifer o bartneriaethau wedi cael eu datblygu gyda charchardai yn cynnwys:

- Cyngor yn y Carchar + Ymddiriedolaeth Gofal (PACT): Cymorth Teuluol staff a gyflogir yng Ngharchar Ei Mawrhydi yn Abertawe + Carchar Ei Mawrhydi Abertawe.
- Prosiect Muriau Anweledig Cymru Carchar Ei Mawrhydi y Parc: Prosiect G4S a ariannwyd gan y Gronfa Loteri Fawr yng Ngharchar Ei Mawrhydi y Parc gyda phartneriaid cymunedol aml-asiantaeth yn cyflenwi gwasanaethau i ddau yn y carchar a'u teuluoedd yn y gymuned.
- Teulu a Ffrindiau Carcharorion (FFOPS): rhedeg Canolfan Ymwelwyr Carchar Ei Mawrhydi yn Abertawe.
- Platform 51: yn darparu cymorth uniongyrchol i droseddwy benywaidd a'u plant.

73 Bwriadau Comisiynu NOMS (2012) 2013-2014 <http://www.justice.gov.uk/downloads/about/noms/commissioning-intentions-2013-14-oct12.pdf>

74 www.prisonersfamilies.org.uk/

- Ymddiriedolaeth St. Giles: yn darparu gwasanaethau “trwy'r giât! i garcharorion yng Ngharchar Ei Mawrhydi yn Nghaerdydd a'u teuluoedd yn y gymuned
- Gibran: yn darparu gwasanaethau cymorth i fenywod sy'n dychwelyd i Gymru o Garchar Ei Mawrhydi yn Eastwood Park.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymgysylltu â swyddogion o NOMS er mwyn gwella Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, a gwnaed rhywfaint o gynnydd yn ymwneud â chyflenwi amgylcheddau sy'n gyfeillgar i deuluoedd mewn canolfannau ymwelwyr yn y rhan fwyaf o garchardai yng Nghymru, mae ymatebion i ymholiadau'n ymwneud â phlant carcharorion yn awgrymu bod y cynnydd cyffredinol gan Lywodraeth Cymru yn y maes hwn wedi bod yn gyfyngedig ac yn araf. Rydym yn deall bod Comisiynydd Plant Cymru yn bryderus ynghylch anghenion plant carcharorion/troseddwy'r a'i fod yn bwriadu amlygu'r mater yn y 12 mis nesaf.

Materion sy'n peri pryder

Mae diffyg cydweithio a chomisiynu ar hyn o bryd rhwng system cyfiawnder troseddol canolog Cymru a Lloegr a gwasanaethau awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae diffyg cydlynu gwasanaethau i gefnogi plant a theuluoedd troseddwy'r/carcharorion yng Nghymru sydd yn arwain at lefelau anghyson o gyflenwi gwasanaethau a chyfathrebu cyfyngedig ynghylch y mater hwn rhwng NOMS, y Weinyddiaeth Cyfiawnder a Llywodraeth Cymru.

Mae'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn wedi bod yn gyfyngedig ac yn araf ac mae wedi ei ddatblygu'n bennaf gan ddarparwyr gwasanaethau'r trydydd sector a charchardai. Ar hyn o bryd nid oes gan Lywodraeth Cymru strategaeth, canllawiau a chyllid craidd sydd wedi ei anelu'n benodol at fynd i'r afael ag anghenion plant carcharorion. Nid oes unrhyw asiantaeth unigol sy'n gyfrifol am blant a theuluoedd carcharorion/troseddwy'r yng Nghymru ac sy'n gyfrifol am gael barn plant ar y ffordd y mae cael rhiant yn y carchar yn effeithio ar eu bywydau.

Un peth sy'n peri pryder mawr yw'r diffyg dealltwriaeth a chydabyddiaeth o effaith cael rhiant yn y carchar ar blant yn y teulu gan wasanaethau cymorth i deuluoedd cyffredinol (h.y. anghysondeb yn cyflenwi gwasanaethau) ac o hawliau plant mewn amgylchiadau o'r fath. Mae diffyg gwasanaethau sy'n cyflenwi dulliau cyfannol, aml-asiantaeth sy'n bodloni anghenion unigol y teuluoedd ac, i'w symleiddio, nid oes digon o gymorth yn y gymuned ar gyfer teuluoedd troseddwy'r/carcharorion.

Er gwaethaf clytiau parhaus o arfer da yn lleol, nid oes unrhyw ffordd gyson o hyd o nodi plant sydd wedi eu heffeithio gan riant yn y carchar. Mae'n dilyn nad oes unrhyw ffordd o gynnwys y plant hyn sydd heb eu nodi eto yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Gwnaed rhywfaint o gynnydd ond mae bylchau systematig enfawr yn parhau. Nid oes unrhyw asesiad safonol o anghenion teuluoedd oni bai bod mater yn ymwneud â diogelu. Nid yw gwybodaeth briodol bob amser yn cael ei chasglu ar y plant yn y teulu a'r ffordd y bydd y ddedfryd yn effeithio arnynt. Mae diffyg cefnogaeth ar gyfer rhieni i'w hannog i rannu eu hamgylchiadau teuluol (h.y. partner yn y carchar) gydag asiantaethau statudol e.e. ysgolion/addysgu, gwasanaethau cymdeithasol ac ati. Mae diffyg ymwybyddiaeth/gwybodaeth o'r materion ar gyfer teuluoedd troseddwy'r ar draws sectorau statudol fel addysg.

Ceir rhagdybiaeth gan weithwyr proffesiynol mai rhyddhau yw diwedd y broses yn hytrach na dechrau cyfnod newydd, cythryblus yn aml i deuluoedd. Nid ymgynghorir â theuluoedd fel mater o drefn yn ymwneud â'r paratodau cyn rhyddhau ac nid ydynt bob amser yn cael eu hysbysu ynghylch y broses ryddhau e.e. dyddiadau, amserau rhyddhau ac ati. Er gwaethaf canllawiau Teuluoedd yn Gyntaf

Llywodraeth Cymru⁷⁵ ac IFSS⁷⁶ a datblygiad gwasanaethau, ni sonnir yn benodol am blant troseddwy, ac felly nid ydynt yn cael eu cydnabod fel grŵp ag anghenion penodol ac o ganlyniad nid eir i'r afael yn briodol â'r materion sy'n effeithio arnynt.

Problem fawr i blant carcharorion benywaidd yng Nghymru yw'r pellter y mae'n rhaid ei deithio i ymweld â'u mamau. Nid oes unrhyw garchardai ar gyfer troseddwy benywaidd yng Nghymru ar hyn o bryd ac mae'r rhan fwyaf o droseddwy benywaidd o Dde Cymru yn cael eu carcharu yng Ngharchar Ei Mawrhydi yn Eastwood Park yn Swydd Gaerloyw ac mae menywod o Ogledd Cymru'n cael eu dedfrydu i Garchar Ei Mawrhydi Styal yn Swydd Gaer.

Mae diffyg cymorth ariannol ar gyfer ymweliadau teuluol sy'n cael effaith uniongyrchol ar nifer yr ymweliadau y gall teulu eu fforddio neu beidio. Mae hyn yn golygu bod teuluoedd mwy tlawd yn ei chael hi'n anodd cadw cyswllt trwy gydol y ddedfryd. Mae diffyg ffocws ar bwysigrwydd cysylltiadau teuluol a chymunedol â'u cysylltiadau ag adsefydlu ac i leihau aildroseddu a'r ffordd y gall cadw cyswllt teuluol gael effaith gadarnhaol ar hawliau'r plentyn.

Nid yw gwasanaethau cyfiawnder troseddol oedolion bob amser yn ymwybodol o hawliau'r plentyn ac felly nid oes ganddynt bolisiau a hyfforddiant gorfodol fel mater o drefn i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae'r system cyfiawnder troseddol presennol yn dal i ganolbwyntio bron yn gyfan gwbl ar y troseddwr heb roi llawer o ystyriaeth i effaith carcharu ar deuluoedd.

Argymhellion allweddol

Dylai Llywodraeth Cymru:

- Gydabod plant troseddwy fel grŵp penodol o fewn polisi Llywodraeth Cymru.
- Cynyddu codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant a datblygu polisi ar faterion y mae plant carcharorion yn eu hwynebu a'u hintegreiddio i fframwaith hawliau plant.
- Comisiynu mewn partneriaeth â NOMS, gwasanaethau hirdymor ar gyfer plant a theuluoedd.
- Mewn partneriaeth â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder/NOMS sefydlu asiantaeth unigol annibynnol i fod yn gyfrifol am sicrhau cysondeb cyflenwi gwasanaeth a sicrhau bod barn plant a phobl ifanc â rhiant yn y carchar yn cael eu cydgrynhoi ac yr eir i'r afael â nhw ar draws Cymru.
- Galluogi mwy o ymgysylltu ar y materion y mae plant a theuluoedd carcharorion yn eu hwynebu gan asiantaethau lles a chymorth ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru.

Dylai Llywodraeth y DU/y Weinyddiaeth Cyfiawnder/NOMS:

- Mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, sefydlu partneriaethau cenedlaethol a rhanbarthol cryf i roi safbwyntiau lleol a chenedlaethol i'w bwydo i mewn i ddatblygiad polisi Llywodraeth Cymru.
- Rhoi mwy o ystyriaeth yn ystod y cam dedfrydu i ble y mae'r carcharorion yn mynd i'r carchar. Er mwyn gwella'r cyswllt â'r teulu, mae angen i'r carchardai fod mor agos â phosibl i gartref y teulu.
- Adolygu canllawiau dedfrydu o ran nifer y menywod sydd â chyfrifoldebau gofal sylfaenol ar gyfer plant yn eu teulu sydd wedi eu carcharu am droseddau ar lefel gymharol isel.

75 Llywodraeth Cymru (2011) Canllawiau Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf <http://wales.gov.uk/docs/dhss/publications/111219ffguideen.pdf>

76 Llywodraeth Cymru (2010) Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd: Canllawiau a Rheoliadau Statudol <http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/parenting/help/ifst/ifsspublications/4435364/?lang=en>

Amddiffyn plant

Kate Carr, Cecile Gwilym a Vivienne Lang, NSPCC Cymru

Sylwadau cyffredinol ar y cynnydd

Mae gan blant yr hawl i gael eu hamddiffyn ac felly mae'n ddyletswydd ar unrhyw gymdeithas i amddiffyn ei phlant rhag cam-drin ac esgeulustod. Mae'n bwysig monitro graddau'r cam-drin a'r esgeulustod er mwyn i ni wybod a yw'r ymdrechion i atal camdriniaeth ac i amddiffyn plant yn gweithio. Canfu'r gwaith ymchwil mwyaf diweddar ar nifer yr achosion o gam-drin ac esgeulustod plant yn y DU⁷⁷ fod 1 ym mhob 4 o oedolion ifanc (18- 24 oed) neu 25.3% wedi cael eu cam-drin yn ddifrifol yn ystod eu plentyndod. O'i gymharu â'r astudiaeth cam-drin plant blaenorol a gynhaliwyd ar draws y DU ym 1998/9⁷⁸, canfuwyd bod rhywfaint o ostyngiad yn y plant a'r bobl ifanc sy'n nodi rhai agweddau ar gam-drin corfforol a rhywiol, ond nid oedd unrhyw newid yn y profiadau o esgeulustod. Mewn sawl ffordd mae plant yn fwy diogel heddiw nag mewn cenedlaethau yn y gorffennol am fod dealltwriaeth o gam-drin a'r camau a gymerir i fynd i'r afael â cham-drin yn gwell. Fodd bynnag, mae arolygon hunan-adrodd ynghylch cam-drin ac esgeulustod plant yn dal i ddatgelu lefelau cam-drin ac esgeulustod uchel ac mae'n amlwg nad yw'r rhan fwyaf o'r achosion o gam-drin plant yn dod i sylw'r awdurdodau cyhoeddus.

Mae plant mewn angen yn blant y mae angen gwasanaethau arnynt er mwyn diogelu a hyrwyddo eu lles neu y mae ganddynt anabledd. Yng Nghymru, datgelodd Cyfrifiad Plant mewn Angen⁷⁹, a gyhoeddwyd ar ddiwedd Mawrth 2011, fod 19,655 o blant mewn angen, a oedd yn gyfradd o 315 fesul 10,000 o blant o dan 18 oed. Gan dreiddio i'r grwpiau gwahanol o blant mewn angen, rydym yn gwybod bod 2,890 o blant ar gofrestrau amddiffyn plant ar 31 Mawrth 2012 (cynnydd bach o'i gymharu â 31 Mawrth 2011). Mae hyn yn gyfradd o 46 o blant fesul 10,000 o'r boblogaeth sydd o dan 18 oed.⁸⁰

Nodwyd nifer uchaf y cofrestriadau mewn categorïau yn ymwneud ag esgeulustod (46%), gyda cham-drin emosiynol yn ail (31%) a'r categori isaf oedd cam-drin rhywiol (7%). Dylid cymryd gofal wrth ddehongli'r ystadegau hyn; nid amcangyfrifon o nifer y plant sy'n profi cam-drin ydynt, ond yn hytrach cofnod o'r holl blant yn yr ardal sydd yn destun materion amddiffyn plant sydd heb eu datrys ac sydd yn destun cynllun rhyngasiantaethol.

Gan gymharu'r niferoedd ar y gofrestr amddiffyn plant dros y blynyddoedd diweddar, ceir cynnydd cyson: rhwng 2004 a 2012 mae'r niferoedd wedi cynyddu 34%. Mae cam-drin yn dal yn broblem ystyfnig a dyma'r prif reswm yn barhaus dros roi plant ar y gofrestr amddiffyn plant yng Nghymru. Canfu astudiaeth yr NSPCC ar gam-drin plant yn y DU⁸¹ fod un ym mhob deg oedolyn ifanc wedi profi esgeulustod difrifol yn ystod eu plentyndod a chanfu ymchwil a wnaed gan yr NSPCC a Gofal yn y Gymuned yn 2012 fod plant sydd yn dioddef esgeulustod yn annhebygol o gael cymorth amserol gan y gwasanaethau cymdeithasol, yn ôl bron 60% o weithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol.⁸²

77 Radford, Lorraine, Corral, Susana, Bradley, Christine, Fisher, Helen, Bassett, Claire, Howat, Nick a Collishaw, Stephan (2011) *Child abuse and neglect in the UK today*. Llundain: NSPCC.

78 Cawson, P., Wattam, C., Brooker, S. a Kelly, G. (2000) *Child maltreatment in the United Kingdom: A study of the prevalence of child abuse and neglect*. Llundain: NSPCC.

79 Cyfrifiad Plant mewn Angen Cymru 2011 <http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/health2012/1202293/?lang=en>

80 Cofrestrau diogelu plant awdurdodau lleol 2012 <http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/health2012/1211282/?lang=en>

81 Radford, Lorraine, Corral, Susana, Bradley, Christine, Fisher, Helen, Bassett, Claire, Howat, Nick a Collishaw, Stephan (2011) *Child abuse and neglect in the UK today*. Llundain: NSPCC.

82 http://www.nspcc.org.uk/Inform/resourcesforprofessionals/neglect/policy_wda92078.html

Grŵp arall o blant mewn angen yw'r rheiny sydd yn 'derbyn gofal' ac yn methu bod gyda'u teuluoedd. Mae sawl rheswm pam y mae'r wladwriaeth yn rhiant corfforaethol yn cynnwys bod plentyn wedi dioddef cam-drin neu esgeulustod neu ei fod mewn perygl ac mae hefyd yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal yn wirfoddol neu trwy gytundeb eu rhieni. Yng Nghymru roedd 5,726 o blant yn derbyn gofal ar 31 Mawrth 2012⁸³, cynnydd o 310 (6%) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi cynyddu 24% dros y pum mlynedd diwethaf ac mae gan Gymru bellach y gyfradd uchaf (92 fesul 10,000 o'r boblogaeth o dan 18 oed) o blant sy'n derbyn gofal y pen o'r boblogaeth ar draws gwledydd y DU.

Mae'r rhan fwyaf o achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn aros yn gudd, heb ei gydnabod a heb hysbysu yn ei gylch. Ers datgelu Jimmy Savile fel troseddwr rhyw a wnaeth gam-drin dros 450 o ddioddefwyr dros ddegawdau lawer, mae nifer digynsail o ddioddefwyr a ddioddefodd cam-drin rhywiol yn blant yn y gorffennol ac yn y presennol wedi dod ymlaen. Ni wnaeth Jimmy Savile gael ei erlyn, ond dros y blynyddoedd i ddod, bydd pobl eraill sydd yn cam-drin plant yn cael eu herlyn ar draws y DU.

Yng Nghymru, daeth pryderon i'r amlwg bod cylch gorchwyl Ymchwiliad Waterhouse yn rhy gaeth a bod rhai pobl wedi llwyddo i beidio cael eu herlyn. Camodd Prif Weinidog y DU i mewn yn gyflym i gyhoeddi ymchwiliadau newydd i'r ymchwiliadau gwreiddiol a gynhaliwyd gan Heddlu Gogledd Cymru ac i'r honiadau newydd a hefyd i gylch gorchwyl yr ymchwiliadau gwreiddiol. Bydd adroddiadau interim yn cael eu cyhoeddi yn 2013.

Yr hyn sydd yn glir yw nad ydym bob amser wedi gwrandao ar farn plant, ei chlywed a gweithredu arni, sydd yn amlwg yn torri amodau Erthygl 12. Mae'n hanfodol bod plant yn cael eu credu a bod neges glir yn cael ei rhoi i blant y byddant yn cael eu credu a'u cefnogi os byddant yn dod ymlaen. Mae angen i wasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol fod ar gael ac yn hygyrch i blant ledled Cymru a dylent gydymffurfio â'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Darpariaeth Gwasanaethau Eiriolaeth Plant 2003 (gweler hefyd Pennod 3. Cyfranogiad). Mae'n hanfodol hefyd bod gwneuthurwyr polisiau ac ymarferwyr yn ymateb i arwyddion sy'n dod i'r amlwg o gam-drin rhywiol fel gangiau'n camfanteisio'n rhywiol ac mewn perthynas â pherson yn ei arddegau (gweler hefyd Pennod 8. Camfanteisio'n rhywiol a Phennod 6. Iechyd).

Mae plant wedi bod yn flaenoriaeth i lywodraethau yng Nghymru ers datganoli. Defnyddiodd Llywodraeth flaenorol Cynulliad Cymru ei phwerau deddfwriaethol i greu newid ar gyfer plant yng Nghymru trwy Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Bellach mae gan Lywodraeth Cymru bwerau deddfwriaethol sylfaenol, mae wedi gwneud ei bwriad yn glir i ddarparu ymyriadau cynnar a gwella lles a gwneud newidiadau i strwythurau diogelu trwy'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, a ddechreuodd ei daith trwy'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Ionawr 2013 a bydd yn dechrau ar 1 Ebrill 2016.

Fodd bynnag, mae angen i hawliau a chanlyniadau plant for yn fwy amlwg yn y Bil er mwyn eu gwireddu'n llawn yn y system amddiffyn plant. Bydd y Bil hefyd yn sefydlu Bwrdd Diogelu Cenedlaethol ar gyfer oedolion a phlant ac argymhellir bod y Bwrdd hwn yn rhoi cyfeiriad cenedlaethol clir; ei fod yn gryf ac yn gadarn ac yn dwyn pob bwrdd diogelu rhanbarthol ac asiantaeth i gyfrif am eu dyletswyddau diogelu. Bydd angen sefydlu gwarantau cadarn hefyd er mwyn sicrhau nad yw materion diogelu plant yn cael eu rhoi ar y cyrion tra bod y fframwaith amddiffyn oedolion yn cael ei ddatblygu.

83 <http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/health2012/120927/?lang=en>



CRC/C/GBR/CO/4 para. 5 I a: Sefydli mecanwaith ar gyfer monitro nifer yr achosion a graddau'r trais, y cam-drin rhywiol, yr esgeulustod, y cam-drin neu'r camfanteisio, o fewn y teulu hefyd, mewn ysgolion ac mewn gofal sefydliadol neu ofal arall.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data amddiffyn plant trwy Gyfrifiad Plant mewn Angen, ffigurau'r Gofrestr Amddiffyn Plant ac ystadegau yn ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal fel y nodir uchod. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc ar gyfer Cymru bob 3 blynedd sydd yn rhoi trosolwg o les plant a phobl ifanc Cymru. Mae hefyd yn annog rhannu gwybodaeth yn well rhwng asiantaethau trwy *Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru* (WASPI) a phrosiect SAIL.

Fodd bynnag, mae nifer o faterion arwyddocaol sy'n gysylltiedig â chasglu data amddiffyn plant:

- Mae asiantaethau gwahanol (iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol er enghraifft) yn casglu data gwahanol ac yn ei gadw ac yn adrodd arno ar wahân.
- Mae data o'r gwasanaethau cymdeithasol yn tueddu i ddibynnu'n helaeth ar ystadegau cofrestru, sydd yn broblem am fod ffigurau'r gofrestr amddiffyn plant yn wahanol i achosion gwirioneddol o gam-drin. Nid yw pob achos o gam-drin yn cael ei hysbysu ac yn arbennig mae ymchwil yn dangos bod cofrestru yn amcangyfrif yn llawer rhy isel yr achosion o gam-drin plant hŷn a phobl ifanc yn eu harddegau, yn bennaf am nad yw'r ffaith eu bod yn cael eu cam-drin yn cael ei gydnabod.
- Nid oes unrhyw gronfa ddata unigol sy'n cofnodi'n rheolaidd y trais a'r cam-drin y mae plant a phobl ifanc yng Nghymru'n ei brofi ac y gellir ei ddefnyddio fel sylfaen i ddatblygu strategaeth gynhwysfawr i fynd i'r afael â cham-drin ac esgeuluso plant.
- Er gwaetha'r ffaith mai bwlio yw'r ail reswm pennaf y mae plant yn cysylltu â ChildLine, nid yw Llywodraeth Cymru yn monitro achosion o fwlio yn ganolog.



CRC/C/GBR/CO/4 para 5 I. b: Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant (yn cynnwys athrawon, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr meddygol proffesiynol, aelodau o'r heddlu a'r farnwriaeth) yn cael hyfforddiant ar eu dyletswydd i adrodd a gweithredu'n briodol mewn achosion lle mae amheuaeth o gam-drin domestig sy'n effeithio ar blant

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru

Mae mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a cham-drin domestig yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru: mae gweithredu *Cynllun Gweithredu Cam-drin Domestig* yn gam a nodir yn glir yn Gwneud Pethau'n lawn, y Cynllun Gweithredu CCUHP treigl ar gyfer Cymru.⁸⁶ Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i ddod â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i ben ac mae wedi cyhoeddi papur gwyn yn amlinellu ei argymhellion. Mae'n datblygu'r strategaeth Hawl i fod yn Ddiogel⁸⁷ yn 2010 ac mae'n canolbwyntio ar:

⁸⁴ <http://wales.gov.uk/docs/caecd/research/110328cypmonitoren.pdf>

⁸⁵ Gilbert R, Spatz, Widom C, Browne K, Fergusson D, Webb E (2009) *Burden and consequences of child maltreatment in high-income countries*, *Lancet* 373: 68 – 81

⁸⁶ Welsh Assembly Government (2009) *Getting it right. 5 year rolling action plan to implement the UNCRC in Wales*.

⁸⁷ Welsh Government (2010) *Right to be Safe Strategy*
<http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/domesticabuse/publications/besafe/?lang=en>

- Arweinyddiaeth gref ar draws gwasanaethau'r sector cyhoeddus yng Nghymru.
- Addysg ac ymwybyddiaeth well o'r "crud i'r bedd" sydd yn cynnwys y cyhoedd, staff rheng flaen a gweithwyr proffesiynol.
- Cryfhau ac integreiddio gwasanaethau sydd yn gyson, yn effeithiol ac o safon uchel.

Mae'r papur gwyn yn cyfeirio'n glir at yr effaith hirdymor ar blant sydd yn profi trais yn y cartref ac yn datgan yr angen i sicrhau bod plant yn cael yr amddiffyniad, y cymorth a'r gwasanaethau perthnasol, fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i CCUHP. Fodd bynnag, bydd angen i'r dyletswyddau sy'n cael eu cynnig fod llawer yn gryfach a chliriach mewn perthynas â darparu gwasanaethau ar gyfer plant.

Mae canllawiau da gan Lywodraeth Cymru wedi cael eu sefydlu⁸⁸ ond y brif broblem oedd gweithredu polisïau a chanllawiau cenedlaethol yn anghyson yn lleol. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn ymwneud ag adrodd a chymryd camau priodol mewn achosion lle mae cam-drin domestig sy'n effeithio ar blant yn cael ei amau. Nid oes unrhyw strategaeth genedlaethol ar gyfer hyfforddiant ar gam-drin domestig wedi cael ei chyhoeddi eto, er gwaetha'r ffaith ei fod yn flaenoriaeth yn unol â *Chynllun Gweithredu'r Hawl i fod yn Ddiogel*. Mae'r adroddiad blynyddol ar *Gynllun Gweithredu'r Hawl i fod yn Ddiogel* Llywodraeth Cymru yn datgan ei fod yn disgwyl cyhoeddi'r strategaeth hyfforddiant yn 2013-14. Caiff y strategaeth ei datblygu i gefnogi gweithredu'r safonau gofynnol o'r prosiect 10,000 o fywydau mwy diogel sydd yn cynnwys cynllun hyfforddiant aml-asiantaeth blynyddol ar gyfer cam-drin domestig.

Er bod pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant yn cael hyfforddiant amddiffyn plant, nid yw pob hyfforddiant amddiffyn plant yn cynnwys materion cam-drin domestig. Ceir pryderon hefyd am anghysondeb o ran ansawdd a gweithredu hyfforddiant ar draws Cymru. Mae rhywfaint o hyfforddiant arbenigol wedi cael ei ddarparu er mwyn sicrhau bod bydwagedd a nyrsys yn hyderus yn gofyn cwestiynau asesu mewn perthynas â cham-drin a thrais. Fodd bynnag, mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu nad yw pob gweithiwr iechyd proffesiynol yn gofyn y cwestiynau hyn fel mater o drefn ac felly croesewir y ffaith fod y ddeddfwriaeth arfaethedig yn cynnwys cynlluniau ar gyfer datblygu a gweithredu fframwaith hyfforddiant cenedlaethol. Bwriad y ddeddfwriaeth arfaethedig yw cyflwyno dyletswydd i "ofyn" a "gweithredu". Wrth i bolisi gofal cymdeithasol Llywodraeth Cymru symud yn gynyddol tuag at fodel integredig sy'n canolbwyntio ar y teulu, bydd angen sefydlu canllawiau clir ar gyfer y rheiny sy'n gweithio gydag oedolion i "ofyn a gweithredu" er mwyn sefydlu ble y mae plant yn gysylltiedig sydd ag anghenion heb eu bodloni.



CRC/C/GBR/CO/4 para 51 c: Cryfhau cefnogaeth i ddioddefwyr trais, cam-drin, esgeulustod a cham-drin er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu gwneud yn ddioddefwyr eto yn ystod y trafodion cyfreithiol.

Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU a Chymru

Mae CAFCASS Cymru ar hyn o bryd yn gwneud swm sylweddol o waith yn ymwneud â chyfranogiad a llais plant a phobl ifanc sydd yn gysylltiedig â thrafodion llys teuluol. Mae Cynghorwyr Llys Teuluol yn gyffredinol yn ystyriol o'r angen i gydbwysu cyfrifoldebau rhieni â budd plant. Mae asesiad sgrinio ar gyfer diogelu rhag cam-drin domestig wedi cael ei sefydlu, sydd yn edrych yn arbennig ar effaith gwrthdaro rhwng rhieni ar blant. Mae CAFCASS Cymru yn cydnabod i raddau bod angen iddynt ddatblygu ffyrdd mwy systematig o gyfathrebu gyda phlant a phobl ifanc ac mae cynnydd ar y gweill i gyflawni hyn. Er enghraifft, mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd ar broses adborth a gwerthuso

⁸⁸ (Gwybodaeth a Chanllawiau ar Gam-drin Domestig: Diogelu Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru; Diogelu Plant a Phobl Ifanc sydd wedi eu Heffeithio gan Gam-drin Domestig <http://new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/domesticabuse/publications/safecandyp/?lang=en>)

ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn sicrhau bod darpariaeth y gwasanaeth yn seiliedig ar lais a barn y defnyddwyr (gweler hefyd Pennod 3. Cyfranogiad).

Fodd bynnag, mae tystiolaeth wedi amlygu problemau posibl mewn achosion o gyswllt â phlant lle mae cam-drin domestig wedi bod yn fater. Mewn achosion o'r fath, rhagdybir weithiau bod cyswllt â'r partner sy'n cam-drin er budd y plentyn, sydd yn gallu rhoi'r plentyn a'r rhiant nad yw'n cam-drin mewn mwy o berygl.⁸⁹ Mae hyn yn peri pryder penodol yng ngoleuni penderfyniad Llywodraeth y DU i ddeddfwriaethu i gynnwys egwyddor o rianta ar y cyd mewn ceisiadau'n ymwneud â chyswllt, preswyllo a chyfrifoldeb rhiant. Mae hyn yn mynd yn erbyn yr egwyddor goruchafiaeth a geir yn Neddf Plant 1989 ac mae'n cyflwyno peryglon sylweddol i blant a phartneriaid nad ydynt yn cam-drin mewn achosion o gam-drin domestig.

Pan fydd plant yn dystion mewn achosion mewn llys troseddol mae'n bwysig eu bod yn gallu rhoi'r dystiolaeth orau ac nad ydynt yn poeni nac o dan straen. Cynhaliodd yr NSPCC werthusiad o Wasanaeth Tystion Ifanc peilot yng Ngogledd Iwerddon⁹⁰ a chanfod bod ymateb cadarnhaol eithriadol i'r cyswllt byw o bell, mewn adeilad i ffwrdd o'r llys, oedd yn galluogi tystion ifanc i roi eu tystiolaeth orau. Mae'r cyswllt byw o bell bellach yn cael ei gyflwyno gan yr Adran Cyfiawnder yng Ngogledd Iwerddon ac argymhellir bod y gwasanaeth hwn hefyd yn cael ei ddarparu ar gyfer plant sydd yn gysylltiedig ag achosion troseddol yng Nghymru a Lloegr.



CRC/C/GBR/CO/4 para 51 d: Darparu mynediad i wasanaethau digonol ar gyfer adferiad, cwnsela a mathau eraill o ailintegreiddio ym mhob rhan o'r wlad.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth gynhwysfawr ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl y Plant a'r Glasod yn 2001, sef Busnes Pawb, a ddisgrifiwyd yn glir fel rhan o ymateb y Llywodraeth i'r dyletswyddau a amlinellir yn CCUHP. Fodd bynnag, daeth archwiliad ar y cyd yn 2009 gan Swyddfa Archwilio Cymru, AGIC, Estyn, ac AGGCC o wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion emosiynol ac iechyd meddwl⁹¹ i'r casgliad canlynol: "er gwaethaf rhai gwelliannau dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r gwasanaethau yn dal i siomi llawer o blant a phobl ifanc, sydd yn adlewyrchu nifer o rwystrau allweddol rhag gwelliant." (Gweler hefyd Pennod 6. Iechyd)

Ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r bwlch gweithredu (*Chwalu'r Ffiniau*, 2010), wedi pasio'r Mesur Iechyd Meddwl ac wedi cyhoeddi strategaeth iechyd meddwl ar gyfer pob oed, *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl*.

Mae meini prawf caeth ar gyfer cael mynediad i wasanaethau CAMHS yng Nghymru yn tueddu i allgáu plant o'r gwasanaethau oni bai bod ganddynt salwch meddwl y gellir cael diagnosis ar ei gyfer (gweler hefyd Pennod 6 Iechyd). Yn gyffredinol, ni fydd plant sy'n cael eu cam-drin yn cyd-fynd â'r meini prawf hyn hes eu bod yn dangos symptomau gorfywiogrwydd eithafol, iselder, anhwylderau bwyta, hunan-niwed difrifol neu pan fyddant yn cyflwyno perygl i eraill. Mae'r plant hyn yn cyflwyno symptomau ar lefel mor uchel ar y sbectrwm anghenion am nad ydynt yn gallu cael mynediad i gymorth digonol i'w helpu i gael adferiad yn gynharach yn eu bywydau. Ceir hefyd diffyg ymyriadau therapiwtig a chefnogol priodol ar gyfer yr hyn a elwir yn lasoed trwblus eithafol. Gall gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion helpu plant

⁸⁹ Cymorth i Fenywod (2004): *Twenty Nine Child Homicides: Lessons still to be learned on domestic violence and child protection*

⁹⁰ David Hayes, Lisa Bunting, Anne Lazenbatt, Nicola Carr a Joe Duffy: *The experiences of young witnesses in criminal proceedings in Northern Ireland: 2011* | Adran Cyfiawnder (NI)

⁹¹ http://www.wao.gov.uk/assets/englishdocuments/CAMHS_eng.pdf

hŷn ag anawsterau llai difrifol os ydynt yn gofyn am gymorth. Fodd bynnag, nid yw'r gwasanaethau hyn yn arbenigo mewn helpu plant i gael adferiad ar ôl cael eu cam-drin. Mae hyn yn torri rheolau Erthygl 39 sydd yn datgan y dylai plant sydd wedi cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin gael cymorth arbennig.

Yn ogystal, mae plant yn parhau i gael anhawster yn cael mynediad i wasanaethau trwy eu hawl eu hunain. Mae'r defnydd o'r term DNA (heb gyrraedd) yn awgrymu bod gan blant y gallu i fod wedi cytuno gyda'r penderfyniad i beidio mynd i glinig neu apwyntiad.

Argymhellion allweddol

Dylai Llywodraeth Cymru, wrth weithio gyda'i phartneriaid statudol:

- Egluro ei strategaeth drosfwaol ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant. Yn arbennig, mae angen iddi fod yn gliriach ynghylch sut y mae hawliau plant i gael eu diogelu a'u hamddiffyn yn cael eu gwireddu.
- Cefnogi gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant er mwyn adnabod ac ymateb yn effeithiol i esgeulustod plant er mwyn i blant sy'n cael eu hesgeuluso gael y cymorth y mae ganddynt hawl iddo.
- Comisiynu ymchwil ar frys i achosion sylfaenol y gyfradd uchel o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.
- Sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol ar gael ac yn hygyrch i blant ledled Cymru a chydymffurfio â'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Darpariaeth Gwasanaethau Eiriolaeth Plant 2003.
- Sicrhau bod y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn canolbwyntio'n fwy ar hawliau a bod hawliau plant yn cael eu cynnwys yn fwy amlwg a'u sefydlu yn y Bil.
- Sicrhau bod y strwythurau diogelu newydd yn gweithio'n effeithiol, gan ddwyn yr holl asiantaethau i gyfrif am eu dyletswyddau diogelu ac nad yw materion diogelu plant yn cael eu rhoi ar y cyrion tra bod y fframwaith amddiffyn oedolion yn cael ei ddatblygu.
- Sicrhau bod hawliau ac anghenion plant yn cael eu bodloni yn unol â'r ddeddfwriaeth arfaethedig trwy gyflenwi fframwaith hyfforddiant sy'n cefnogi gweithwyr proffesiynol i "ofyn a gweithredu" mewn perthynas â'r dioddefwr a phlant a allai fod yn profi cam-drin domestig
- Sicrhau bod y trais a'r cam-drin y mae plant a phobl ifanc yng Nghymru'n ei brofi yn cael ei fesur yn effeithiol ac yn rheolaidd ym mhob lleoliad.
- Cymryd camau i sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd wedi profi cam-drin yn gallu cael mynediad i wasanaethau therapiwtig priodol, sy'n canolbwyntio ar y plentyn.
- Sicrhau nad yw'r ffocws ar hawliau plant i gael eu diogelu a'u hamddiffyn yn mynd ar goll fel rhan o'r pontio i agenda darparu gwasanaeth integredig ar gyfer oedolion a phlant.
- Bod dull cyson a systematig yn cael ei fabwysiadu er mwyn sefydlu hawliau plant ar draws pob strategaeth, cynllun cyflenwi a gwasanaeth ar gyfer iechyd meddwl.
- Bod diogelu ac amddiffyn plant yn cael ei sefydlu wrth ddylunio a chyflenwi'r holl wasanaethau iechyd meddwl
- Dylid mynd i'r afael â hepgoriadau o ran blaenoriaethau datblygu'r gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc trwy:
 - ddatblygu strategaeth iechyd meddwl penodol i fabanod
 - sicrhau bod gwasanaeth yn cael ei ddarparu ar gyfer grwpiau agored i niwed, yn cynnwys plant a phobl ifanc sydd yn dioddef cam-drin rhywiol
 - cydnabod effaith materion iechyd meddwl oedolion ar blant dibynnol

Dylai Llywodraeth y DU weithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau:

- Mai budd plant a phobl ifanc yw'r brif egwyddor yn ystod trafodion cyfreithiol.
- Bod cyswllt byw o bell y gwasanaeth tystion ifanc ar gael i blant sy'n gysylltiedig ag achosion troseddol yng Nghymru a Lloegr.

Pennod Chwech: Iechyd a lles sylfaenol

Plant anabl

Lynne Hill, Plant yng Nghymru



CRC/C/GBR/CO/4 para. 53: Yng ngoleuni'r Rheolau Safonol ar Gydraddoliad Cyfleoedd ar gyfer Pobl ag Anableddau (Cynnig Cyffredinol y Cynulliad 48/96) a sylw cyffredinol y Pwyllgor Rhif 9 (2006) ar hawliau plant ag anableddau, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Parti Gwladol:

(a) Yn cymryd yr holl fesurau sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth sy'n amddiffyn pobl ag anableddau, yn ogystal â rhaglenni a gwasanaethau ar gyfer plant ag anableddau, yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru

Polisiau a rhaglenni cenedlaethol

Teuluoedd yn Gyntaf

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn rhaglen gan Lywodraeth Cymru sy'n hyrwyddo datblygiad systemau a chymorth aml-asiantaeth, gyda phwyslais clir ar ataliaeth ac ymyrraeth gynnar ar gyfer teuluoedd, yn arbennig y rheiny sy'n byw mewn tlodi. Mae'r rhaglen yn gweithredu ym mhob ardal awdurdod lleol. Mae gan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf elfen benodol a ddylai nodi cynigion i wella cymorth ar gyfer teuluoedd â phlant a phobl ifanc anabl.

Seibiant byr

Rhoddodd Deddf Plant 1989 a Rheoliadau Seibiant Byr ar gyfer Gofalwyr Plant Anabl (Cymru) 2012 ddyletswydd ar awdurdodau i ddarparu seibiant i ofalwyr plant anabl i'w cynorthwyo i barhau i ofalu am eu plant yn y cartref.

Cyfleoedd chwarae digonol

Mae'r Ddyletswydd Cyfleoedd Chwarae Digonol yn rhan o agenda Llywodraeth Cymru yn erbyn tlodi ac mae'n cydnabod y gall plant ddioddef tlodi o ran profiad, cyfle ac uchelgais, a all effeithio ar blant o bob cefndir cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd yng Nghymru. Mae rheoliadau Asesu Cyfleoedd Chwarae Digonol 2012⁹² yn ei wneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol asesu a oes digon o gyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd. O fewn y canllawiau statudol sonnir yn benodol am anghenion plant anabl "anabl "Bod cyfleoedd chwarae yn hygyrch ac yn gynhwysol i blant anabl a gall gynnwys cymorth i gael mynediad i gyfleoedd chwarae."⁹³

92 Rheoliadau Cyfleoedd Chwarae Digonol (2012) <http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=239251&ds=10/2012>

93 Creu Cyfleoedd i Chwarae – Canllawiau Statudol i Awdurdodau Lleol ar asesu a oes digon o gyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd. Llywodraeth Cymru 2012.

Cymorth ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu rhaglen waith o'r enw "*Ymlaen mewn Partneriaeth dros blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol*"⁹⁴ a fydd yn diwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer anghenion addysgol arbennig.

Bydd y ddeddfwriaeth newydd fydd yn cael ei chyflwyno yn:

- rhoi sylfaen statudol i gysyniad Anghenion Ychwanegol (AY)⁹⁵
- disodli datganiadau addysgol arbennig (AAA) gyda Chynlluniau Datblygu Unigol (CDU) ar gyfer plant a phobl ifanc
- nodi'r ffordd y bydd cynlluniau integredig yn cynnwys y rheiny sydd yn 0–25 oed sydd yn dod o fewn categorïau anghenion gwahanol
- nodi'r dyletswyddau i'w rhoi i gyrff perthnasol
- nodi'r broses ar gyfer datrys unrhyw anghydfodau
- rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi côd ymarfer mewn perthynas â'r fframwaith statudol newydd ar gyfer AY
- rhoi dyletswydd ar gyrff perthnasol i gydweithredu yn ymwneud â darpariaeth AY.

Bydd gan blant a phobl ifanc ag AY Gynlluniau Datblygu Unigol (CDUau), fydd yn cynnwys:

- Gwybodaeth fywgraffiadol am y plentyn neu'r person ifanc, manylion cyswllt a gwybodaeth am bawb sy'n gweithio gyda nhw.
- Cyfraniadau gan y plant a'r bobl ifanc, eu rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw. Bydd CDPau yn ystyried yr hyn sydd yn bwysig i'r plentyn neu'r person ifanc a'r hyn sydd yn bwysig iddyn nhw.
- Cynllun gweithredu yn amlinellu'r ffordd y caiff anghenion y plentyn neu'r person ifanc eu bodloni a chan bwy a phryd a'r ffordd y caiff hyn ei adolygu yn y dyfodol.
- Caiff y cynllun ei adolygu bob chwe mis o leiaf.

Cynhelir peilot o'r gwaith hwn ar hyn o bryd mewn wyth ardal awdurdod lleol, a chaiff y cynlluniau peilot eu gwerthuso'n annibynnol. Bydd y cyfnod peilot presennol yn dod i ben ym mis Awst 2013.

Cefnogi Cynnar

*Cefnogi Cynnar*⁹⁶ yw mecanwaith Llywodraeth Cymru i wella gwasanaethau ar gyfer plant anabl a phlant ag anghenion ychwanegol a'u teuluoedd. Mae Cefnogi Cynnar wedi datblygu ystod o adnoddau a hyfforddiant â'r nôd o ddod â darparwyr gwasanaethau ynghyd i weithio mewn partneriaeth â'r teulu er mwyn sicrhau bod gofynion y plant a'r teulu'n cael eu bodloni. Y nod yw gwneud rhieni'n ganolog i'r broses gynllunio.

Gwasanaethau pontio ar gyfer pobl ifanc anabl

Gyda chymorth cyllid Ewropeaidd, mae peilot pontio wedi cael ei ddatblygu mewn 15 o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei groesawu gan bobl ifanc, rhieni a

94 <http://wales.gov.uk/consultations/education/senframeworkconsultation/?lang=en>

95 Anghenion Ychwanegol yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio "y byddai'n cael ei ystyried bod gan blentyn neu berson ifanc angen ychwanegol os ydynt yn cael mwy o anhawster na'r rhan fwyaf o bobl o'r un oed, sy'n gallu cynnwys problemau sylweddol oherwydd eu hanghenion corfforol neu synhwyraidd; anghenion cyfathrebu; gallu i ddysgu; neu ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol". O ddogfen ymgynghori.

96 <http://www.earlysupportwales.org.uk/>

gweithwyr proffesiynol. Mae'r gwaith hwn bellach yn dod i ben ac er y bydd llawer o ardaloedd yn parhau â'r gwaith, nid oes unrhyw sicrwydd y bydd yr holl brosiectau'n parhau, ac nid oes unrhyw gynlluniau i gyflwyno'r model ar draws Cymru. Bydd rhywfaint o'r gwaith a ddatblygwyd yn yr agenda Anghenion Ychwanegol yn cefnogi'r pontio; fodd bynnag nid yw llawer o bobl ifanc ar hyn o bryd yn cael yr un dewis o gyfleoedd a'u cyfoedion nad ydynt yn anabl.

Fodd bynnag, fel y nodwyd yn Aros, Edrych, Gwranddo yn 2007⁹⁷, mae meysydd lle mae gwasanaethau a chanllawiau heb eu datblygu'n ddigonol o hyd, yn cynnwys gwasanaethau datblygiad plant, gwasanaethau iechyd plant, a darpariaeth ar gyfer pobl ifanc anabl I 6 oed ac yn hŷn.

Mynediad i gyfleoedd chwarae

Mae'r Ddyletswydd Cyfleoedd Chwarae Digonol yn gam ymlaen gan Lywodraeth Cymru sy'n cael ei groesawu (gweler hefyd Pennod 7. Chwarae). Gan fod awdurdodau lleol ar hyn o bryd yn cwblhau eu harchwiliad Cyfleoedd Chwarae Digonol, mae'n rhy gynnar i roi sylwadau ar eu heffeithiolrwydd.

Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod nifer o bryderon ar hyn o bryd yn ymwneud â chefnogi mynediad i ystod o gyfleoedd chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc anabl yng Nghymru.⁹⁸

“Y realaeth i'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc anabl yw, fel y dywedodd un person ifanc, 'does dim byd ar fy nghyfer i'.⁹⁹

O ran materion cynhwysiant, mae rhieni yn aml yn amharod i ganiatáu eu plant i gymryd rhan mewn hamdden prif ffrwd, gan ofni ymateb gan gyfoedion a chymhwysedd a/neu werthoedd hyfforddwy. Mae llawer o bobl ifanc anabl wedi dod i arfer â threulio llawer o'u hamser hamdden gyda theulu neu deulu estynedig, felly gall mynychu clybiau allanol fod yn frawychus iddynt. Mae llawer o grwpiau'n dal yn amheus ac yn amharod i gynnwys pobl ifanc anabl, oherwydd ofn yn y bôn yn ymwneud ag iechyd a diogelwch, ymgyfreitha posibl a'r gallu i roi cefnogaeth ddigonol.

Nodir trafndiaeth fel problem ar gyfer pobl ifanc anabl ar draws Cymru. Hyd yn oed os oes system trafndiaeth gyhoeddus ddigonol, nid yw bob amser yn opsiwn ar gyfer pob person ifanc ag anabledd dysgu. Mae mynediad corfforol i ganolfannau hamdden yn annigonol yn aml hefyd. Gall awdurdodau lleol fod wedi gwneud addasiadau i fynedfeydd neu ardaloedd bwyta ond ni fydd ganddynt offer codi neu fan newydd yn y tŷ bach. Ymddengys yr addasiadau yn arwynebol neu'n symbolaidd yn aml, wedi eu dylunio i fodloni isafswm y gofynion deddfwriaethol yn hytrach na chroesawu cynhwysiant.

Mae gwybodaeth a hyder staff yn cael ei gwestiynu'n aml. Mae angen mwy o gysylltiad ar staff a hyfforddwy canolfannau hamdden er mwyn gwella hyder yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc anabl. Mae hyfforddiant yn unig yn ffordd annigonol o fynd i'r afael â phryderon a magu hyder.

Nid yw plant a phobl ifanc anabl yn elwa ar gynlluniau'r llywodraeth yn aml. Er enghraifft mae menter 5x60 Llywodraeth Cymru¹⁰⁰ ond yn gweithio gydag ysgolion arbennig mewn saith awdurdod lleol ar draws Cymru, ond mae pob ysgol gyfun prif ffrwd yn elwa ar y cynllun hwn. Yn olaf, nid yw pob plentyn yn mwynhau nac yn dymuno bod yn rhan o chwarae a hamdden prif ffrwd ac mae angen cydnabod hyn hefyd.

97 Croke & Crowley (gol) Aros, edrych, gwranddo: sut mae gwireddu hawliau plant yng Nghymru. Achub y Plant.

98 Tystiolaeth a gasglwyd oddi wrth Mencap ac arweinwyr Awdurdodau Lleol fel rhan o sesiynau tystiolaeth.

99 Chwarae Teg ar gyfer Plant a phobl ifanc Anabl yng Nghymru. Sefydliad Bevan Ionawr 2011.

100 <http://www.sportwales.org.uk/community-sport/education/5x60.aspx>

Bwlio

Mae'n ofynnol i bob ysgol yng Nghymru gael polisi gwrth-fwlio ac, yn ddelfrydol, dylid datblygu a gweithredu'r polisi gyda mewnbwn disgyblion yn yr ysgol. Mae Llywodraeth Cymru'n eirioli bod ysgolion yn mabwysiadu ymagwedd ysgol gyfan tuag at fwlio, ond yr ysgolion unigolion sydd i benderfynu pa fesurau y mae'n eu cymryd i atal ac ymateb i fwlio yn seiliedig ar ofynion lleol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu gwaith o dan y teitl *parchu eraill*,¹⁰¹ cyfres o ddeunyddiau gwrth-fwlio sy'n rhoi canllawiau ac atebion ymarferol ar atal ac ymateb i ddigwyddiadau bwlio mewn ysgolion. Mae'r gyfres yn cynnwys dogfen trosolwg byr a chanllawiau manwl ar bum maes bwlio, un ohonynt yn fwlio sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig ac anabledau. Er bod y gwaith hwn yn cael ei groesawu, i lawer o bobl ifanc anabl yng Nghymru, ymddengys nad yw'n cael llawer o effaith.¹⁰²

Am nad yw Llywodraeth Cymru'n casglu unrhyw ddata systematig gan ysgolion ar fwlio, mae'n anodd, os nad yn amhosibl, gwybod sut mae ysgolion yn mynd i'r afael â'r materion hyn. Wrth gasglu tystiolaeth gan ymarferwyr roedd y darlun ar draws Cymru'n amrywiol. Nododd un cyfrannwr "Er bod rhai ysgolion wedi dangos bod ganddynt arfer rhagorol yn ceisio brwydro yn erbyn bwlio a'i effeithiau ar unigolion a chymdeithas, nid oes gan ysgolion eraill unrhyw faterion bwlio yn eu hysgol".

Er gwaethaf cynnydd o ran polisi, y realaeth i'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc anabl yw nad yw'r canlyniadau wedi gwella rhyw lawer. Er enghraifft, mae bwlio'n dal i beri pryder i blant a phobl ifanc â nam ar eu golwg sydd yn arbennig o agored i niwed pan na fyddant yn gallu gweld ac felly adnabod y cyflawnwyr. Ymddengys bod bwlio hefyd yn fwy o broblem i bobl ifanc mewn unedau AAA o'i gymharu ag ysgolion arbennig. Y tu allan i leoliad yr ysgol, nid oes llawer yn cael ei wneud i fynd i'r afael â bwlio mewn cymunedau ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a'u rhieni. Mae'r ofn hwn hefyd yn cyfyngu cyfleoedd i gymdeithasu ac ymgysylltu mewn gweithgareddau cymunedol.¹⁰³

Addysg a gwaharddiadau

Mae plant anabl yn cael eu gwahardd o ysgolion yn aml, yn arbennig y rheiny ag anawsterau cyfathrebu neu ymddygiadol emosiynol¹⁰⁴. Mae ystadegau Llywodraeth Cymru yn dangos gostyngiad yn nifer y gwaharddiadau. "Yn 2010/11 cafwyd 158 o waharddiadau parhaol o ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru, gostyngiad o 27 o'i gymharu â 2009."¹⁰⁵

Mae nifer y gwaharddiadau sydd yn anghyfreithlon neu'n groes i'r gyfraith yn peri mwy o bryder. Mae llawer o'r gwaharddiadau hyn yn digwydd dro ar ôl tro, sydd yn golygu bod rhai plant a phobl ifanc yn colli cyfleoedd addysgol a chyswllt â chyfoedion:

*"Nid yw'n gyfreithlon i ysgolion ofyn i rieni neu warcheidwaid gadw eu plant adref o'r ysgol heb i'r ysgol roi hysbysiad ffurfiol o waharddiad. Mewn achosion fel hyn, y term cywir yw 'gwaharddiad anghyfreithlon' ond cyfeirir ato'n aml fel 'gwaharddiad sydd yn groes i'r gyfraith'."*¹⁰⁶

101 <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/circulars/antibullying/?lang=en>

102 Tystiolaeth a gasglwyd o gyfweiliadau gyda phobl ifanc anabl gan Plant yng Nghymru.

103 Tystiolaeth a gasglwyd gan RNIB ac arweinydd Awdurdod Lleol Gwynedd yn ystod sesiynau casglu tystiolaeth partneriaeth gan Barnardo's Cymru a SNAP Cymru a Gomisiynydd gan yr Adran Addysg a Sgiliau (DfES), Llywodraeth Cymru

105 Gwaharddiadau o ysgolion yng Nghymru 2010/11. Ystadegau ar gyfer Cymru Chwefror 2012.

106 Experiences of illegal school exclusions in Wales: a qualitative study, gan Victoria Butler. Prosiect ymchwil partneriaeth gan Barnardo's Cymru a SNAP Cymru a gomisiynydd gan yr Adran Addysg a Sgiliau (DfES), Llywodraeth Cymru

Gwnaeth Adroddiad Comisiynydd Plant Cymru 2007¹⁰⁷ naw argymhelliad yn dilyn ymchwiliad i waharddiadau answyddogol disgybl ag anghenion addysgol arbennig o'r ysgol, a gwnaeth *Experiences of illegal school exclusions in Wales: a qualitative study*, gan Victoria Butler, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2011, 27 o argymhellion. Dylid gweithredu argymhellion yr adroddiadau hyn yn llawn.

Tlodi

Mae llawer wedi cael ei nodi am yr heriau ariannol y mae teuluoedd â phlant anabl yn eu hwynebu yn y DU, yn fwyaf diweddar, canfu Cymdeithas y Plant (2011)¹⁰⁸ fod pedwar ym mhob deg plentyn anabl yn y DU yn byw mewn tlodi.¹⁰⁹

Mae gwaith Ymgyrch Ymwybyddiaeth Budd-daliadau o dan arweiniad y Ganolfan Cyngor ar Bopeth i godi ymwybyddiaeth ynghylch budd-daliadau a menter ychwanegol Cronfa'r Teulu, a amlygwyd yng *Nghynllun Gweithredu Gwneud Pethau'n lawn 2009*, eu dau wedi cyfrannu at sicrhau bod teuluoedd â phlentyn neu blant anabl yn cael budd-daliadau priodol a'u bod yn gallu gwneud cais am grantiau i brynu'r eitemau y maent eu hangen. Fodd bynnag, mae teuluoedd yn dal i wynebu heriau sylweddol bob dydd o ran talu costau eu cartrefi.

Mae Cyswllt Teulu yn eu hadroddiad o'r enw *Counting the Costs 2012* yn amlygu mai:

*"mynd heb hanfodion a mynd i ddyled i dalu am fwyd, gwres a dillad yw'r norm i'r rhan fwyaf o deuluoedd â phlant anabl. Mae gofalmwr sy'n rhieni'n sôn am y dewisiadau anodd y maent yn gorfod eu gwneud yn barhaus, yr annhegwch a'r cywilydd y maent yn ei deimlo pan na fyddant yn gallu fforddio offer a theganau arbenigol - sy'n hanfodol i ddiogelwch, datblygiad ac urddas eu plant."*¹¹⁰

Mae teuluoedd â phlant anabl yn canfod eu bod yn byw mewn tlodi eu hunain am nifer o resymau cydgysylltiedig, yn cynnwys y canlynol:-

- Efallai nad yw un neu'r ddau riant yn gallu neu'n dewis peidio dychwelyd i'r gwaith.
- Tor-priodas.
- Diffyg gofal plant addas.
- Cost offer arbenigol.
- Costau uwch yn y cartref, fel yr angen i gadw'r gwres ymlaen am fwy o amser, neu mwy o draul ar ddillad, dillad gwely a'r peiriant golchi.

*"I deuluoedd o gymunedau Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) mae pryderon bod diffyg ymgymeriad budd-daliadau, gorgynrychiolaeth rhai anabledau ymysg rhai grwpiau ethnig, cyfraddau diweithdra uwch, teuluoedd yn byw mewn llety amhriodol, a diffyg gallu'r gymuned yn gyffredinol i gefnogi'r rheiny sy'n agored i niwed yn eu mysg, er bod y dystiolaeth yn wasgaredig ac yn anecdotaidd."*¹¹¹

Wrth i Gymru wynebu effaith diwygiadau lles sylweddol bydd llawer o deuluoedd â phlant anabl yn wynebu cyfnod gwaeth yn 2013 a thu hwnt.

107 Adroddiad Comisiynydd Plant Cymru yn dilyn ymchwiliad i waharddiadau answyddogol o'r ysgol 2007.

108 4 in every 10 Disabled Children living in poverty. Cymdeithas y Plant 2011.

109 4 in every 10, cyhoeddwyd gan Gymdeithas y Plant 2011.

110 Cyfiri'r Costau (2012) Y realaeth ariannol i deuluoedd â phlant anabl ar draws y DU. 2012.

111 Dyfyniad o ABCD fel rhan o sesiynau casglu tystiolaeth <http://www.abcdcymru.org.uk/>

Iechyd

Er bod llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau, trwy ymgysylltu a gweithio mewn partneriaeth, y gall gweithwyr proffesiynol ddeall yn well yr hyn y mae gwasanaeth da ar gyfer plant a phobl ifanc anabl yn ei olygu, er mwyn galluogi cynllunwyr, comisiynwyr ag asiantau cyflenwi i lunio gwasanaethau effeithiol, mae rhwystrau sylweddol yn parhau i deuluoedd sy'n defnyddio darpariaeth y gwasanaeth iechyd. Cafwyd datblygiad polisi da ond mae'r cyflenwi'n araf iawn (Gweler hefyd Pennod 6. Iechyd). Er enghraifft, roedd y *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth* yn bolisi da iawn ond mae'r cynnydd a'r effaith wedi bod yn gyfyngedig.

Mae gwasanaethau sy'n cael eu cynnig i blant anabl sydd yn byw gartref yn y gymuned yn amrywio'n sylweddol rhwng ardaloedd gwahanol, gyda theuluoedd yn aros hyd at 12 mis mewn rhai rhannau o Gymru am wasanaethau datblygiad plant, nyrsio neu seicoleg glinigol yn y gymuned.¹¹² Mae angen cynyddol am wasanaethau nyrsio cyffredinol ledled Cymru. Mae nifer y plant a'r bobl ifanc ag anghenion iechyd cymhleth yn cynyddu gan fod disgwyliad oes yn hwy. Er enghraifft gall plant sy'n cael eu geni â ffibrosis systig bellach fyw i'w 30au canol yn hytrach na disgwyliad oes o lai nag 20 mlynedd. Ceir hefyd poblogaeth sy'n tyfu'n gynyddol o bobl ifanc yn eu harddegau a phlant o dan bump oed.¹¹³

Mae gan Gymru gofnod gwael o ran darpariaeth cadeiriau olwyn. Mae angen cadeiriau olwyn ar gyfer symudedd ac i gael hwyl a gwneud pethau. Anwybyddodd canllawiau NICE ar symudedd y materion ar gyfer plant anabl. I lawer o blant anabl a'u teuluoedd, mae apwyntiadau lluosog yn her barhaus i deuluoedd, o ran amser teithio ac amser aros yn y clinig - i blentyn ag ymddygiad heriol gall hyn fod yn brofiad sy'n achosi straen iddyn nhw a'u rhieni.¹¹⁴

Yn y gorffennol, mae plant anabl ag anabledd dysgu ac anghenion iechyd meddwl wedi derbyn gwasanaethau iechyd meddwl gwael iawn. Fodd bynnag, cafwyd rhywfaint o gynnydd mewn rhai rhannau o Gymru yn ddiweddar. Mae CAMHS wedi penodi nyrs i weithio gyda phlant anabl.¹¹⁵

I blant Cymraeg eu hiaith a'u teuluoedd ceir her ychwanegol yn y ffaith nad yw'r holl weithwyr proffesiynol yn gallu cyfathrebu â nhw yn eu hiaith gyntaf.¹¹⁶ I deuluoedd o gymunedau BME, gall cael mynediad i wasanaethau iechyd fod yn broses frawychus a dryslyd. Yn arbennig os nad yw'r teulu'n siarad Saesneg ac wedi profi gwahaniaethu wrth gael mynediad i wasanaethau eraill. Mae gan weithwyr iechyd proffesiynol ddiffyg gwybodaeth a sgiliau o ran darparu gwasanaethau sy'n briodol yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol. Nid yw hyfforddiant ar faterion amrywiaeth yn cael blaenoriaeth haeddiannol.¹¹⁷

Cyfranogiad plant anabl yn y broses o wneud penderfyniadau

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfleoedd i gael llais a chael ei glywed yn ymwneud â materion sy'n effeithio arnyh nhw. Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol, sy'n gweithio gyda phartneriaid perthnasol, i wneud y fath drefniadau y mae'n eu hystyried yn addas i hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad gan blant mewn penderfyniadau gan yr awdurdod a allai effeithio arnyh nhw.

111 Dyfyniad o ABCD fel rhan o sesiynau casglu tystiolaeth <http://www.abcdcymru.org.uk/>

112 Gwybodaeth gan swyddog arwain Awdurdod Lleol yn ystod sesiynau casglu tystiolaeth.

113 Gwybodaeth gan arbenigwr iechyd yn ystod sesiynau casglu tystiolaeth

114 Gwybodaeth gan arbenigwr iechyd yn ystod sesiynau casglu tystiolaeth

115 Gwybodaeth gan swyddog arwain Awdurdod Lleol yn ystod sesiynau casglu tystiolaeth

116 Gwybodaeth gan swyddog arwain Awdurdod Lleol yn ystod sesiynau casglu tystiolaeth

117 Gwybodaeth gan ABCD fel rhan o sesiynau casglu tystiolaeth <http://www.abcdcymru.org.uk/>

Wrth gasglu tystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn, mynegodd nifer o gyfranwyr y farn bod eu hymwybyddiaeth o hawliau plant a phobl ifanc yn gyfyngedig a bod hysbysu pobl ifanc anabl o'u hawliau a sicrhau eu dealltwriaeth lawn yn dasg gymhleth a hirfaith. Efallai fod pobl ifanc anabl wedi clywed am CCUHP ond nid yw'n glir sut mae'r Confensiwn yn berthnasol i'w bywydau bob dydd. Gallai hyn fod yn wir ar gyfer gweithwyr proffesiynol hefyd; maent yn ymwybodol o CCUHP ond ni fyddent yn ei ddefnyddio i herio sefyllfa neu benderfyniad (gweler hefyd Pennod 2. Mesurau gweithredu cyffredinol).

Mae angen digon o amser i baratoi'n llawn a chynnwys plant a phobl ifanc er mwyn gwneud cynnydd yn gwrando ar blant a hwyluso cyfranogiad gwirioneddol, ac mae hyn yn fwy gwir ar gyfer plant ag anableddau. Mae tuedd i anghofio am blant a phobl ifanc anabl wrth ymgynghori am ddatblygiad gwasanaethau ac mae hyn yn cynnwys awdurdodau a byrddau ieched.

Nid yw dogfennau ymgynghori'r Llywodraeth yn hygyrch - mae'r broses hon yn allgáu pobl ifanc ag anabledd dysgu. Dylai fod ffyrdd mwy creadigol o gyfleu syniadau i bobl ifanc anabl. Nid yw creu dogfen sy'n hawdd ei darllen ynddi'i hun yn gwneud rhywbeth yn hygyrch - mae angen ei dehongli o hyd, am fod y cysyniad yn dal yn gymhleth hyd yn oed os yw'r iaith wedi ei symleiddio.

Argymhellion allweddol

CHWARAE

Dylai awdurdodau lleol:

- Archwilio darpariaeth, hygyrchedd, datblygiad a hyfforddiant staff er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc anabl yn cael eu cefnogi wrth eu cyflwyno i weithgaredd a'u hintegreiddio.
- Cynnwys integreiddio yn eu cynlluniau busnes er mwyn dangos sut y maent yn cynllunio ac yn cyflenwi eu gweithgareddau.

BWLIO

Dylai Llywodraeth Cymru:

- Barhau i ddwyn mentrau ymlaen i gefnogi gwrth-fwlio mewn ysgolion ac mewn cymunedau lleol.
- Gweithio gydag awdurdodau lleol i gasglu data ar nifer yr achosion a'r effaith ar draws Cymru.

Dylai awdurdodau lleol:

- Gefnogi mentrau lleol rhwng ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig i hybu dealltwriaeth.
- Monitro nifer a natur y cwynion a dderbynnir; mewn lleoliadau ysgol a chymunedol, er mwyn sicrhau gallu datblygu strategaethau newydd i fynd i'r afael â bwlio.

GWAHARDDIADAU

Dylai Llywodraeth Cymru:

- Weithredu er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion yn adroddiadau Comisiynydd Plant Cymru (2007) a Butler (2011) er mwyn sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc yn gallu cael mynediad at addysg.

TLODI

Dylai Llywodraeth Cymru:

- Gydgrynhoi ystadegau tlodi plant sydd yn adlewyrchu'r costau ychwanegol y mae cartrefi â phlant anabl yn eu hwynebu.
- Sicrhau bod dileu tlodi ymysg plant anabl yn rhan allweddol o weithredu strategaeth tlodi plant Llywodraeth Cymru.

- Sicrhau bod pob cartref â phlant anabl yn derbyn yr holl fudd-daliadau anabledd y mae ganddynt hawl iddynt.

IECHYD

Dylai Llywodraeth Cymru:

- Adolygu darpariaeth iechyd ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd er mwyn sicrhau yr eir i'r afael yn llawn â'r ystod o wasanaethau sy'n ofynnol i gefnogi eu cyflwr penodol a'u hiechyd cyffredinol ar draws Cymru.

CYFRANOGIAD

Dylai Llywodraeth Cymru:

- Sicrhau bod yr holl wasanaethau yn cynnwys ac yn cefnogi barn plant a phobl ifanc anabl yn benodol, gan nodi'r ffordd y cafodd y barnau hynny eu casglu.

Iechyd

Dr Elspeth Webb, Adran Iechyd Plant, Coleg Meddygaeth, Prifysgol Caerdydd.

Iechyd a gwasanaethau iechnyd



CRC/C/GBR/CO/4 para 55: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yn rhaid mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynediad at wasanaethau iechnyd trwy ddull cydgysylltiedig ar draws pob adran o'r llywodraeth a mwy o gydgyssylltu rhwng polisïau iechnyd a'r rheiny sydd wedi eu hanelu at leihau anghydraddoldeb o ran incwm a thlodi.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru

Anghydraddoldebau iechnyd

Mae Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyhoeddi data ar anghydraddoldebau iechnyd ar gyfer nifer o ddangosyddion. Mae'r data hwn yn dangos bod anghydraddoldebau yn parhau, gan gymharu pumed mwyaf difreintiedig y boblogaeth â'r pumed lleiaf difreintiedig ar gyfer y dangosyddion canlynol: pwysau geni isel, marwolaethau babanod, beichiogi yn yr arddegau, anafiadau cerddwyr sydd yn blant a derbyniadau i'r ysbyty. Fodd bynnag, mae data o Arolwg Amenedigol Cymru Gyfan yn awgrymu y gall yr anghydraddoldeb o ran marw-enedigaethau a marwolaethau babanod fod yn lleihau.

Mae polisi Llywodraeth Cymru wedi rhoi blaenoriaeth i roi dechrau iach i bob plentyn - fel y gwelir yn y dogfennau polisi *Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb*¹¹⁸ a *Law yn Llaw at Iechyd*¹¹⁹. Mae gan nifer o fentrau Llywodraeth Cymru'r nod o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechnyd plant hefyd. Mae angen gwerthuso'r mentrau hyn yn rheolaidd ac yn gadarn, fel y cyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer *Dechrau'n Deg*,¹²⁰ er mwyn ymchwilio i'w heffeithiolrwydd.

118 <http://wales.gov.uk/docs/phhs/publications/110329working2en.pdf>

119 <http://wales.gov.uk/docs/dhss/publications/111101togetheren.pdf>

120 <http://wales.gov.uk/about/aboutresearch/social/latestresearch/EvalFlyStart7-20/?lang=en>

Yn anffodus rydym ar hyn o bryd yn gweld tuedd gynyddol tuag at gymhlethu pethau gyda materion sy'n canolbwyntio ar oedolion wrth drechu tlodi plant ac anghydraddoldebau iechyd (gweler hefyd Pennod 6. Tlodi plant). Mae hyn yn mynd yn erbyn Adolygiad 2010 Marmot¹²¹, a chyn hynny, adroddiadau Black¹²² (1980) ac Acheson¹²³ (1998), a oedd i gyd yn pwysleisio pwysigrwydd targedu ymyriadau i leihau anghydraddoldebau iechyd yn ystod 5 mlynedd cyntaf bywyd.

Pwysau geni isel

Mewn gwledydd datblygedig, gellir priodoli hyd at 27% o fabanod â phwysau geni isel â smygu sigarêts yn ystod beichiogrwydd.¹²⁴ Dengys data o arolwg bwydo babanod y DU (2010) fod 33% o fenywod wedi smygu naill ai cyn neu yn ystod beichiogrwydd, a bod 16% o fenywod wedi smygu yn ystod beichiogrwydd.¹²⁵ Dengys data ar dueddiadau o ran pwysau geni isel yng Nghymru fod y ganran o fabanod â phwysau geni isel yn y 5ed mwyaf difreintiedig 1.5 gwaith (neu 50%) yn uwch na'r gyfradd yn y pumed lleiaf difreintiedig.¹²⁶

Cyfraddau marw-enedigaethau a marwolaethau babanod

Yng Nghymru, mae cyfraddau marw-enedigaethau yn gyson uwch yn y cwintel amddifadedd cymdeithasol mwyaf difreintiedig a fesurwyd, er bod y cyfraddau dros y degawd diwethaf yn awgrymu bod y bwlch wedi lleihau ychydig rhwng y cwintelau mwyaf difreintiedig a'r rhai lleiaf difreintiedig. Ni chafwyd llawer o newid yng nghyfraddau'r marwolaethau ar ôl geni er 2002. Yng Nghymru, mae cyfraddau marwolaethau ar ôl geni yn uwch yn y cwintel amddifadedd cymdeithasol mwyaf difreintiedig o'i gymharu â'r cwintel lleiaf difreintiedig; fodd bynnag mae'r bwlch wedi lleihau er 2000.²⁷

Beichiogi yn yr arddegau

Mae gwybodaeth am feichiogi yn yr arddegau yn cynnwys data ar erthyliadau cyfreithiol a genedigaethau. Mae merched sy'n cael babi cyn eu bod yn 16 oed yn fwy tebygol o gael diffyg addysg a hyfforddiant a dioddef amodau economaidd-gymdeithasol gwael yn nes ymlaen mewn bywyd. Mae lleihau cyfraddau beichiogi yn yr arddegau, felly, yn bwysig er mwyn torri cylch amddifadedd. Dengys data gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru bod cyfradd beichiogi yn yr arddegau, ar y llinell sylfaen, (<16 oed) yn y pumed mwyaf difreintiedig, 3 gwaith yn fwy na'r gyfradd yn y pumed lleiaf difreintiedig.

Anafiadau

Ar ôl un oed, anafiadau yw prif achos marwolaeth yn y rhan fwyaf o wledydd Ewropeaidd yn cynnwys Cymru. Mae marwolaethau sy'n gysylltiedig ag anafiadau, derbyniadau i'r ysbyty a blynyddoedd oes a newidir gan anabledd i gyd yn dangos anghydraddoldebau cymdeithasol amlwg yng Nghymru, ond mae'r glasoed gwrywaidd ac oedolion ifanc o gymunedau tlawd yn ysgwyddo baich penodol ac mae damweiniau cerbydau modur yn peri pryder penodol. Mae adroddiad iechyd Cyhoeddus Cymru 2012, *Baich Anafiadau yng Nghymru* yn rhoi tystiolaeth gref ynghylch pa ymyriadau sy'n gweithio a pha rai sydd ddim.

121 <http://www.instituteofhealthequity.org/projects/fair-society-healthy-lives-the-marmot-review>

122 <http://www.sochealth.co.uk/public-health-and-wellbeing/poverty-and-inequality/the-black-report-1980/>

123 http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_4097582

124 Delpisheh A, Kelly Y, Rizwan S, Attia E, Drammond S, Brabin BJ. Population attributable risk for adverse pregnancy outcomes related to smoking in adolescents and adults. *Public Health* 2007;121:861-8.

125 Bolling K, Grant C, Hamlyn B a Thornton A. The infant feeding survey 2005. The Information Centre 2007. <http://www.ic.nhs.uk/pubs/ifs2005> [defnyddiwyd 3 Ebrill 2012]

126 Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru

127 Adroddiad Blynyddol Arolwg Amenedigol Cymru Gyfan 2010 http://medicine.cf.ac.uk/media/filer/2012/03/07/awps_annual_report_english_2010_1.pdf. Accessed April 2012

Mae sgorau amddifadedd ar gyfer anafiadau traffig ar y ffordd a gofnodwyd gan yr heddlu yn dibynnu ar y man y digwyddodd yr anaf. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod cyfraddau anafiadau cerddwyr sydd yn blant yn y pumed mwyaf difreintiedig 2.3 gwaith gymaint â'r gyfradd yn y pumed lleiaf difreintiedig. Roedd cyfradd derbyniadau oherwydd anafiadau cerddwyr sydd yn blant yn y pumed mwyaf difreintiedig 3.7 gwaith gymaint â'r gyfradd yn y pumed lleiaf difreintiedig. Mae hyn yn seiliedig ar ddata hyd at 2005.¹²⁸ Adroddir ar y gyfran nesaf o ddata yn fuan.

Iechyd deintyddol

Cafwyd gostyngiad mewn pydredd dannedd ymysg plant 12 oed yng Nghymru ond mae'n peri pryder ei fod yn ymddangos bod y rhan fwyaf o'r gostyngiad hwn wedi digwydd mewn grwpiau llai difreintiedig. Ar gyfer y cwintel mwyaf difreintiedig, cafwyd gostyngiadau bach yng nghyfraddau pydredd ond cynnydd bach yn y bwch anghydraddoldebau.¹²⁹

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw sail dystiolaeth gref ar gyfer rheoli pydredd yn nannedd cyntaf plant, a does dim llawer o dystiolaeth i ddangos bod y dull adferol traddodiadol o ofal yn gweithio mewn lleoliad gofal sylfaenol. Mae'r trefniadau ariannu i gefnogi ymchwil mewn gofal meddygol sylfaenol a deintyddol yng Nghymru yn rhwystro ymchwil rhag cael ei wneud mewn gofal deintyddol sylfaenol lle mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cael eu rheoli. Mae'r gofal iechyd gorau posibl (Erthygl 24 o CCUHP) yn ei wneud yn ofynnol i gefnogi ymchwil i ofal. Mae diogelu yng nghyd-destun gofal deintyddol sylfaenol wedi cael rhywfaint o sylw yn ddiweddar ac mae'n ofynnol ar bractisau deintyddol gael deintydd arweiniol bellach sy'n gyfrifol am ddiogelu. Fodd bynnag nid oes unrhyw gytundeb ynghylch sut i adnabod esgeulustod deintyddol a phan fydd gan hanner y plant 5 oed mewn rhai ardaloedd bydredd dannedd actif, gall pennu pryd aed y tu hwnt i'r trothwy fod yn heriol.

Casglu data

Mae gan strategaeth Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar, *Gweledigaeth Strategol ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru*¹³⁰ ffocws cryf ar iechyd y cyhoedd, gyda phwyslais amlwg ar fynd i'r afael â smygu yn ystod beichiogrwydd, gordewdra ymysg mamau a bwydo ar y fron. Mae'r strategaeth hefyd yn pwysleisio'r angen am wybodaeth o ansawdd da a gesglir fel mater o drefn er mwyn llywio'r cynnydd yn cyflawni canlyniadau iach ar gyfer y fam, y babi a'r teulu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r blynyddoedd cynnar: y cwestiwn yw sut mae'n trosi'n effeithiol i ganlyniadau gwirioneddol ar gyfer plant? Un broblem yw na allwn fesur llawer o bethau a fyddai'n ddefnyddiol, e.e. mae'r rhan fwyaf o achosion o bwysau geni isel oherwydd smygu yn ystod beichiogrwydd, ond mae data Cymru gyfan mewn systemau na ellir eu holrhain yn gywir.

Mae adolygiad diweddar yn Lloegr yn eirioli casglu data fel mater o drefn ar ddangosyddion plant fel oedi datblygiadol ac iaith a pharodrwydd ar gyfer ysgol.¹³¹ Ar hyn o bryd nid yw'r rhain yn cael eu casglu fel mater o drefn yng Nghymru. Mewn gwirionedd, byddai'n amhosibl gwneud hynny, gan fod gan ymwelydd iechyd safonol faich achosion o 300 i 400 o blant. Mae'r diffyg ymweliadau iechyd cyffredinol hwn yn torri amodau hawliau, ac yn rhwystro cynnydd o ran monitro, ac mae'n mynd yn groes i ymyriadau cynnar; oherwydd nid ydych yn gallu ymyrryd yn gynnar os na ellir adnabod problemau plant. Mae'r hyn a elwir yn ymweliadau iechyd uwch yn ardaloedd *Dechrau'n Deg* ar yr un lefel â'r hyn oedd yn safonol 20 mlynedd yn ôl – mewn gwirionedd, rydym wedi colli gwasanaeth cyffredinol. Dylai fod gan bob plentyn yr hawliau hyn, nid y rheiny mewn ardaloedd daearyddol penodol yn unig.

128 STATS19 Ar gael yn: http://www.capic.org.uk/road_traffic.html

129 <http://www.statswales.wales.gov.uk/TableViewer/tableView.aspx?ReportId=14036>

130 <http://wales.gov.uk/docs/dhss/publications/110919matstrategyen.pdf>

131 <http://www.education.gov.uk/inthenews/inthenews/a0071184/government-sets-out-new-vision-for-ending-child-poverty>

132 I'w adrodd yn 2013 – gweler <http://www.jrf.org.uk/work/workarea/poverty-and-ethnicity>

Datgrynhoi data

Yn ddiweddar, cynhaliodd Sefydliad Joseph Rowntree adolygiad llenyddiaeth o ethnigrwydd a thlodi yng Nghymru a chanfod nad oedd llawer o ymchwil na gwybodaeth ar gael yn y maes hwn.¹³² Mae hyn yn dangos problem gyda'r ffordd y caiff data ar blant yng Nghymru ei gyflwyno; mae'n tueddu i gyfeirio at blant yn gyffredinol, gan anwybyddu grwpiau penodol yn y boblogaeth ehangach sydd ag anghenion penodol ac yn wynebu rhwystrau ychwanegol, rhwystrau sydd yn arwain at anghydraddoldebau. Heb ddatgrynhoi data, mae'r grwpiau hyn yn mynd yn fwy anweladwy mewn polisi a darpariaeth gwasanaethau, ac ymddengys bod diffyg data i fonitro cynnydd y gwasanaethau sy'n cael eu cyflenwi a'u defnyddio gan grwpiau o'r fath, neu i fesur cynnydd mewn perthynas ag Erthygl 2 o CCUHP (gweler hefyd Pennod 6. Plant anabl). Er enghraifft, mae niferoedd y plant du o leiafrifoedd ethnig (BME) yn fach, ac mae niferoedd y plant anabl yn fach, ond, er enghraifft, mae angen i ni gymharu mynediad a chanlyniadau ar gyfer plant byddar BME yn erbyn plant byddar gwyn Cymru, mae'n amhosibl gwneud hyn heb brosiect ymchwil arbennig.

Mae gan ysgolion ddata da yn aml – er enghraifft nododd data ysgol yng Nghaerdydd fod 40% o blant awtistig y nodir bod ganddynt AAA yn dod o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, gorgynrychiolaeth enfawr sydd â goblygiadau sylweddol i'r gwasanaethau. Fodd bynnag, *“ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod ansicrwydd cyfreithiol ynghylch yr hyn a ganiateir ac na chaniateir yn rhwystro awdurdodau lleol rhag rhannu data”*.¹³³ Mae'n hanfodol nad yw ansicrwydd o'r fath yn peryglu rhannu ac integreiddio data sy'n hanfodol ar gyfer adnabod angen, a monitro gweithredu CCUHP.

Plant wedi eu gwrthio i'r cyrion yn gymdeithasol

Mae cyrff anlywodraethol yn adrodd¹³⁴ eu bod yn cael anhawster yn cael mynediad i ofal iechyd digonol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, ac nad yw plant eraill sydd wedi eu gwrthio i'r cyrion yn cael eu hamddiffyn yn statudol gan awdurdodau lleol (fel plant digartref, plant sy'n dianc rhag cam-drin domestig ac ati). Mae diffyg gwybodaeth enfawr o'r gwasanaethau sydd ar gael ymysg grwpiau sydd wedi eu gwrthio i'r cyrion sy'n ei chael hi'n anodd iawn canfod eu ffordd trwy system ddryslyd iawn sydd yn newid yn barhaus. Gall profiad da neu ddrwg o wasanaethau ddibynnu ar werthoedd yr unigolion sy'n gweithio yn y maes hwn, yn hytrach na dull cyson ar draws adrannau.

Ymddengys hefyd bod diffyg neilltuo ar gyfer cyllidebau iechyd plant sy'n targedu grwpiau o'r fath, neu yn wir fod unrhyw gyllidebau ar eu cyfer o gwbl. Nid oes llawer o wasanaethau sy'n targedu eu hanghenion neu'n gweithredu fel gwasanaeth pontio i wasanaethau prif ffrwd; os yw'r rhain yn bodoli, cânt eu darparu ar sail ewyllys da ac felly maent yn fregus iawn pan fydd cyllidebau yn dynn neu pan fydd unigolion allweddol yn symud swydd neu'n ymddeol.

Cyfranogiad plant mewn gwasanaethau

Mae llawer o weithwyr proffesiynol yn gwneud eu gorau i sicrhau bod plant yn teimlo eu bod wedi eu grymuso a bod pobl yn gwrando arnynt. Fodd bynnag, mae hyn yn fwy i wneud â nodweddion yr unigolion, yn hytrach nag agenda cyfranogiad rhagweithiol clir. O fewn y *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth*¹³⁵ a *Phrosiect Gwasanaethau Arbenigol Plant a Phobl Ifanc (CYPSSP)*¹³⁶ cafodd pwysigrwydd cyfranogiad plant a phobl ifanc yn datblygu gwasanaethau ac mewn eiriolaeth ei argymhell yn gryf, ond nid yw wedi datblygu (gweler hefyd Pennod 3.

133 Gweler “Public Sector Data Sharing: Guidance on the Law” tudalen 2 yn: <http://www.justice.gov.uk/downloads/information-access-rights/data-sharing/annex-h-data-sharing.pdf>

134 Tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Wahida Kent ABCD Cymru a rebekah Burns Cymorth i Fenywod Caerdydd

135 <http://www.wales.nhs.uk/sites3/docmetadata.cfm?orgid=441&id=46873>

136 <http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=355>

Cyfranogiad a Phennod 5. Amddiffyn plant). Er enghraifft, cynigiwyd Paneli Plant a Phobl Ifanc ar gyfer pob ysbyty yng Nghymru ond nid oes llawer wedi cael eu creu.¹³⁷

Gallai nyrsys ysgol wneud mwy i gydymffurfio ag Erthyglau 12 ac 13. Mewn ymateb i amgyffrediad nad oedd nyrsys yn cydymffurfio'n llawn ag arweiniad yn ymwneud â chyfranogiad pobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau, mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol wedi cyhoeddi canllawiau¹³⁸ i gynorthwyo nyrsys ysgol i roi Canllawiau Fraser ar waith yn ymwneud â hawl plant a phobl ifanc i roi eu caniatâd eu hunain i gael brechiadau.

Iechyd meddwl



CRC/C/GBR/CO/4 para 56: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod adnoddau ychwanegol a gallu gwell yn cael eu defnyddio i fodloni anghenion plant â phroblemau iechyd meddwl ar draws y wlad, gan roi sylw penodol i'r rheiny sydd mewn mwy o berygl, yn cynnwys plant sydd wedi eu hamddifadu o ofal rhieni, plant sydd wedi eu heffeithio gan wrthdaro, y rheiny sy'n byw mewn tldi a'r rheiny sy'n gwrthdaro â'r gyfraith.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru

Nifer yr achosion o iechyd meddwl

Nid oes unrhyw arolwg pendant wedi cael ei wneud ar iechyd meddwl neu les emosiynol plant yng Nghymru. Mae angen arolwg o'r fath er mwyn gallu cymharu â rhanbarthau tebyg eraill, i asesu angen, ac i fonitro cynnydd yn y dyfodol. Yn ogystal, oni bai bod data'n cael ei ddatgrynhoi, gall arolwg o'r fath guddio canran enfawr o salwch meddwl mewn grwpiau difreintiedig penodol, fel y rheiny sydd mewn gofal, yn ddigartref, ag anabledau dysgu ac ati.

Fodd bynnag, mae arolygon o'r fath yn gyfyngedig am eu bod ond yn canfod plant sydd wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer cael diagnosis o salwch meddwl, ond yn colli'r rheiny ag anawsterau emosiynol sylweddol sydd mewn perygl o ddatblygu problemau iechyd meddwl difrifol, naill ai'n nes ymlaen yn ystod eu plentyndod neu fel oedolion, heb ymyrraeth (gweler hefyd Pennod 5. Amddiffyn plant). Mae'n hanfodol gwybod pwy yw'r plant hyn a faint ohonynt sydd. Gwyddom o Fonitro Lles UNICEF fod gan y DU lawer o blant mewn trallod, felly dylai unrhyw arolwg ar gyfer Cymru geisio canfod y rhain hefyd.¹³⁹

Cynnydd yn gwella CAMHS ar gyfer plant

Nid yw Cymru'n bodloni targedau personél y pen o'r boblogaeth o hyd. Er y cafwyd rhywfaint o gynnydd o ran gweithwyr CAMHS sylfaenol a datblygiad gwasanaethau fforensig Haen 4, mae timau lleoliad arbenigol yn dal heb eu datblygu'n sylweddol.

Yn ogystal â diffyg adnoddau, ceir problemau agweddau ac arddulliau ymarfer. Mae diffyg mynychu yn arwain at dynnu oddi ar y rhestr; sy'n rhoi'r teuluoedd hynny sydd yn fwyaf tebygol o gael anhawster i fynychu (e.e teuluoedd mewn tldi ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth; plant mewn gofal; teuluoedd digartref) o dan anfantais. *"Mae seiciatryddion yn gwybod bod y byd y tu allan yn ferw o anhawster, ac maent yn swatio yn eu clinigau – mae'n ffordd dda o reoli baich gwaith"*.¹⁴⁰ Mae goblygiadau diogelu i hyn,

¹³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig uwch bediatregydd

¹³⁸ http://www.rcn.org.uk/__data/assets/pdf_file/0003/78636/002483.pdf

¹³⁹ <http://www.unicef.org.uk/Latest/Publications/Ipsos-MORI-child-well-being/>

¹⁴⁰ Tystiolaeth lafar, cyn-lywydd RCPsych

yn cynnwys cael ei nodi i fod yn cyfrannu at lefelau hunanladdiad.^{141 142} Mae CAMHS yn rhy fiofeddygol, yn gwrthod plant os nad ydynt yn bodloni meini prawf diagnostig caeth, gan anwybyddu penderfynyddion cymdeithasol ehangach salwch meddwl. Os yw bywydau plant yn wael iawn, gyda materion cymdeithasol cymhleth iawn, mae'n iawn yn foesebol ac yn ymarferol ymateb i'w cyflwr: er enghraifft, er bod erthygl benodol, Erthygl 39, o CCUHP yn datgan y dylai plant gael cymorth arbennig i'w galluogi i gael adferiad ar ôl cael eu cam-drin, nid yw hyn yn digwydd (gweler hefyd Pennod 5. Amddiffyn plant). Mae plant o'r fath yn methu yn ystod y pwynt hwn yn eu bywydau i fodloni meini prawf ar gyfer salwch meddwl ac felly nid ydynt yn gallu cael mynediad i CAMHS ac eithrio mewn achosion eithafol, ond nid oes gan unrhyw wasanaeth arall y sgil sy'n ofynnol i'w helpu i gael adferiad. Mae cam-drin plant yn gysylltiedig â salwch meddwl mewn oedolion, troseddu a throseddoldeb ailadroddus, a chanlyniadau addysgol gwael.¹⁴³ Nid yw'n gwneud synnwyr economaidd na dyngarol i beidio darparu'r gwasanaethau hyn ar eu cyfer. Nodwyd hyn yn glir gan Gomisiynydd Plant Cymru: "Gwelir y gwahaniaeth rhwng modelau meddygol a chymdeithasol asesu yn amlwg yma. Mae'r model meddygol yn gwadu gwasanaethau yn gyfan gwbl i'r rheiny nad ydynt yn bodloni'r meini prawf atgyfeirio. Byddai model cymdeithasol, ar y llaw arall, yn asesu angen ar sbectwm ac yn darparu gwasanaethau i fodloni'r anghenion."¹⁴⁴

Integreiddio CAMHS i wasanaethau eraill

Mae CAMHS, gofal Pediatrig, y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg yn dal ymhell oddi wrth ei gilydd yng Nghymru gyda "chydweithio rhwng y sectorau iechyd, awdurdod lleol a gwirfoddol ... yn aneffeithiol yn aml"¹⁴⁵. Maent yn tueddu i drosglwyddo pobl ifanc rhyngddynt yn lle cydweithio i ddarparu cymorth tymor hwy. Efallai mai dim ond pan fyddwn wedi cyfuno adnoddau a chyllidebau yn wirioneddol y bydd hyn yn cael ei ddatrys. Nid yw pobl ifanc eu hunain, wrth gwrs, yn rhoi eu bywydau mewn adrannau. Mae hon yn neges sydd wedi cael ei hailadrodd gan blant a theuluoedd, a sefydliadau sydd wedi archwilio CAMHS yng Nghymru am y degawd diwethaf.¹⁴⁶

Plant a phobl ifanc ag anabledd deallusol

Plant ag anableddau dysgu yw un o'r prif grwpiau sydd mewn perygl o ddatblygu anhwylderau emosiynol ac ymddygiadol, ond nid oeddent yn gallu cael mynediad i CAMHS arbenigol am flynyddoedd lawer, am fod gwasanaeth Anabledd Dysgu Cymru Gyfan wedi newid i fod yn wasanaeth i oedolion yn unig ac nid oedd gan CAMHS yr arbenigedd.¹⁴⁷ Er bod adnoddau ychwanegol wedi cael eu neilltuo yn 2011 i fodloni anghenion y boblogaeth gynyddol hon mewn ymateb i archwiliad CAMHS yng Nghymru¹⁴⁸, yn anffodus mae hyn wedi digwydd yr un pryd â thoriadau cyffredinol i gyllidebau, sy'n golygu bod cyllidebau cyffredinol CAMHS heb newid. Yn ogystal, mae toriadau cyffredinol i'r GIG yn cael effaith niweidiol ar wasanaethau seicoleg presennol, sy'n gwneud y broblem yn waeth byth mewn rhai ardaloedd nag oedd o'r blaen, gyda rhestrau aros hir am y gwasanaethau hyn (er enghraifft: dros 60 o blant ag anabledd dysgu ar restr aros ar gyfer seicoleg mewn un bwrdd iechyd yn 2011).¹⁴⁹ Mae hyfforddiant, arbenigedd, gwybodaeth a sgiliau unigolion sydd â'r dasg o ddarparu'r gwasanaethau hyn yn amrywiol iawn, gyda phersonél yn cael eu penodi i swyddi ymgynghorwyr heb hyfforddiant mewn seiciatreg anabledd

141 http://www.injuryobservatory.net/documents/why_children_die1.pdf Tudalen 57.

142 Cardiff Part 8 review 2006. Personal communication A Mott.

143 Gilbert R, Spatz Widom C, Browne K, Fergusson D, Webb E. Burden and consequences of child maltreatment in high-income countries Lancet 2009. 373: 68 - 81

144 *Somebody else's business*. <http://www.childcomwales.org.uk/uploads/publications/5.pdf> tudalen 46.

145 Young people with emotional and mental health needs Adran 5. Tud. 74 – 79. Yn: <http://www.hiw.org.uk/Documents/477/CAMHS%20241109-e.pdf>

146 LIC. Gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion emosiynol ac iechyd meddwl http://www.wao.gov.uk/assets/englishdocuments/CAMHS_eng.pdf. Tudalen 12 (pt.39)

147 Busnes Rhywun Arall Yn <http://www.childcomwales.org.uk/uploads/publications/5.pdf>

148 LIC. Gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion emosiynol ac iechyd meddwl http://www.wao.gov.uk/assets/englishdocuments/CAMHS_eng.pdf.

149 Cyfathrebu personol. Uwch bediatregydd

dysgu. Mae cyrff anllywodraethol sy'n cefnogi plant yn adrodd bod plant o'r fath yn cael problemau yn cael apwyntiad o gwbl.¹⁵⁰ Mae'r un plant hyn yn cael eu tangynrychioli ymysg y rheiny sy'n defnyddio gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion.¹⁵¹

Cwnsela

Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno cwnsela ym mhob ysgol uwchradd ac mae'n cael ei ymestyn ar hyn o bryd i gyflenwi gwasanaeth i blant mewn ysgolion cynradd. Mae'r gwasanaeth wedi cael ei werthuso a chanfuwyd ei fod yn effeithiol.¹⁵² Mae hwn yn ddatblygiad pwysig ac yn haeddu cael ei ddathlu. Fodd bynnag, mae tystiolaeth anecdotaidd yn dod i'r amlwg bod rhai problemau: mae gweithwyr cynnal plant yn adrodd bod plant sydd â phresenoldeb gwael yn yr ysgol neu ag ymddygiad sy'n peri problemau yn yr ysgol (yn aml oherwydd yr hyn sy'n mynd ymlaen yn eu bywyd gartref) yn cael eu labelu fel plant sy'n dymuno mynd o'r gwersi felly mae ceisio cael mynediad wedyn i sesiwn gwnsela yn anodd iawn i blant o'r fath.¹⁵¹ Yn ogystal, efallai nad yw llawer o'r plant mwyaf agored i niwed ac sy'n cael eu heffeithio'n ddifrifol yn defnyddio addysg ddigon (os o gwbl) er mwyn bod mewn sefyllfa i gael mynediad i gwnsela. Ni wnaeth y gwerthusiad fynd i'r afael ag anghenion plant o'r fath o fewn ei gwmpas.

Gwasanaethau cleifion mewnol

Er gwaethaf agor yr uned cleifion mewnol newydd i'r glasoed ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae'r cyfleusterau ar gyfer pobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl difrifol yn dal yn annigonol ar draws Cymru. Yn dilyn diwygiadau diweddaraf y Ddeddf Iechyd Meddwl, dylai niferoedd y bobl ifanc sy'n cael eu rhoi ar wardiau oedolion fod yn gostwng; fodd bynnag, yn ôl Cymru Ar-lein, yn seiliedig ar gyfres o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, treuliodd o leiaf 38 o bobl ifanc o dan 18 oed 380 o "ddiwrnodau gwely" ar wardiau oedolion yn 2011/12 yng Nghymru¹⁵², a nododd y BBC, hefyd yn olrhain cais Rhyddid Gwybodaeth, 347 o achosion lle cafodd plant eu cadw yng nghelloedd yr heddlu yn unol â'r Ddeddf Iechyd Meddwl yng Nghymru a Lloegr yn 2011.¹⁵³

Bwydo ar y fron



CRC/C/GBR/CO/4 para 58. Mae'r Pwyllgor, er ei fod yn gwerthfawrogi'r cynnydd a wnaed yn y blynyddoedd diweddar yn hybu a chefnogi bwydo ar y fron gan y Parti Gwladol, yn bryderus bod gweithredu Côt Marchnata Rhyngwladol ar gyfer amnewidion llaeth y fron yn parhau i fod yn annigonol a bod hybu amnewidion llaeth y fron yn ffyrnig yn dal yn gyffredin.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru

Cydymffurfio â menter ysbytai sy'n gyfeillgar i Fabanod

Gwnaed cynnydd cychwynnol ond mae'r sefyllfa wedi aros yn llonydd am y 2 flynedd ddiwethaf.

¹⁵⁰ Tystiolaeth lafar Rebekah Burns Cymorth i Fenywod Caerdydd

¹⁵¹ <http://www.ncl.ac.uk/cflat/news/documents/wagesfinalreport.pdf>

¹⁵² <http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/2012/07/10/call-for-end-of-scandal-of-under-18s-on-adult-mental-health-wards-91466-31355310/>

¹⁵³ <http://www.bbc.co.uk/news/uk-20377493>

Targeddu mamau mewn teuluoedd sydd yn dlawd o ran adnoddau

Mae hyn yn fylchog: er enghraifft, nid yw ymholiadau gan fydwragedd ynghylch cam-drin domestig fel mater o drefn yn cael eu gwneud yn ddigonol.¹⁵⁴ Mae gan deuluoedd o'r fath fynediad cyfyngedig i ofal iechyd yn barod. Os nad yw cam-drin domestig yn cael ei adnabod yna mae'n annhebygol y bydd y mamau hyn yn cael y cymorth ychwanegol sydd ei angen arnynt (gweler hefyd Pennod 5. Amddiffyn plant).

Iechyd y glasoed



CRC/C/GBR/CO/4 para 59: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Parti Gwladol yn dwysáu ei ymdrechion er mwyn rhoi gwasanaethau iechyd atgenhedloll priodol i'r glasoed, yn cynnwys addysg iechyd atgenhedloll yn yr ysgol.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru

Iechyd rhywiol

Mae staff sy'n gweithio ym maes Iechyd Rhywiol Integredig (ISH) wedi ymrwymo i sicrhau eu bod yn bodloni hawliau plant a phobl ifanc ond mae newid sefydliadol a chyfyngiadau ariannol wedi bod yn heriol. Nid yw Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARCS) yn cael eu hysbysebu'n helaeth i blant a phobl ifanc.¹⁵⁵ Mae'r cynnydd wedi amrywio ar draws Cymru ac mae'r cyfyngiadau ariannol wedi arwain at yr hyn y gellir ond ei ddisgrifio fel newidiadau sy'n gwrthdroi i ddarpariaeth gwasanaeth mewn rhai ardaloedd. Mewn sawl man ceir rhestrau aros hir a chiwiau hir ar gyfer gwasanaethau galw heibio, (sydd yn torri amodau hawl pobl ifanc i breifatrwydd).

Mae'r gweithwyr cynnal plant sy'n mynd gyda'r plant i'r gwasanaethau hyn yn nodi diffyg rheolaeth effeithiol yn y mannau aros yn rhai o'r gwasanaethau hyn, gyda phlant yn dod i gysylltiad ag amrywiaeth o ffactorau risg fel bwllo a chamfanteisio rhywiol.¹⁵⁶ Er enghraifft, er bod hysbysiadau yn gofyn iddynt beidio defnyddio ffonau symudol, nid yw hyn yn cael ei blismona; mae cyfoedion yn tynnu lluniau pobl ifanc ac mae'r lluniau'n cael eu llwytho ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol. Mae'r clinigau'n gorgyffwrdd yn aml â chlinigau ISH oedolion, sydd yn rhoi pobl ifanc mewn perygl o gamfanteisio'n rhywiol gan fod y mannau aros cyhoeddus iawn yn galluogi rhwyun a allai gam-drin i weld pobl ifanc sydd yn actif yn rhywiol (gweler Pennod 8 am drafodaeth bellach ar Gamfanteisio rhywiol).

Anghyfartaledd daearyddol mewn gwasanaethau

Mae mynediad i blant a phobl ifanc mewn ardaloedd gwledig yn dal yn broblem ar gyfer yr holl wasanaethau hyn. Mae staff mewn un ardal wedi darparu sesiynau galw heibio ar ddydd Sadwrn ar sail wirfoddol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gynnal, am fod swyddi wedi cael eu torri mewn rhai ardaloedd.¹⁵⁶ Mae'n anodd cael mynediad i wasanaethau cynllunio teulu yn aml gan fod llawer o bobl ifanc o'r farn na allant gael mynediad i'r gwasanaethau hyn oherwydd pryderon ynghylch cyfrinachedd. Mewn gofal sylfaenol, nid yw plant bob amser yn cael eu trin ar wahân i'w rhieni. Cwynion gan rieni sydd yn sbarduno'r agenda *"Mae rhieni'n cwyno pan fydd y meddyg teulu yn gweld eu plentyn heb iddynt fod yn bresennol, ond mae angen plentyn cryf a hyderus iawn i gwyno na fyddai'r meddyg teulu'n fodlon ei weld heb sicrhau na fyddai'n dweud wrth y rhieni"*.¹⁵⁷

¹⁵⁴ Webb E. Archwiliad heb ei gyhoeddi Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

¹⁵⁵ Tystiolaeth lafar rheolwr nyrs ysgol

¹⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig; Rheolwr nyrs ysgol, De Cymru

¹⁵⁷

Addysg rhyw

Anaml y mae cyllid ar gael i dargedu plant oed ysgol gynradd. Mae addysg rhyw ar draws pob ysgol gynradd yn dibynnu ar y pennaeth unigol o ran ansawdd a maint. Mae'n wasgaredig ac yn ddiffygiol ar ei orau.¹⁵⁸

Caiff yr agenda addysg rhyw ei sbarduno gan gynnyrch, h.y. beichiogi yn yr arddegau a chlefydau a drosglwyddir yn rhywiol, a'r ymateb yw ffocws ar ryw diogel. Mae cyfraddau beichiogi yn yr arddegau a chlefydau a drosglwyddir yn rhywiol uchel yn awgrymu gorfodaeth ac mae'n arwain at drais rhywiol. Y gwaith hwn y mae angen mynd i'r afael ag ef, yn hytrach nag addysg ar ryw diogel yn unig. Mae rhyw diogel yn dibynnu ar ganiatâd a roddir yn rhydd ac yn wybodus, rhywbeth sy'n ddiffygiol ymysg menywod ifanc yn aml: mae llawer o fenywod a merched ifanc yn adrodd ynghylch bwllo rhywiol, sy'n cefnogi ymchwil gan Brifysgol Bryste ar achosion uchel o fwlio a cham-drin rhywiol¹⁵⁹; mae ChildLine yn adrodd ynghylch niferoedd uchel o blant sy'n ofidus ynghylch pornograffi ar y rhyngwryd, gyda "phwysau ar ferched i wneud pethau nad ydynt eisiau eu gwneud"¹⁶⁰. Os yw merched mewn sefyllfa mewn perthynas rhywiol lle maent yn gorfod mynnu bod eu partner yn defnyddio condom, nid yw'r berthynas honno'n un gadarnhaol yn barod; felly pan fyddant yn gorfod gwneud y dewisiadau iawn, neu'n credu bod ganddynt hawl i wneud hynny, nid ydym yn eu paratoi'n iawn. Mae byrdwn y rhan fwyaf o'r gwaith hwn yn wahanol i fywydau gwirioneddol pobl ifanc. Mae'n hanfodol archwilio caniatâd a pherthynas orfodol gyda phobl ifanc. Mae gan Lywodraeth y DU ymgyrch teledu ar hyn – mae angen i ysgolion Cymru roi sylw i hyn^{161 162}.

Mae Cymorth i Fenywod Caerdydd yn adrodd eu bod yn datblygu rhaglen am gydberthynas lle mae plant yn cyflenwi i blant eraill, sydd yn mynd i'r afael â'r materion hyn ac yn cael adborth cadarnhaol iawn gan blant a phobl ifanc, ond mae ysgolion yn ei ystyried yn "*rhy herfeiddiol*". Mae angen i ysgolion ailfeddwl am eu hymagwedd mewn partneriaeth ag asiantaethau iechyd ac asiantaethau eraill. Ni ellir caniatáu i ysgolion unigol, y gallai eu penderfyniadau fod wedi eu llywio gan agendâu cwbl digyswllt, sbarduno ymyriadau iechyd y cyhoedd sydd mor bwysig ag addysg rhyw.

Casgliad

Plant yw'r gwasanaethau Sinderela o hyd. Mae materion plant yn dal heb eu blaenoriaethu yn y GIG. Mae angen arweinyddiaeth er mwyn sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed er mwyn ailegrio ac ailfywiogi'r mentrau gwleidyddol a strategol a ddigwyddodd 10 mlynedd yn ôl, ac sydd wedi cael eu gwastraffu i raddau helaeth oherwydd methiant o ran gweithredu. Mae'r methiant i gostio, ariannu a gweithredu'r *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth* a'r prosiect gwasanaethau arbenigol yn anffodus iawn - "*gwaith gwyh, a neilltuwyd mewn gwledydd Ewropeaidd eraill, wedi ei golli oherwydd methiant i gwblhau'r cylch*".¹⁶³ Roedd Busnes Pawb yn well o bell ffordd nag unrhyw strategaeth arall yr oedd gan unrhyw un ar gyfer plant a'r glasod unrhyw le arall yn y DU; ond "*bu'n eistedd ar silff*." Ers hynny mae Cymru wedi cael cyfres gyfan o adroddiadau o gyrff amrywiol yn nodi bwlch o ran gweithredu polisi, yn cynnwys archwiliad diwethaf CCUHP. Mae'n rhaid i hyn newid, neu byddwn yn creu strategaeth ar ôl strategaeth, ond byddwn yma mewn 25 mlynedd yn dweud yr un peth.

Mae'n rhaid i lywodraeth Cymru wneud penderfyniadau anodd am yr hyn y gellir ei fforddio a'r hyn na ellir ei fforddio, a sicrhau bod adnoddau'n lleol i alluogi darparwyr i fodloni eu rhwymedigaethau. Fel arall, maent yn gwneud penderfyniadau rhwng darparu cyffuriau canser newydd i oedolion sy'n marw neu ofal iechyd meddwl i blant ag anableddau dysgu. Mae'n hawdd dyfalu pwy sy'n ennill.

¹⁵⁸ Tystiolaeth lafar; Rheolwr nyrs ysgol, De Cymru

¹⁵⁹ http://www.nspcc.org.uk/inform/research/findings/partner_exploitation_and_violence_report_wdf70129.pdf

¹⁶⁰ <http://www.telegraph.co.uk/technology/9496145/Hundreds-of-children-traumatised-by-hardcore-porn-contact-ChildLine.html>

¹⁶¹ <http://news.bbc.co.uk/1/hi/uk/8515601.stm>

¹⁶² <http://www.homeoffice.gov.uk/crime/violence-against-women-girls/teenage-relationship-abuse/>

¹⁶³ Tystiolaeth ysgrifenedig, Pediatregydd ymgynghorol

Argymhellion allweddol:

ANAFIADAU

Dylai awdurdodau lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'u partneriaid:

- Ariannu'r ymyriadau yn seiliedig ar dystiolaeth a nodir yn "Baich anafiadau yng Nghymru" yn ddigonol er mwyn atal anafiadau i blant a phobl ifanc, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddamweiniau cerbydau modur ymysg dynion 15-19 oed.

GOFAL DEINTYDDOL

Dylai byrddau iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac awdurdodau lleol:

- Ddarparu gofal deintyddol cyfannol sy'n canolbwyntio ar y claf i bob plentyn, yn cynnwys ataliaeth a mynediad i wasanaeth. Mae angen pwyslais ar ataliaeth ar lefelau unigol a phoblogaeth trwy ddefnyddio rhaglenni cymunedol ac ysgol sydd yn targedu POB plentyn, yn cynnwys poblogaethau cyn-ysgol a rhai agored i niwed; mae "Cynllun gwên" yn ymgais i wneud hyn a dylid darparu cefnogaeth ac adnoddau ar ei gyfer a'i werthuso. Byddai fflworideiddio dŵr yn cefnogi Erthygl 24 o CCUHP.
- Darparu mynediad teg yn ddaearyddol i ofal ar lefel arbenigol i blant ag anghenion ymddygiadol, meddygol neu ddeintyddol cymhleth (mae'r rhain ond ar gael yn Ne Ddwyrain Cymru ar hyn o bryd).

DATA

Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru:

- Ddatblygu systemau data mwy clir sydd yn gallu rhoi adroddiadau ystyrlon, rheolaidd i weithwyr proffesiynol rheng flaen..
- Adolygu'r ffordd yr ydym yn defnyddio proses monitro data llywodraeth leol, yn cynnwys data ysgolion, i lywio cynnydd mewn iechyd. Mae angen deall rhwymedigaethau awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn well yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data fel nad yw hwn yn rhwystr diangen i gael mynediad i wybodaeth allweddol am boblogaethau.
- Integreiddio dangosyddion sy'n cael eu mesur gan asiantaethau allanol â'r rheiny sy'n cael eu mesur yng Nghymru: er enghraifft, mae'r arolwg iechyd ymddygiad yn yr ysgol a gynhelir ar draws Ewrop yn rhoi data ar smygu a lefelau yfed ymysg plant.
- Cefnogi casglu data trylwyr yn canolbwyntio ar anghenion, canlyniadau, risg a darpariaeth gwasanaethau mewn perthynas â grwpiau penodol sy'n agored i niwed, yn cynnwys plant Sipsiwn Teithwyr.
- Adolygu Monitor Lles Cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Cafodd hwn ei ddatblygu i fesur y ffordd yr oedd hawliau'n cael eu gwireddu yng Nghymru; ond mae'n cael ei ddylanwadu'n ormodol gan y math o ddata sydd eisoes yn cael ei gasglu ac mae ei ddull yn epidemiolegol iawn. Yn ogystal, mae angen canlyniadau mesuradwy arnom wedi eu seilio ar erthyglau CCUHP.¹⁶⁴

GRWPYAU WEDI EU GWTHIO I'R CYRION

Dylai byrddau iechyd ac awdurdodau lleol:

- Neilltuo gwasanaethau â blaenoriaeth uchel iawn ym mhob ardal gan ddarparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol i grwpiau sydd wedi eu gwrthio i'r cyrion, gan ymestyn y model derbyn gofal i blant eraill sy'n agored i ystod o helbulon, a chanlyniadau iechyd a lles gwael ar gyfer bywyd fel oedolion.

¹⁶⁴ Er enghraifft, ystyriwch ordewdra. Ar hyn o bryd rydym yn mesur pa mor ordew yw plant a faint o blant sydd yn ordew, ond gallai canlyniadau yn seiliedig ar CCUHP fesur faint o blant sydd â chyfleoedd hygyrch i chwarae heb orfod croesi ffordd; faint o blant sy'n byw o fewn 100 llath i fwy nag un siop bwyd cyflym. Mae angen i ni gyfuno dull hawliau â dull epidemiolegol gyda hanfod cyfreithiol un a dull epidemiolegol y llall sy'n seiliedig ar anghenion, a lleihau niwed a risg, gan lywio'r ymyriadau yn gyfartal

GWASANAETHAU IECHYD MEDDWL A CAMHS

Dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid statudol:

- Gynnal arolwg rheolaidd o salwch meddwl a lles meddwl poblogaeth plant Cymru.
- Ailgyfeirio adnoddau o wasanaethau eraill y GIG er mwyn darparu arian digonol i alluogi CAMHS diogel ac effeithiol i gael ei sefydlu yng Nghymru, ar draws pob lefel gwaith a fyddai ar gael ac yn briodol i bob plentyn.
- Sicrhau bod CAMHS yn symud tuag at fodel mwy cyfannol ac ataliol, gan ymateb i benderfyniadau cymdeithasol salwch meddwl a gweithio mewn partneriaeth ystyrlon ag aelodau eraill, yn cynnwys gwasanaethau iechyd plant, awdurdodau lleol a chyrrff anllywodraethol.
- Sicrhau bod cwnsela'n cael ei gryfhau a bod mynediad yn cael ei ehangu.

BWYDO AR Y FRON

Dylai byrddau iechyd:

- Ail-lansio ac ailfywiogi *Menter Ysbytai Cyfeillgar i Fabanod*.
- Targedu mamau mewn teuluoedd heb lawer o adnoddau yn fwy effeithiol, sydd yn cynnwys adnabod y mamau hyn yn well (yn cynnwys y rheiny sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin domestig).

IECHYD RHYWIOL

Dylai Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac awdurdodau lleol:

- Hybu'r gwasanaethau yn well a chynyddu ymwybyddiaeth; hysbysebu SARC yn hytrach na rheoli'r galw trwy ddal gwybodaeth yn ôl.
- Lleihau amserau aros a chynyddu argaeledd.
- Gwella preifatrwydd a chyfrinachedd.
- Gwella hyfforddiant ar gyfer staff ISH. Nid yw staff ISH bob amser yn gwbl barod i weithio gyda phobl ifanc. Mae angen iddynt fod yn gymwys yn y materion canlynol: caniatâd; Canllawiau Fraser; cynnal cyfrinachedd; a diogelu - cael y sgiliau a'r hyder i gydnabod pan fydd pobl ifanc mewn perygl o gam-drin a chamfanteisio, gan gyfoedion hefyd, a thorri cyfrinachedd mewn cyd-destunau o'r fath.

ADDYSG RHYW

Dylai Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac awdurdodau lleol:

- Wneud addysg rhyw yn orfodol mewn ysgolion cynradd.
- Newid ffocws addysgu mewn ysgolion uwchradd i adlewyrchu realaeth bywydau pobl ifanc heddiw, sydd yn cynnwys gweithgaredd rhywiol yn llawer cynharach a chyfradd bryderus o orfodaeth rhywiol.
- Ei wneud yn ofynnol i ysgolion weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill a gweithio i fframwaith ar draws Cymru gyda safonau darpariaeth parhaus ar draws yr ysgolion i gyd.

Tlodi plant

Ruth Mullineux, Achub y Plant a Sean O'Neill, Plant yng Nghymru

Sylwadau ar y cynnydd

Mae'r cynnydd yn dileu tlodi plant a lleihau anghydraddoldebau yng Nghymru wedi ei atal. Cafwyd cynnydd sylweddol yn rhan gyntaf y mileniwm newydd ond mae hanner yr enillion hynny wedi cael eu colli er 2005 ac mae lefelau tlodi plant yng Nghymru yn cynyddu.¹⁶⁵ Nododd ffigurau swyddogol a gyhoeddwyd ar adeg Rownd Adrodd diwethaf y Cenhedloedd Unedig yn 2008 mai canran y plant sy'n byw mewn tlodi cymharol (cartrefi islaw 60% o'r incwm canolog cenedlaethol ar ôl didynnu costau tai) oedd 28%. Rhoddodd ffigurau cyfredol y Llywodraeth lefelau tlodi plant ar 200,000 neu 31% o blant yng Nghymru.¹⁶⁶ Yn seiliedig ar ffigurau cyfredol, er mwyn bodloni targed 2020 Llywodraeth Cymru i ddileu tlodi plant, byddai'n rhaid i'r lefelau presennol ostwng 4 gwaith mor gyflym yn y degawd nesaf ag y gwnaethant yn y degawd diwethaf.¹⁶⁷ Y rhagfynegiad yw y bydd lefelau tlodi plant yn cynyddu'n sylweddol ar draws y DU dros y blynyddoedd i ddod.¹⁶⁸

Yn 2007-2008, taflodd yr argyfwng ariannol byd-eang y DU i mewn i'r dirwasgiad hiraf a dyfnaf ers i gofnodion cymharol ddechrau yn y 1950au, gan newid tirwedd economaidd y DU yn sylfaenol. Cafwyd newidiadau arwyddocaol i dirwedd wleidyddol y DU hefyd dros y blynyddoedd diwethaf. Etholwyd Llywodraeth Glymblaid Ceidwadwyr a Democratiaid Rhyddfrydol y DU yn 2010, gan gyflwyno toriadau gwariant cyhoeddus ac Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant¹⁶⁹ sydd yn tanategu rhaglen gynilo a fwriadwyd i leihau'r diffyg yng nghyllideb y DU yn sylweddol.¹⁷⁰ Yn sgil etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2011, ffurfiwyd Llywodraeth Lafur yng Nghymru, yr unig weinyddiaeth Lafur yn y DU erbyn hyn. Mae'r dirwedd economaidd, wleidyddol a deddfwriaethol yn ymwneud â thlodi plant wedi newid yn sylweddol ers Arsylwadau Terfynol blaenorol y CCUHP yn 2008 ac mae hyn yn rhoi cefndir ar gyfer unrhyw ddadansoddiad o dlodi plant yng Nghymru heddiw.

CRC/C/GBR/CO/4 para 19: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Parti Gwladol, yn unol ag erthygl 4 o'r Confensiwn, yn dyrannu uchafswm yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer gweithredu hawliau plant, gyda ffocws arbennig ar ddileu tlodi a'i fod yn lleihau anghydraddoldebau ar draws pob awdurdodaeth.



Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU



Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru

Mae treth incwm a lles, a reolir gan Lywodraeth y DU, yn allweddol i drechu tlodi plant. Mae'r dirwedd wleidyddol ar ei newydd wedd a diwygiadau Llywodraeth y DU i dreth bersonol a pholisi budd-daliadau yn ganolog felly wrth i ni ystyried cynnydd o ran "dyrannu uchafswm yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer gweithredu hawliau plant". Mae'r cyfyngiadau y mae hyn yn ei roi ar Lywodraeth Cymru yn cael eu cydnabod yn eang yn y cyd-destun Cymreig. Mae ein dadansoddiad felly yn gwahanu cynnydd ar feysydd y mae Llywodraeth y DU yn gyfrifol amdanant o'r meysydd hynny sydd wedi eu datganoli i Lywodraeth Cymru.

¹⁶⁵ Kenway, P. & Parekh, A (2011). Monitoring poverty and social exclusion in Wales, 2011. Caerefrog: Sefydliad Joseph Rowntree

¹⁶⁶ DWP (2012). Households Below Average Income: An analysis of the income distribution 1994/95–2010/11, Mehefin 2012. Llundain: Y Llyfrfa.

¹⁶⁷ Kenway, P. & Parekh, A (2011). Op. cit.

¹⁶⁸ IFS (2011). Forecast for relative and absolute income poverty in the UK among children and working-age adults from 2010–11 to 2020. Sefydliad Astudiaethau Cyllidol Llundain. Ar gael yn: <http://www.ifs.org.uk/comms/comm121.pdf>.

¹⁶⁹ Trysorlys EM (2010). Comprehensive Spending Review 2010. Llundain: Y Llyfrfa.

¹⁷⁰ Gosodwyd targed i leihau diffyg y DU i'r graddau y byddai cyfanswm y ddyled gyhoeddus, ym mlwyddyn ariannol 2015–16, yn gostwng fel ffraciwn o'r CMC a chyhoeddwyd toriadau o £6.2bn.

Rhaglen gynilo Llywodraeth y DU a'r effaith ar Gymru

Yn 2010, cychwynnodd Llywodraeth y DU raglen gynilo yn seiliedig ar gyfres o ostyngiadau estynedig mewn gwariant cyhoeddus a chyhoeddodd newidiadau sylweddol i'r system budd-daliadau lles, ac mae graddau hyn yn dal yn dod i'r amlwg. Erbyn 2014-15, bydd gwariant ar fudd-daliadau ar draws y DU £18bn yn llai nag ydyw nawr (yn nhermau arian parod)¹⁷¹. Ym mis Hydref 2012¹⁷², cynigiodd y Canghellor £10bn o gynilion ychwanegol i'r bil lles erbyn 2016-17, fodd bynnag, ni aeth y mesurau a geir yn Natganiad yr Hydref yn Rhagfyr 2012 mor bell â hyn, gyda gostyngiad o £6.5bn yn y bil lles yn 2015-16.¹⁷⁴

Cydnabyddir yn fras y bydd llawer o'r diwygiadau lles a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn cael effaith aruthrol ar blant mewn teuluoedd incwm isel.¹⁷⁵ Effaith uniongyrchol ar y diwygiadau i dreth bersonol a pholisi budd-daliadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU fydd cynyddu tlodi plant, gyda'r rhagolygon diweddaraf yn dangos y bydd miliwn yn fwy o blant yn byw mewn tlodi erbyn 2020.¹⁷⁶ Mae hyn yn gwrthdroi'r cynnydd a wnaed gan lywodraeth flaenorol y DU tuag at ddileu tlodi plant erbyn 2020, yn gyfan gwbl bron. Yng Nghymru, mae dadansoddiadau yn rhagweld cynnydd mewn tlodi plant cymharol o ryw 6,000 yn 2012-13 yn unig, ond mae'r ffigur hwn yn debygol o gael ei ddiwygio.¹⁷⁷

Mae effeithiau diwygio lles yn debygol o fod yn bellgyrhaeddol.¹⁷⁸ Mae Comisiynydd Plant Lloegr wedi pwysleisio bod rhoi cap ar faint o fudd-daliadau sy'n cael eu talu i deuluoedd tlawd yn mynd yn erbyn hawliau plant ac yn cyflwyno perygl o "wahaniaethu anghyfiawn."¹⁷⁹ Disgwylir i deuluoedd â phlant golli swm anghymesur o'u hincwm o'u cymharu â mathau eraill o gartrefi ac amcangyfrifir y bydd y cartrefi tlotaf â phlant yn colli cyfran fwyaf o'u hincwm o ganlyniad i newidiadau mewn treth a budd-daliadau. Yn ogystal, rhagwelir y bydd newidiadau i dreth a budd-daliadau a gaiff eu gweithredu dros y blynnyddoedd i ddod yn mynd â swm mwy anghymesur o grwpiau incwm isel na grwpiau incwm uwch, ac eithrio'r grŵp mwyaf cyfoethog o ran incwm, ac maent yn debygol o fod yn fwy atchweliadol yng Nghymru.¹⁸⁰

Nid yw modelu ac amcanestyniadau o effaith diwygio lles a wneir ar lefel y DU ar gael yng Nghymru, ond serch hynny, y consensws yw bod diwygio lles yn debygol o gael effaith fwy cymesur ar bobl a theuluoedd yng Nghymru fel un o ardaloedd mwyaf difreintiedig y DU.¹⁸¹ Rhagamcanodd dadansoddi cynnar bod cartrefi yng Nghymru ar gyfartaledd yn colli 4.1% o'u hincwm (neu £1,110 y flwyddyn), o'i gymharu â cholled o 3.8% (neu £1,170 y flwyddyn) ar gyfartaledd yn y DU.¹⁸² Mae dadansoddiad

171 Trysorlys EM (2010). *Comprehensive Spending Review*. Llundain: Y Llyfrfa.

172 Osborne, G. (2012). *Conservative Party Conference Speech 2012*. Birmingham: Hydref 2012.

174 Trysorlys EM (2012). *Datganiad yr Hydref, 5 Rhagfyr 2012*. Llundain: Y Llyfrfa

175 Plant yng Nghymru (2012). *Children's groups urge amendments to Welfare Reform Bill*. Datganiad i'r Wasg [W/E/NI/S]. Plant yng Nghymru Caerdydd. Ar gael yn: <http://www.childreninwales.org.uk/news/17889.html>

176 Mae'r Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant wedi rhagweld y gallai 200,000 arall o blant gael eu gwrthio i mewn i dlodi os caiff y Bil Uwchraddio Budd-daliadau ei basio. Mae'r 200,000 o blant hyn yn ychwanegol i'r 400,000 yn fwy o blant y mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllidol (IFS) wedi rhagamcanu yn flaenorol fydd yn byw mewn tlodi cymharol erbyn 2015 o ganlyniad i bolisiau'r glymblaid, a'r 800,000 yn fwy o blant y mae'n amcangyfrif fydd yn byw mewn tlodi cymharol erbyn 2020. Gweler: IFS (2011). *Forecast for relative and absolute income poverty in the UK among children and working-age adults from 2010-11 to 2020*. London Institute for Fiscal Studies.; CPAG (2012). *Child Poverty Strategy in Disarray from Poverty-Producing Bill*. Llundain: Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant.

177 Llywodraeth Cymru: (2012). *Analysing the impact of the UK Government's welfare reforms in Wales – Stage 1 analysis*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

178 Mae mwy o amodau, asesiadau trylwyr, cap ar fudd-daliadau a thoriadau ar gyfer pobl anabl, llai o gymorth gyda thai a chostau gofal plant a'r newid i fynegeio budd-daliadau i ffwrdd o'r RPI i'r CPI wedi cael eu nodi fel elfennau allai gael effaith negyddol ar gartrefi incwm isel.

179 Comisiynydd Plant Lloegr (2012). *A Child Rights Impact Assessment of the Welfare Reform Bill*. Llundain: Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr.

180 Browne, J. a Levell, P. (2010). *The distributional effects of tax and benefit reforms to be introduced between June 2010 and April 2014: a revised assessment* (Nodyn Briffio IFS 108).

181 Donnelly, M. (2011). *Wales on the Edge*. Caerdydd: Cuts Watch Cymru.

182 Llywodraeth Cymru (2012). *Dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru – Dadansoddiad Cam 1*. Op.cit.

pellach yn diweddarau'r darlun o effeithiau negyddol yng Nghymru.¹⁸³ Mae'r effaith yn cael ei ddwysáu oherwydd lefelau uchel bresennol tlodi yng Nghymru, economi wan, lefelau cyflogaeth uchel yn y sector cyhoeddus a mwy o ddibyniaeth ar hyn o bryd ar fudd-daliadau (18.4% yn erbyn 14.5%).¹⁸⁴

Yn ogystal, nid yw 90% o'r toriadau i wariant cyhoeddus sydd wedi eu cynllunio wedi dod i rym eto. Nid yw credyd cynhwysol, fel prif haen newidiadau diwygio lles, yn cael ei gyflwyno nes tymor yr hydref 2013 ac yna bydd y newidiadau yn raddol. Felly, nid ydym yn teimlo effaith lawn y newidiadau eto. Mae llawer iawn o anniddigrwydd bod teuluoedd yng Nghymru'n wynebu'r her anoddaf eto i'w lles ers degawdau, a rhagwelir y bydd yr effaith mewn rhai ardaloedd fel 'tsunami'.¹⁸⁵ Er gwaethaf hyn, dengys ymchwil fod agweddau'r cyhoedd yn rhoi bai cynyddol ar bobl am eu tlodi eu hunain er gwaethaf diffyg ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth o'r ffeithiau, realaeth neu gymhlethdodau byw mewn tlodi.¹⁸⁶ Byddai ymdrechion gan y Llywodraeth i godi ymwybyddiaeth ynghylch realaeth tlodi plant o fudd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen o Weinidogion i asesu a monitro effaith gronol yr holl newidiadau lles ar bolisiau a gwasanaethau, ac i greu cyfres o ddadansoddiadau.¹⁸⁷ Mae grŵp allanol o randdeiliaid ar ddiwygio lles wedi cael ei sefydlu hefyd.¹⁸⁸ Fodd bynnag, nid yw dadansoddiadau llawn o amcanestyniadau ar draws y DU ar effaith diwygio lles ar gael eto ar gyfer Cymru. Dylai gwaith brys sicrhau bod difrifoldeb yr effaith yn cael ei ddeall yn llawn a bod 'uchafswm yr adnoddau sydd ar gael' yn cael eu dyrannu i gefnogi'r plant hynny sy'n cael eu heffeithio waethaf.

Cynyddu adnoddau i'r eithaf

O ganlyniad i doriadau Clymblaid y DU, disgwylir i'r gostyngiadau i gyllideb Llywodraeth Cymru fod yn £1.8bn neu 7% dros 4 blynedd.¹⁸⁹ Bydd toriadau i'r gyllideb yn effeithio ar wasanaethau cyflenwi yng Nghymru. Fodd bynnag, mae datganoli yn rhoi lle ar gyfer arwahanrwydd polisi mewn sawl maes.

Er y cafwyd rhywfaint o gynnydd ym maes cyllidebu plant er 2008, mae diffyg amlygrwydd plant yng nghyllideb Llywodraeth Cymru o hyd (gweler hefyd Pennod Dau. Mesurau Gweithredu Cyffredinol). Mae'r diffyg tryloywder mewn gwariant cyhoeddus ar blant yn golygu nad yw'n bosibl canfod ar hyn o bryd, heb ddadansoddi'n fanylach, a yw Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r adnoddau sydd ar gael "i'r graddau eithaf i gyflawni hawliau plant" yn unol â CCUHP.

Y DU yw un o wledydd cyfoethocaf y byd o hyd; mae'n rhaid i Lywodraethau'r DU a Chymru fod yn dryloyw ynghylch y ffordd y gellir cysoni dyraniadau presennol y gyllideb a chyfyngiadau ar wariant adrannol â sicrhau bod "uchafswm yr adnoddau sydd ar gael" yn cael eu dyrannu i drechu tlodi plant yng Nghymru. Mae'n rhaid iddynt hefyd ystyried effaith polisiau cydgrynhoi cyllidol presennol wrth danseilio'r ymagwedd hon a bod yn ofalus wrth weithredu polisiau fydd yn cosbi teuluoedd â phlant ac yn peryglu cynyddu tlodi plant yn sylweddol.

183 Llywodraeth Cymru (2013). *Dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru – Dadansoddiad Cam 2* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

184 Llywodraeth Cymru (2012). *Dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru*. Op. cit.

185 Donnelly, M. (2011). Op. cit.; Beatty a Fothergill (2011). *Tackling Worklessness in Wales*. Sheffield: Canolfan Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol Ranbarthol, Prifysgol Sheffield Hallam.

186 JSefydliad Joseph Rowntree (2011). *Do we blame people for being in poverty?* Post Blog: Caerefrog: Sefydliad Joseph Rowntree. Ar gael yn: <http://www.jrf.org.uk/blog/2011/12/blame-people-being-poverty>

187 Llywodraeth Cymru (2012). *Dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru*, Op. cit. WLlywodraeth Cymru (2013). *Dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru – Dadansoddiad Cam 2s*. Op Cit; Adam, S. & Phillips, D. (2013). *An ex-ante analysis of the effects of the UK Government's welfare reforms on labour supply in Wales*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

188 Andrews, L (2012). *Datganiad Ysgrifenedig y Gweinidog ar Ddiwygio Lles, Ionawr 2012*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

189 Mae'r ffigurau gwirioneddol yn destun dadl yn dibynnu a yw chwyddiant yn cael ei ystyried neu beidio.



CRC/C/GBR/CO/4 para 65.a: Mabwysiadu a gweithredu'r deddfwriaeth sydd â'r nod o ddileu tlodi plant erbyn 2020 yn ddigonol, yn cynnwys sefydlu dangosyddion mesuradwy ar gyfer eu cyflawni.

Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU a Chymru

Cafodd Deddf Tlodi Plant y DU ei phasio yn 2010, gan rwyngu llywodraethau'r DU i ymrwymiad i ddileu tlodi ym Mhrydain erbyn 2020. Mae cyfres o bedwar targed mesuradwy wedi cael ei sefydlu ac mae'n ofynnol ar Lywodraethau i adrodd yn eu herbyn yn flynyddol.¹⁹⁰

Yng Nghymru, cydnabu ein sesiynau tystiolaeth fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol er 2008 yn mabwysiadu deddfwriaeth, polisi ac ystod o raglenni a gynlluniwyd i leihau tlodi plant yng Nghymru yn y meysydd polisi datganoledig lle mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru bwerau drostynt.¹⁹¹ Mae Llywodraeth Cymru wedi ategu'n barhaus ei hymrwymiad i'r targed o ddileu tlodi erbyn 2020, gan fynd ymhellach mewn gwirionedd na gweddi y DU wrth ddechongli 'dileu'.¹⁹²

Cafodd Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru)¹⁹³ gydsyniad brenhinol yn 2010 a chyflwynodd ddyletswydd ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac awdurdodau cyhoeddus a enwir i nodi gweithredoedd sydd wedi eu dylunio i drechu tlodi plant. Mae'r Mesur yn amlinellu 13 o nodau eang. Rhoddodd y Mesur hefyd ddyletswydd ar Weinidogion i greu strategaeth Tlodi Plant cenedlaethol a gyhoeddwyd yn 2011. Cafodd hwn ei groesawu ar y cyfan a chafodd gefnogaeth rhaglenni a mentrau â'r bwriad o gyflawni ei dri amcan allweddol: 1) lleihau nifer y teuluoedd sy'n byw mewn cartrefi heb waith; 2) cynyddu sgiliau rhieni a phobl ifanc yn ogystal â; 3) mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, addysg ac economaidd.¹⁹⁴

Yn arwyddocaol, nododd Llywodraeth Cymru fod "y fframwaith deddfwriaethol newydd sydd wedi ei sefydlu, trwy Ddeddf Tlodi Plant 2010 a Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn golygu, am y tro cyntaf, y bydd fframwaith statudol i sbarduno gweithredu ar dlodi plant yn ymestyn o Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cynulliad Cymru hyd at awdurdodau lleol ac asiantaethau cyhoeddus eraill."¹⁹⁵

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru yn helaeth ar y Strategaeth Tlodi Plant a Chynllun Cyflenwi. Mabwysiadodd Cynllun Cyflenwi Tlodi Plant Drafft¹⁹⁶ ymagwedd glir yn ymwneud â hawliau plant yn seiliedig ar 7 Nod Craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc (sy'n crynhoi CCUHP). Yn dilyn cyhoeddi'r Strategaeth Tlodi Plant yn 2011, nodwyd bod cydgrynhoi cyllidol a newidiadau i Bolisi Llywodraeth y DU yn golygu bod angen datblygu nifer o'r gweithredoedd polisi a'r ymrwymladau manwl a amlinellwyd yn y Cynllun Cyflenwi Drafft ymhellach ac y byddai'n cael ei haddasu i fod yn 'ddogfen fyw' y gellid ei diweddarau'n rheolaidd.¹⁹⁷ Cyhoeddwyd hefyd y byddai Llywodraeth Cymru'n adolygu ystod lawn y dangosyddion a ddefnyddir i gasglu data ar dlodi plant. Fodd bynnag, ni chafodd y Cynllun Cyflenwi Drafft ei gyhoeddi'n derfynol.

¹⁹⁰ Llywodraeth EM (2010). *Child Poverty Act 2010*. Llundain: Y Llyfrfa.

¹⁹¹ Ers pasio referendwm ar fwy o bwerau deddfu ym mis Mawrth 2011, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn gallu cyflwyno Biliau a deddfwriaethu ar ei 20 maes cyfrifoldeb datganoledig.

¹⁹² Mae Llywodraeth Cymru'n datgan: "Tra'n cydnabod pwysigrwydd targedau'r DU, nod Llywodraeth Cynulliad Cymru, trwy ddefnyddio'r ysgogiadau polisi sydd ganddi, yw dileu tlodi plant erbyn 2020. Byddai cyflenwi yn erbyn y targed uchelgeisiol hwn yn golygu y byddai Cymru'n cyrraedd y gyfradd tlodi plant isaf yn Ewrop. Y gyfradd isaf a gyflawnwyd erioed yw 5 y cant cyn costau tai."

¹⁹³ Llywodraeth Cymru (2010). *Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru)*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

¹⁹⁴ Llywodraeth Cymru (2011). *Strategaeth Tlodi Plant Cymru* Op.cit.

¹⁹⁵ Llywodraeth Cymru (2010). *Strategaeth newydd a chynllun cyflenwi i drechu tlodi plant yng Nghymru*. Datganiad i'r Wasg. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. <http://wales.gov.uk/newsroom/childrenandyoungpeople/2010/10/0512childpoverty/?lang=en>

¹⁹⁶ Llywodraeth Cymru (2010). *Cynllun Cyflenwi Tlodi Plant Drafft*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

¹⁹⁷ Llywodraeth Cymru (2011). *Strategaeth Tlodi Plant Cymru*. Op.cit.

Ymagwedd drosfwaol newydd Llywodraeth Cymru tuag at dlodi

Yn dilyn etholiadau Mai 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i integreiddio'i gweithredoedd ar dlodi plant i ymagwedd *Trechu Tlodi* adrawsbynciol a fyddai'n cynnwys oedolion a phlant. Cafodd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi (TPAP) ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2012 fel 'dogfen fyw' yn amodol ar ddiweddariadau ac mae wedi ei gynllunio i 'ategu'r gwaith o gyflenwi' strategaeth tlodi plant Llywodraeth Cymru.¹⁹⁸ Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu *Grŵp Cyngori Allanol ar Drechu Tlodi* er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud i'r perwyl hwn.¹⁹⁹

Mae'r TPAP, cyhoeddiad statudol, yn cynrychioli dull newydd, ehangach gan y Llywodraeth o drechu lefelau tlodi trwy ddull teulu cyfan. Nid yw'r dull hawliau plant, a fabwysiadwyd wrth ddrafftio'r Cynllun Cyflenwi Trechu Tlodi oedd yn nodi'r ffordd yr oedd y blaenoriaethau ar gyfer y Llywodraeth yn ymwneud yn benodol â CCUHP, mor glir yn y Cynllun newydd. Er gwaethaf gofyn am sicrwydd y byddai'r 7 Nod Craidd yn dal yn ganolog i'r cynllun gweithredu newydd²⁰⁰ tni fyddai hyn yn wir wrth ei gyhoeddi. Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi cofnodi ei bryderon am y dull hwn.²⁰¹ ARheswm allweddol dros y pryderon hyn yw bod dull tlodi plant yn ei hanfod yn wahanol i ddull teulu cyfan.²⁰² Mae'n amlwg na ellir mynd i'r afael â thlodi heb fynd i'r afael â thlodi teuluol hefyd. Fodd bynnag, hyd yn oed o fewn cyd-destun y teulu, ceir dimensiynau pwysig eraill i safbwynt tlodi plant yn seiliedig ar hawliau y mae angen eu trechu (fel dimensiynau emosiynol a deallusol) cyn gwasanaethau ychwanegol ar gyfer plant a all wella eu lles a helpu i leihau tlodi plant. Ni ellir lleihau tlodi plant trwy drechu tlodi teuluol yn unig.

Mae dod â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) i rym yn gam cadarnhaol tuag at sicrhau bod rhaglenni a mentrau Llywodraeth Cymru ar dlodi yn rhoi sylw dyledus i'r effaith ar blant. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut, os o gwbl, y mae TPAP Llywodraeth Cymru wedi bod yn destun proses sylw dyledus yn unol â'r Mesur hwn.

Gweithredu deddfwriaeth yn ddigonol

Nid yw'r cwestiwn ynghylch a yw deddfwriaeth yng Nghymru wedi cael ei 'weithredu'n ddigonol' mor syml. Pwysleisiodd y dystiolaeth a ddefnyddiwyd bod y strategaethau heb gyflawni'r canlyniad a ddymunir o ran lleihau lefelau tlodi plant a bod deddfwriaeth yn y maes hwn yn dal yn newydd a bod angen proses sefydlu.

Ar lefel leol, mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn gweithredu canllawiau statudol diwygiedig ar gyfer gweithio'n lleol, gan bwysleisio y dylai llywodraeth leol a phartneriaid trwy'r Byrddau Gwasanaeth Lleol fod yn gweithio i ddatblygu Cynllun Integredig Unigol (SIP) ar gyfer eu hardal erbyn Ebrill 2013. Mae SIP wedi ei ddylunio i leihau cymhlethdod, dyblygu ac i hyrwyddo gwaith aml-asiantaeth, gan ryddhau adnoddau. Dylai ddisodli o leiaf pedwar o'r cynlluniau statudol presennol yn cynnwys y Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Yn y dyfodol, bydd Llywodraeth Cymru yn cyngori awdurdodau lleol a phartneriaid i ddefnyddio'u Cynlluniau Integredig Unigol fel prif offeryn i gyflawni eu dyletswydd statudol yn ymwneud â thlodi plant yn unol â Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.²⁰³

198 Llywodraeth Cymru (2012). *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

199 Llywodraeth Cymru (2012). *Penodi aelodau i Grŵp Cyngori Allanol Trechu Tlodi*, Adroddiad penderfyniad, 18 Ebrill 2012. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

200 Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru (2011) *Memo for meeting with the Deputy Minister for Children and Social Services 8/12/11*. Ar gael yn: <http://www.childreninwales.org.uk/areasofwork/childpoverty/povertypublications/index.html>

201 Comisiynydd Plant Cymru (2012). *Strategaeth Tlodi Plant 2012 ymlaen*. Abertawe: Comisiynydd Plant Cymru.

202 Mae dau wahaniaeth sylfaenol rhwng dull hawliau plant tuag at dlodi plant a dull teuluol. Y peth cyntaf yw rhoi'r plentyn wrth wraidd yr holl fesurau polisi i frwydro yn erbyn tlodi plant a'r ail yw cydnabod y plentyn fel actor cymdeithasol y tu allan i'r teulu. Fel y mae Eurochild yn datgan "Unwaith y mae wedi ei seilio ar gyd-destun hawliau plant – yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a sail gyfreithiol bresennol yr Undeb Ewropeaidd – mae arwahanrwydd dull tlodi plant yn dod yn glir a dylai sbarduno'r holl fentrau polisi i frwydro yn erbyn tlodi plant." Eurochild (2011).

Child poverty – family poverty: are they one and the same? A rights-based approach to fighting child poverty. Sefyllfa Bolisi. Brwsel: Eurochild.

203 Llywodraeth Cymru (2010). *Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru)*. Op.cit.

Yn erbyn y cefndir hwn, mae angen gwneud mwy o waith i sefydlu blaenoriaethau a rennir a pherchnogi'r agenda tlodi plant (yn arbennig o fewn dull ehangach o drechu tlodi) ar draws portffolios y Llywodraeth a rhwng y Llywodraeth a sectorau eraill. Mae angen gweithredu pendant i leihau'r bwlch gweithredu rhwng rhethreg polisi cenedlaethol a chyflenwi lleol, oedd yn fater a amlygwyd yn Arsylwadau Terfynol 2008. Mae angen integreiddio rhaglenni a mentrau yn well er mwyn iddynt gydweithio'n well i gael yr effaith strategol angenrheidiol. Mae angen synergedd gwell hefyd rhwng y pentwr o raglenni a pholisïau llywodraeth Cymru a llywodraeth y DU, er enghraifft mewn perthynas â rhaglenni tlodi tanwydd a mentrau cyflogaeth/hyfforddiant.

Mae newid i ddull eang o drechu tlodi hefyd wedi cael effaith ar y gallu i fonitro a gwerthuso cynnydd yn trechu tlodi plant yng Nghymru. Amlinellodd y Cynllun Cyflenwi Tlodi Plant Drafft set o ddangosyddion tlodi plant craidd a chafodd y broses ymgynghori ei dylunio i ddatblygu set ehangach a mwy cadarn o ddangosyddion i adlewyrchu natur drawsbynciol a chyfannol tlodi plant. Roedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu ystadegau blynyddol yn rhoi diweddariad ar gerrig milltir a thargedau tlodi plant gan gyhoeddi'r cyntaf o'r rhain yn 2010.²⁰⁴ Fodd bynnag, ni chafwyd diweddariad ar gyfer 2011 yn rhannol oherwydd y newid mewn cyfeiriad polisi. Mae ystod o ddangosyddion ar gyfer mesur canlyniadau'r TPAP yn y cynllun ei hun a Phennod 9 o Raglen Lywodraethu 2012-2016.²⁰⁶ Mae Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru felly'n pwysu i gryfhau'r trefniadau ar gyfer monitro a gwerthuso'r cynnydd ar dlodi plant ymhellach.²⁰⁷

Ar adeg ysgrifennu hwn mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ymgynghoriad²⁰⁸ i archwilio dull newydd o fesur tlodi plant, gan ddechrau trafodaeth eang am ddyfodol y mesur tlodi plant cymharol.²⁰⁹ Er gwaethaf y trafodaethau hyn ar lefel y DU, ymddengys bod ymrwymiad clir yng Nghymru i barhau i ddefnyddio'r prif fesur tlodi cymharol fel rhan o set o ddangosyddion.²¹⁰ Cydnabyddir bod yr angen am set o ddangosyddion i gyfleu ystod yr agweddau ar dlodi'n cyfleu mesurau ychwanegol i liniaru tlodi y mae Llywodraeth Cymru wedi eu sefydlu. Fodd bynnag, wrth symud tuag at ddarlun ehangach tlodi gyda mesurau fydd yn cyfleu hyn yn ddigonol, cydnabyddir na ddylem mewn unrhyw ffordd golli golwg ar y ffaith fod incwm yn hanfodol i'r drafodaeth ar dlodi.²¹¹



CRC/C/GBR/CO/4 para b: Rhoi blaenoriaeth yn y ddeddfwriaeth hon ac wrth olrhain gweithredoedd i'r plant hynny a'u teuluoedd y mae angen y cymorth mwyaf arnynt.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru

Cymru sydd â'r gyfran uchaf o blant sy'n byw mewn tlodi difrifol o blith unrhyw wlad yn y DU (14%).²¹² o hyd. Ar hyn o bryd, mae ymagwedd y Llywodraeth yn blaenoriaethu ardaloedd o amddifadedd uwch, sydd yn anochel yn allgáu nifer sylweddol o blant sy'n byw mewn cymunedau

204 Llywodraeth Cymru (2010). *Dileu Tlodi Plant yng Nghymru: Diweddariad Cerrig Milltir a Thargedau Tlodi Plant, Tachwedd 2010*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

206 Llywodraeth Cymru (2011). *Rhaglen Lywodraethu 2011-2016: Pennod 9: Tlodi Plant*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru; Llywodraeth Cymru (2012). *Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi Plant*. Op. cit.

207 Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru (2012). *Tlodi Plant: Rhaglen Tuag at Ddileu*. Caerdydd: Plant yng Nghymru. Ar gael yn: <http://www.childreninwales.org.uk/areasofwork/childpoverty/povertypublications/index.html>

208 DfE (2012). *Consultation on Measuring Child Poverty*. Llundain: Y Llyfrfa.

209 Whitham G (2012). *Ending Child Poverty: The Importance of Income in Measuring and Tackling Child Poverty*. Llundain: Achub y Plant.

210 Tystiolaeth lafar a dderbyniwyd fel rhan o sesiynau Tystiolaeth CCUHP, 5 Gorffennaf 2012.

211 ECPN (2013). *Mesur Tlodi Plant: Ymgynghoriad ar fesurau tlodi plant gwell*. Caerdydd: Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant

212 Achub y Plant (2011). *Severe Child Poverty Nationally and Locally*. Llundain: Achub y Plant.

trefol ac ynysig gwledig eraill.²¹³ Dylid targedu'r cymorth yn well tuag at y grwpiau hynny o blant sydd â'r perygl mwyaf o dlodi a'r rheiny sy'n dioddef y tlodi mwyaf difrifol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i ehangu ei hymagwedd trwy ailsefydlu *Cymunedau yn Gyntaf* fel rhaglen gwrth-dlodi gyda ffocws ar ganlyniadau economaidd, sgiliau, addysg a chanlyniadau iechyd. Caiff ymrwymïadau i ymestyn i'r rhaglen *Dechrau'n Deg*, gan ddyblu nifer y plant sy'n elwa trwy gymorth i deuluoedd, ymweliadau iechyd a lleoedd meithrin ei groesawu hefyd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cymryd camau sy'n cael eu croesawu, trwy *Deuluoedd yn Gyntaf* a Thimau Cymorth Dwys i Deuluoedd, i ganolbwyntio'r gweithredu ar y blynyddoedd cynnar, ymyrraeth gynnar ac ataliaeth.

Wrth i Lywodraeth Cymru symud tuag at *Gynllun Gweithredu Trechu Tlodi* ac wrth iddi ailgyflunio rhaglenni ac ymyriadau blaenllaw, mae'n hanfodol nad ydym yn colli golwg ar y plant hynny y mae angen cymorth arnynt fwyaf. Mae gofyniad o hyd i dargedu gwasanaethau'n gynyddol ac yn fwy effeithiol ar gyfer y rheiny sy'n byw mewn tlodi gan gydnabod bod clytiau o amddifadedd yn digwydd ym mhob ardal. Mae llawer o blant yn fwy agored i dlodi oherwydd eu hamgylchiadau penodol fel sy'n cael ei gydnabod ac felly mae angen ymyriadau wedi eu targedu sydd wedi eu teilwra ar gyfer eu hanghenion.²¹⁴



65. (c) Lle y bo angen, yn ogystal â rhoi cymorth llawn i rieni neu eraill sy'n gyfrifol am y plentyn, dwysáu ei ymdrechion i roi cymorth perthnasol a rhaglenni cymorth i blant, yn arbennig yn ymwneud â maeth, dillad a thai.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru

Mae cefndir o bwysau digynsail ar gyllid teuluoedd ac effeithiau parhaus dirwasgiad byd-eang a thwrf araf economi'r DU wedi dwysáu'r angen i bartïon gwladwriaethau ddarparu 'cymorth perthnasol a rhaglenni cymorth'. Mae nifer cynyddol o deuluoedd yn cael anhawster yn cael dau pen llinyn ynghyd.²¹⁵ Mae cynnydd cyson yng nghost tanwydd, trafnidiaeth, bwyd a dillad i gyd yn dwysáu'r anawsterau y mae cartrefi incwm isel yn eu hwynebu. Mae plant eu hunain yn poeni am bwysau ar gyllid y teulu, gyda thros hanner plant Cymru (53%) mewn teuluoedd incwm isel yn poeni bod eu rhieni'n ei chael hi'n fwy anodd talu am hanfodion bob dydd fel bwyd, gwres a dillad.²¹⁶

Yn ein sesiynau tystiolaeth nodwyd bod y galw am gyngor ariannol i wasanaeth cyngori cenedlaethol gan bobl ar fudd-daliadau wedi cynyddu 24% dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn ogystal, mae 19 banc bwyd yn gweithredu ar hyn o bryd ledled Cymru (agorodd y prosiect cyntaf yn 2008) a thros y 12 mis diwethaf maent wedi darparu parseli bwyd i 16,000 o bobl mewn argyfwng. Rhwng Ebrill 2011 a Mehefin 2012, gwelodd y banciau bwyd gynnydd o 193% yn y bobl y mae angen cymorth arnynt.²¹⁷ Mae nifer y cartrefi sydd yn profi tlodi tanwydd wedi mwy na dyblu yn y blynyddoedd diweddar gydag ymchwil yn amlygu bod y broblem yn cynyddu ond hefyd yn dwysáu gyda mwy o blant yn debygol o fod wedi eu dal mewn tlodi tanwydd difrifol yn ddiweddar. Mae'n bwysig cydnabod hefyd y gallai Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy, sy'n diddymu cymorth cyfreithiol ar gyfer achosion lles a budd-daliadau, effeithio ar ddegau o filoedd o bobl a allai fod mewn mwy o berygl o ddigartrefedd a thlodi heb gyllid ar gyfer cael cyngor.²¹⁸

213 Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru (2009). *Tlodi Plant ac Allgáu Cymdeithasol yn y Gymru Wledig*. Caerdydd: Plant yng Nghymru Ar gael yn: <http://www.childreninwales.org.uk/areasofwork/childpoverty/povertypublications/index.htm>

214 Llywodraeth Cymru (2010). *Cynllun Cyflenwi Tlodi Plant Drafft*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

215 Cyfryngau Cymru (2012). *Families put under 'unbearable pressure' by cost of living rises*. Caerdydd: The Western Mail.

216 Whitham, G. (2012). *It shouldn't happen here*. Llundain: Achub y Plant.

217 Ymddiriedolaeth Trussell (2012). *Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd fel rhan o Sesiynau Tystiolaeth CCUHP*. Gorffennaf 2012.

218 Elfen allweddol o'r bil cymorth cyfreithiol yw diddymu cymorth cyfreithiol ar gyfer achosion lles a budd-daliadau ac yn nod i dorri £350m o'r cyllid cymorth cyfreithiol o £2.2bn; Llywodraeth EM (2012). *The Legal Aid, Sentencing and Punishment of Offenders Act*. Llundain: Y Llyfrfa

Mae cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ymestyn rhwydweithiau undebau credyd a gwasanaethau cymorth i helpu i gynyddu incwm yn cael ei groesawu a dylai fod yn ffynhonnell cymorth hanfodol i deuluoedd.²¹⁹ Mae rhaglenni effeithlonrwydd ynni NEST ac Arbed yn cael eu croesawu ond nid yw llawer o alwadau y Cynghair Tlodi Tanwydd wedi cael eu trin eto ers iddo gael ei lansio yn 2009.²²⁰ Mae angen dwysáu'r gwaith o wella cynhwysiant digidol er mwyn sicrhau nad yw plant a theuluoedd â'r angen mwyaf yn cael eu hallgáu o allu cael gafael ar gynnyrch ariannol, ceisio a hyfforddi ar gyfer gwaith ac ymwneud ag eraill. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod y system Credyd Cynhwysol yn 'ddigidol yn rhagosodedig' ac wedi ei ddylunio i gael ei weld a'i olrhain ar-lein.

Gwneud i waith dalu

Mae corff cynyddol o ymchwil ddiweddar yn pwysleisio'r anawsterau economaidd cymharol y mae Cymru'n eu hwynebu.²²¹ Mae cynorthwyo pobl i ddod o hyd i waith yn ffordd allweddol o gefnogi teuluoedd a hybu incwm. Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, nododd y cyfranogwyr fod diweithdra, tangyflogaeth a thâl isel i gyd yn broblemau sylweddol i Gymru ac yn ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at lefelau tlodi plant uchel. Yng Nghymru, mae diweithdra wedi parhau'n barhaus uwchlaw cyfartaledd y DU dros y blynyddoedd diweddar.²²² Yn ogystal, mae ffigurau diweddar yn dangos mai 23.6%²²³ yw diweithdra ieuencid gyda diweithdra ieuencid hirdymor yn cynyddu bron bedair gwaith mewn blwyddyn yng Nghymru.²²⁴ Mae'r cynnydd sy'n parhau yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru yn frawychus o ystyried canlyniadau uniongyrchol a hirdymor anweithgarwch economaidd i unigolion a ffyniant y wlad yn y dyfodol. Mae dibyniaeth sylweddol ar gyflogaeth y sector cyhoeddus yn gwneud Cymru'n arbennig o agored i niwed yn sgil toriadau gwariant o'i chymharu â rhannau eraill o'r DU.²²⁵

Mae'r TPAP yn nodi cyflogaeth fel 'y llwybr gorau allan o dlodi'²²⁶ gan roi diogelwch i unigolion a theuluoedd rhag tlodi ac mae'r Rhaglen Lywodraethu yn amlinellu mynd i'r afael â bod heb waith a chynyddu incwm cartrefi fel maes allweddol ar gyfer gweithredu.²²⁷ Mae mentrau fel *Genesis*, *Canolfannau Cymorth Integredig* i *Deuluoedd* ac yn fwy diweddar y rhaglen *Twf Swyddi Cymru* yn ogystal ag ystod o fesurau i wella sgiliau pobl ifanc a theuluoedd i gyd wedi bod yn gamau cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru. Dylid cydnabod ystod o brosiectau a gwasanaethau effeithiol y mae cyllid Ewropeaidd yn darparu adnoddau ar eu cyfer, a dylid gwneud ymdrech i'w cadw wrth bontio i rownd nesaf cyllid yr UE.

219 Llywodraeth Cymru (2012). *Llywodraeth Cymru'n Cyhoeddi Adolygiad o Wasanaethau Cyngori, 19 Mehefin 2012*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Llywodraeth Cymru (2012). *Cynllun Gweithredu ar gyfer Mudiad yr Undebau Credyd yng Nghymru 2010-2013*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

220 Cynghair Tlodi Tanwydd (2011). *Trobynt yn y Frwydr yn Erbyn Tlodi Tanwydd yng Nghymru: Siarter Tlodi Tanwydd*. Gweler: <http://www.fuelpovertycharterwales.org.uk/>.

221 Beatty a Fothergill (2011). Op. cit; Davies, R. (2011). *An Anatomy of Economic Inequality in Wales*. Caerdydd: EHRC, WISERD.

222 Gweler gwefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Data Misol Rhanbarthol Ystadegau y Farchnad Lafur. <http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/economy2012/121212/?lang=en>

223 ONS (2012). *Regional Labour Market: H110 - Headline Indicators for Wales, Rhagfyr 2012* (ffigurau Gorff 2011-Jun 2012). Llundain: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

224 Ffigurau ar gyfer Awst 2011 - Awst 2012 gweler NOMIS (2012). *JSA Claimants by Age and Duration-Time Series*. Llundain: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

225 Yng Nghymru, mae chwarter y gweithlu cenedlaethol wedi eu cyflogi yn y sector cyhoeddus, sydd lawer yn uwch na'r cyfran yn y DU yn gyffredinol. Mae tua 344,000 o bobl yng Nghymru'n gweithio yn y sector cyhoeddus, neu tua 27.5% o'r holl weithwyr, o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 21.2%. Yn ogystal, syrthiodd cyflogaeth y sector preifat yng Nghymru 5.4 y cant (52,000) rhwng chwarter 1 2009 a chwarter 1 2010 o'i gymharu â gostyngiad o 1.1 y cant ar draws y DU yn gyffredinol. Dywedir yn helaeth hefyd bod menywod yn rhoi cyfrif am 75% o weithlu'r sector cyhoeddus yng Nghymru sy'n pwysleisio'r effaith ganlyniadol bosibl ar blant. ONS (2010). *Regional Analysis of Public Sector Employment, 2010*. Llundain: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

226 Nodir diweithdra fel mater o drefn fel ffactor risg sylweddol o incwm isel yng Nghymru, gyda'r risg yn cynyddu o 5% ar gyfer teulu sy'n gweithio'n llawn i dros 60% ar gyfer un nad yw'n gweithio; Kenway, P. (2009). Op. cit.

227 Llywodraeth Cymru (2012). *Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi*, Op.cit.

Fodd bynnag, i lawer nad ydynt yn ceisio ymgysylltu â'r farchnad lafur yng Nghymru, mewn llawer o ardaloedd nid oes llawer o ragolygon ar gyfer hunanwella na dianc i lawer o weithwyr heb lawer o sgiliau.²²⁸ Mae nodweddion marchnad lafur Cymru yn golygu bod swyddi 'perfformiad uchel' yn gyfyngedig ac yn dibynnu a yw gweithwyr wedi caffael y sgiliau digonol i'w llenwi (sy'n cael ei danseilio gan y 'bwlch tlodi' mewn addysg). Dylid nodi cynlluniau arloesol Llywodraeth Cymru fel *Cynllun Gweithredu ar Ddiswyddiadau (ReAct)* a *ProAct*²²⁹ sam helpu i gadw busnesau Cymru'n fyw a gweithwyr mewn cyflogaeth yn ystod y dirwasgiad. Fodd bynnag, roedd y rhaglenni hyn yn canolbwyntio ar rannau o'r gweithlu â sgiliau uwch, gyda buddion cyfyngedig ar gyfer y niferoedd sylweddol o weithwyr heb lawer o sgiliau yn yr economi.

Er bod gan cynyddu cyflogaeth ran i'w chwarae yn symud tuag at ymrwymadau uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar dlodi plant, cydnabyddir yn gynyddol na all cyflogaeth gyflawni'r targed hwn ar ei ben ei hun.²³⁰ Mae natur gydblededig, gymhleth y dirywiad mewn diwydiannau allweddol mewn sawl ardal o Gymru, patrymau parhaus lefelau isel cyrhaeddiad addysgol grwpiau difreintiedig a'r angen i gydbwyso cyfrifoldebau gofal am blant, yn golygu bod niferoedd cynyddol o rieni'n cael eu gadael heb lawer o ddewis ond derbyn gwaith rhan-amser neu dros dro am dâl isel, yn aml ag oriau anrhagweladwy â dim llawer o sicrwydd swydd.²³¹ Mae gwaith rhan-amser nad yw'n wirfoddol, tangyflogaeth ac amrywiaeth mewn patrymau gwaith yn golygu i lawer, bod cyflogaeth o bosibl yn eu rhoi mewn tlodi yn hytrach na'u codi allan ohono.²³² Codir cwestiynau arwyddocaol hefyd ynghylch a fydd y newidiadau arfaethedig yn unol â Chredyd Cyffredinol yn 'gwneud i waith dalu' gyda rhagfynediadau o effaith negyddol ar gymhellion gwaith i nifer o deuluoedd incwm isel.²³³

Mae tlodi mewn gwaith felly'n cael ei gydnabod yn gynyddol fel elfen allweddol o'r darlun tlodi plant. Mae dros hanner y plant sy'n byw mewn tlodi cymharol (6 mewn 10) mewn teuluoedd lle mae un rhiant o leiaf yn gweithio.²³⁴ Mae enillion unigol yng Nghymru, ar gyfartaledd, yn llai na chyfartaledd y DU; mae 26% o weithwyr yng Nghymru ar dâl isel o'u cymharu â 22% yn y DU.²³⁵ Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i archwilio ffyrdd o sicrhau cyflog byw i bob gweithiwr yng Nghymru'n cael ei groesawu, a dylai'r gwaith ar yr agenda hon barhau.²³⁶

Mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried y materion hyn gyda'r bwriad o greu newid strategol a strwythurol i gefnogi datblygiad sgiliau a gwella cyfleoedd yn y farchnad lafur, er mwyn osgoi cyflogau isel ac ansicrwydd rhag dod yn norm cynyddol i lawer o weithluedd Cymru. Byddai hyn yn cydnabod y ffaith fod cyfleoedd i ddatblygu yn y farchnad lafur yn gyfyngedig yn aml mewn swyddi â thâl isel. Mae angen llawer o atebion o hyd am ddyfnder y newidiadau systemig y byddai angen eu gwneud er mwyn cyflawni'r lefelau a mathau o gyflogaeth sydd eu hangen i gyflawni targedau Llywodraeth Cymru ar leihau tlodi plant. Byddai angen ymestyn gwasanaethau, o wasanaethau plant i ofal iechyd a'u haddasu i helpu teuluoedd i ymdopi â'r pwysau o ran amser a fyddai'n disodli'r pwysau ariannol y mae llawer o rieni a theuluoedd yn eu hwynebu pe byddai cyflogaeth lawn cynyddol yn dod yn norm.²³⁷

228 Davies, R. et al. (2011). Op. cit.

229 Gwasanaeth Ymchwil Aelodau (2011). *ReAct a ProAct, Ionawr 2011*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru

230 Kenway, P. (2009). Op. cit.

231 Davies, R. et al. (2011). Op. cit.

232 Ibid.

233 Whitham, G. (2012). *Ending Child Poverty: Ensuring Universal Credit supports working mums*. Llundain: Achub y Plant.

234 Goulden, C. (2012). *The Relentless Rise of In-Work Poverty (Article)*. Caerefrog: Sefydliad Joseph Rowntree.

235 Davies, R. et al. (2011). Op. cit. Kenway, P., McInnes, T. & Palmer G. (2009). *Monitoring poverty and social exclusion in Wales, 2009*. Caerefrog: Sefydliad Joseph Rowntree; Kenway, P., McInnes, T. & Palmer G. (2007). *Monitoring poverty and social exclusion 2007*. Caerefrog: Sefydliad Joseph Rowntree.

236 Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2012). *Datganiad Ysgrifenedig ar y Cyflog Byw yng Ngwasanaethau Cyhoeddus Datganoledig Cymru, 30 Mai 2012*. Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, Carl Sargeant AC. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2012). *Datganiad Ysgrifenedig – Cyflog Byw y DU yng Nghymru, 8 Tachwedd 2012*. Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, Carl Sargeant AC. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

237 Kenway, P. & Parekh, A (2011). Op. cit.

Cymorth gofal plant

Mae mynediad i ofal plant fforddiadwy, o ansawdd da yn elfen allweddol ym mhenderfyniad rhiant i gymryd a pharhau mewn gwaith.²³⁸ Yn ogystal, mae darpariaeth gofal plant fforddiadwy, hygyrch ac o ansawdd da yn cael ei ystyried yn gydran allweddol o TPAP Llywodraeth Cymru i gefnogi rhieni i mewn y gyflogaeth a gwella canlyniadau datblygiadol ar gyfer plant.²³⁹

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei gweledigaeth ar gyfer gofal plant yng Nghymru mewn Datganiad Polisi 2011 *'Magu Plant, Cefnogi Teuluoedd'*, fodd bynnag nid yw llawer o'r gweithredoedd a amlinellir wedi cael eu gweithredu eto.²⁴⁰ Dylid gweithredu strategaethau i gynyddu darpariaeth gyffredinol ar y cyd â gofal plant am ddim parhaus ac estynedig i bob plentyn 2-3 oed mewn ardaloedd wedi eu targedu'n ddaeryddol yn unol â *Dechrau'n Deg*. Mae argaeledd gofal plant presennol yn fylchog, gydag ymchwil yng Nghymru'n datgelu bwlch sy'n ehangu o ran argaeledd gofal plant rhwng ardaloedd lleiaf difreintiedig Cymru, gyda bylchau mewn gofal plant yn fwy tebygol o fod mewn ardaloedd difreintiedig a gwledig o Gymru.²⁴¹ Ceir bylchau parhaus hefyd yn y ddarpariaeth ar gyfer plant hyn ac ar gyfer plant yn ystod gwyliau ysgol, er gwaetha'r ffaith fod Deddf Gofal Plant 2006 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i sicrhau gofal plant digonol yn eu hardal.

Lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol

Maes allweddol lle gall Llywodraeth Cymru gefnogi teuluoedd a phlant yw ym maes datganoledig addysg. Mae cyrhaeddiad addysgol isel yn brif achos tlodi oedolion, gyda thlodi yn rheswm bwysicaf dros gyrhaeddiad addysgol isel.²⁴² O ran cymorth perthnasol, mae costau ychwanegol addysg a'r her gynyddol i rieni o fodloni costau sy'n gysylltiedig ag addysg fel teithiau ysgol, gwisg ysgol a phrydau ysgol wedi cael eu nodi'n barhaus fel elfennau sy'n rhoi pwysau ar deuluoedd incwm isel.²⁴³ Mae'r bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng disgyblion difreintiedig a'u cyfoedion mwy cefnog yn broblem barhaus a chynyddol yng Nghymru.²⁴⁴ Mae cyllid ar gyfer ysgolion trwy'r *Grant Amddifadedd Disgyblion* a'r *Grant Effeithiolrwydd Ysgolion* a chyllid ychwanegol *Cymunedau yn Gyntaf* wedi cael eu dyrannu i gefnogi'r nod o gau'r 'bwlch tlodi' mewn addysg. Yn ogystal, mae *Dechrau'n Deg* a'r *Cyfnod Sylfaen* yn sbardun polisi allweddol sy'n rhoi dechrau gwell i addysg plant yng Nghymru.

Mae ymchwil ddiweddar wedi dadlau y gellir dod o hyd i atebion ar gyfer lleihau'r bwlch tlodi mewn addysg mewn dulliau cyfannol sydd yn atgyfnerthu'r ddwy ochr, sydd yn uno ysgolion, rhieni a chymunedau²⁴⁵ a daeth cymorth i addysgu cymunedol i'r amlwg fel themau allweddol yn ystod ein sesiynau tystiolaeth. Fel rhan o hyn, dylai'r Llywodraeth roi canllawiau clir i ysgolion ac awdurdodau lleol ynghylch sut i ddefnyddio'r cyllid yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl a sefydlu system glir i fonitro ac adrodd yn rheolaidd ar y defnydd effeithiol o grantiau sydd wedi cael eu darparu.²⁴⁶ Mae angen i ysgolion hefyd gymryd cyfrifoldeb dros arweinyddiaeth yn y maes hwn a cheir enghreifftiau o arfer da ac adnoddau sydd wedi eu cyhoeddi i gynorthwyo ysgolion gyda'u hymgais.²⁴⁷

238 Whitham, G. (2012). *Op. cit.*

239 Llywodraeth Cymru (2012). *Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi. Op.cit.*

240 Llywodraeth Cymru (2011). *Magu Plant, Cefnogi Teuluoedd*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

241 Melyn Trust Consultancy (2010). *Analysis of the Supply of Childcare in Wales 2009*. Cymru: Melyn trust.

242 Egan, D. (2012). *Cymunedau, Teuluoedd ac Ysgolion gyda'i Gilydd: Llwybr i Leihau Effaith Tlodi ar Gyrhaeddiad Addysgol yn Ysgolion Cymrus*. Caerdydd: Achub y Plant.

243 Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru (2009). *Cost Addysg- Adnewyddu'r Alwad*. Caerdydd: Plant yng Nghymru; Sefydliad Bevan, NEA Cymru, Consumer Focus Cymru ac Achub y Plant. (2009). Talu'r Pris am fod yn Dlawd. Caerdydd: Sefydliad Bevan.

244 Egan, D. (2012). *Op.cit*

245 Ibid; Estyn (2011). *Mynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion: gweithio gyda'r gymuned a gwasanaethau eraill*. Caerdydd: Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

246 Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant (2012). *Tlodi Plant: Rhaglen Tuag at Ddileu 2012*. Caerdydd: Plant yng Nghymru.

247 Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru (2011). *Trechu Tlodi yng Nghymru: Canllaw Arfer Da i Ysgolion*. Caerdydd: Plant yng Nghymru; Estyn (2011). *Op.cit.*

Tai

Er bod Llywodraethau olynol Cymru wedi arwain o ran codi safonau, mae llawer gormod o blant yng Nghymru yn dal yn byw mewn llety o ansawdd gwael. Y teuluoedd tlotaf yn ardaloedd tlotaf Cymru sydd yn byw yn y tai gwaethaf yng Nghymru'n aml.²⁴⁸

Dylid cydnabod y cynigion a geir ym Mhapur Gwyn Tai 2012 Llywodraeth Cymru fel cam cadarnhaol ymlaen yn yr ymgais i gynyddu argaeledd tai fforddiadwy yng Nghymru, mynd i'r afael â digartrefedd a diwygio yn y Sector Rhentu Preifat.²⁴⁹ Mae'r cynigion yn cynnwys targed o 7,500 o gartrefi "fforddiadwy" newydd sydd i fod cael eu cyflenwi yn ystod tymor y Llywodraeth hon, yn cael eu croesawu ond efallai na fydd hyn yn ddigonol mewn hinsawdd o angen cynyddol. Mae rheoleiddio'r Sector Rhentu Preifat yn ddigonol yn hanfodol i ddiogelu amodau byw teuluoedd agored i niwed a cheir ymrwymadau yn y Papur Gwyn i ddeddfu ar gyfer cynllun cofrestru ac achredu gorfodol cenedlaethol ar gyfer landlordiaid, asiantau gosod a rheoli preifat, y mae'n rhaid eu gorfodi a'u rheoleiddio. Mae'r nod o ddileu digartrefedd teuluoedd erbyn 2019 yn amcan canmoladwy ond eto mae'n bwysig nad yw pobl ifanc sydd yn byw'n annibynnol ac na fyddent o reidrwydd yn cael eu cynnwys yn y model a ystyrir yn gyffredin fel model y 'teulu' yn syrthio drwy'r rhwyd.

Cynyddu incwm trwy gymorth perthnasol: cyfnod o gyfrifoldeb newydd i Lywodraeth Cymru.

Yn ogystal â newidiadau eang i'r system fudd-daliadau a chyflwyno Credyd Cynhwysol, mae Deddf Diwygio Lles y DU 2012 hefyd yn diddymu nifer o fudd-daliadau presennol, gan ddatganoli cyfrifoldeb dros nifer o ffynnonellau cymorth perthnasol i deuluoedd a phlant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru; gyda'r mwyaf arwyddocaol yn cynnwys cynlluniau disodli ar gyfer elfennau dewisol y Gronfa Gymdeithasol, Budd-dâl Treth Incwm a systemau newydd ar gyfer dyrannu budd-daliadau pasbort. Mae'r dirwedd yn ymwneud â threfniadau ar gyfer cynlluniau disodli yng Nghymru yn newid yn gyflym gan fod yn rhaid i gynlluniau disodli fod wedi eu sefydlu erbyn Ebrill 2013. Yn y cyd-destun hwn, nod yr adran hon yw rhoi trosolwg ynghylch beth fydd y newidiadau hyn yn ei olygu i Gymru.²⁵¹

Mae pryderon y gallai gosod cyfnodau byr i Lywodraeth Cymru ddylunio, gweithredu a chyflenwi system newydd ar gyfer yr holl fudd-daliadau hyn atal datblygiad y trefniadau disodli gorau posibl. Er y bydd costau gweinyddol ar wahân yn cael eu darparu i sefydlu a rhedeg y cynlluniau newydd, wrth ysgrifennu hwn, nid yw'r manylion gan Lywodraeth y DU wedi ymddangos.

Cronfa Gymdeithasol Cymru

Yn dilyn cyfnod o drafod ac ymgynghori²⁵² ym mis Tachwedd 2012, cyhoeddwyd y byddai Cronfa Gymdeithasol Cymru yn disodli'r hen un yn cael ei datblygu a'i chyflenwi ar gyfer Llywodraeth Cymru gan ddarparu'r annibynnol am ddwy flynedd o Ebrill 2013 ymlaen. Cafodd y Gronfa Cymorth Dewisol, sydd yn cynnwys dau grant (Taliadau Cymorth Unigol a Thaliadau Cymorth mewn Argyfwng) ei chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2013. Defnyddir y gronfa i helpu unigolion sy'n agored i niwed ac wedi eu hallgáu yn ariannol²⁵³. Amser a ddengys a fydd y Gronfa Cymorth

248 Llywodraeth Cymru (2012). Bwletin Ystadegol: Digartrefedd Ebrill-Mehefin 2012. Caerdydd: Ystadegau Cymru.

249 Llywodraeth Cymru (2012). *Cartrefi i Gymru: Papur Gwyn ar gyfer Bywydau Gwell a Chymunedau Gwell*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

251 Dylid nodi bod newidiadau pellach yn debygol o ddigwydd ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

252 Drakeford, M. & Davidson, K. (2012). *Abolishing the Safety Net*. Caerdydd: Sefydliad Bevan; Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2012). *Datganiad Llafar: Diweddariad ar y Gronfa Gymdeithasol, 10 Gorffennaf 2012*. Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, Carl Sargeant AC. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

253 Llywodraeth Cymru (2013). *Datganiad Ysgrifenedig – Trefniadau i weithredu Cronfa Cymorth Dewisol Llywodraeth Cymru o 1 Ebrill 2013*. Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, Carl Sargeant AC. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Dewisol newydd yn llwyddo i ddarparu rhwyd ddiogelwch i'r teuluoedd mwyaf agored i niwed yng Nghymru ond, wrth i feini prawf cymhwysedd gael eu llunio'n derfynol, rydym yn annog yr angen i roi blaenoriaeth amlwg i ystyried y grwpiau mwyaf agored i niwed, yn arbennig cartrefi â phlant sy'n byw mewn tlodi difrifol ac i sicrhau bod yr holl gamau posibl yn cael eu cymryd i sicrhau y gall y grwpiau mwyaf agored i niwed ddefnyddio'r gronfa.

Budd-daliadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru

Mae'n rhaid ystyried lleoleiddio'r dreth gyngor ynghyd â chyd-destun y gostyngiad o 10% yng ngwariant llywodraeth ganolog ar fudd-dal y dreth gyngor y mae llywodraeth y DU yn ei gynllunio. Mynegodd Gweinidog Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol ei 'bryder dwys' yngylch y toriad.²⁵⁴ Yn wreiddiol, mynegodd Llywodraeth Cymru mae nid oedd mewn sefyllfa i dalu am y diffyg mewn cyllid a chyhoeddodd reoliadau ynghylch gweithredu'r cynllun sy'n disodli'r hen un oedd yn nodi mai uchafswm y cymorth y gallai hawlwr cymwys ei gael oedd 90 y cant. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi newid ei safbwynt ar ôl hyn ac wedi cynyddu uchfaswm y cymorth o'r 90 y cant presennol i 100 y cant. Yn ystod 2013, bydd hawlwr yn cael y cymorth llawn y maent yn gymwys i'w gael ar gyfer eu biliau treth gyngor a chaiff y trefniant hwn ei ailasesu yn 2014.²⁵⁵

Budd-daliadau pasbort

Mae prydau ysgol, ac yn arbennig prydau ysgol am ddim, yn ffordd o leihau'r anghydraddoldebau iechyd sy'n cael eu hachosi gan ddeiet gwael. Yn ogystal, yng nghyd-destun Cymru, defnyddir bod yn gymwys am Brydau Ysgol am Ddim fel mesur procsi ar gyfer tlodi ac mae'n tanategu'r meini prawf ar gyfer llawer o grantiau a rhaglenni cymorth Llywodraeth Cymru yn ogystal ag ystod eang o ddata ar gyrhaeddiad addysgol, sydd wedi cael eu datblygu dros nifer o flynyddoedd. Er mwyn parhau i ddarparu prydau ysgol am ddim, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan y byddai'n dod o hyd i ffordd arall o bennu hawl sydd yn cyd-fynd â'r system Credyd Cynhwysol mewn ymateb i'r 'diwygiadau lles radical' hyn.²⁵⁶ Fodd bynnag, mae manylion y ffordd y bydd y Credyd Cynhwysol yn gweithredu yn dal i gael eu datblygu ac mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi pryder yn ymwneud ag oedi o ran derbyn data digon manwl ar lefel Cymru er mwyn caniatáu asesiad llawn o effaith y meini prawf cymhwysedd newydd ac i gefnogi datblygu system hawl newydd cyn Ebrill 2013. Ar adeg ysgrifennu hwn, roedd manylion y trefniadau ar gyfer Cymru heb gael eu cyhoeddi eto.

Casgliad

I ddechrau, yn y blynyddoedd er 2008, cafwyd cynnydd sylweddol yn blaenoriaethu tlodi plant gyda chytundeb ar lefel y DU o darged ar draws y pleidiau i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Pwysleisiodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad cryf i'r targed hwn, gan gyhoeddi ystod o strategaethau allweddol a deddfwriaeth i weithio tuag at ei gyflawni. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd rhaglen gynilo Llywodraeth y DU yn cynyddu tlodi plant yn sylweddol ar draws y DU gyda theuluoedd a phlant yng Nghymru'n cael eu heffeithio'n sylweddol iawn. Nawr, yn fwy nag erioed, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod digon o adnoddau'n cael eu dyrannu i drechu tlodi plant a'i bod yn cymryd pob cam o fewn ei gallu (trwy gymorth perthnasol a rhaglenni cymorth yn ogystal â chyfrifoldebau newydd ar gyfer budd-daliadau) i leddfu'r pwysau ar deuluoedd. Mae'n rhaid i dlodi plant ac ymagwedd hawl plentyn barhau'n

254 Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2013). *Datganiad Ysgrifenedig: Cymorth ar gyfer y Dreth Gyngor, 17 Ionawr 2013*. Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2012). *Y Cofnod, 19 Rhagfyr 2012*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

255 Llywodraeth Cymru (2013). *Datganiad Ysgrifenedig: Cymorth ar gyfer y Dreth Gyngor*. Op.cit.

256 Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2012). *Datganiad Ysgrifenedig: Effaith Diwygiadau Lles Llywodraeth y DU: Diwygiadau i Fudd-daliadau Pasbort Llywodraeth Cymru a Deddfwriaeth Arall, 8 Hydref 2012*. Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau: Carl Sargeant AC. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

ganolog o fewn y *Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi* ehangach ac mae'n rhaid rhoi mwy o bwys ar fesur a chyflenwi canlyniadau'n ymwneud â thlodi plant yn ogystal â monitro effaith diwygio lles ar blant a theuluoedd yng Nghymru.

Argymhellion allweddol

Dylai Llywodraeth y DU:

- Ailystyried pob penderfyniad polisi y rhagwelwyd y byddai'n cael effaith negyddol yn cynyddu tlodi plant ac a fyddai'n gwrthio teuluoedd i fwy o dlodi.
- Sicrhau bod 'uchafswm yr adnoddau sydd ar gael' yn cael eu defnyddio i fynd i'r afael â thlodi plant a bod pob ymdrech yn cael ei ddwysáu er mwyn bodloni rhwymedigaethau statudol yn unol â'r Ddeddf Tlodi Plant.

Dylai Llywodraeth Cymru:

- Ddwysáu'r trefniadau a'r gwaith o fonitro effaith diwygio lles a thoriadau gwariant ar lefelau tlodi plant yng Nghymru a chymryd pob cam angenrheidiol, trwy gymorth perthnasol a rhaglenni cymorth, i leddfu'r effaith negyddol ar y plant hynny y mae angen cymorth arnynt fwyaf.
- Dyrannu 'uchafswm yr adnoddau sydd ar gael' i ddileu tlodi plant, gyda phwyslais ar ymyriad ac ataliaeth gynnar, a chymryd pob cam rhesymol i gynyddu tryloywder gwariant cyhoeddus ar leihau tlodi plant.
- Archwilio ffyrdd o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch realaeth tlodi plant yng Nghymru er mwyn herio dimadaeth negyddol a rhagfarnllyd.
- Sicrhau bod gweithredu, strategaethau a deddfwriaeth i leihau tlodi plant yn cael eu sefydlu mewn ymagwedd hawliau plant a'u bod yn cael eu profi yn erbyn tlodi plant.
- Cydgysylltu rhaglenni a mentrau tlodi plant yn well er mwyn ffurfio rhaglen gydlynol, ynghyd â set glir o ddangosyddion cadarn i helpu'r cynnydd i gael ei olrhain ac sydd yn destun trefniadau monitro a gwerthuso cydlynol.
- Sicrhau bod Rhwymedigaethau Statudol yn unol â Rhan I o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) yn cael eu bodloni ar lefel leol yn unol â'r ymagwedd Cynllun Integredig Unigol newydd.
- Er bod cydnabod bod cyflogaeth yn llwybr allweddol allan o dlodi, datblygu gweithredoedd i fynd i'r afael â thlodi mewn gwaith a hyrwyddo gweithgareddau i gefnogi ymgysylltu â gwaith trwy hyfforddiant, gofal plant a chyflog byw.

Pennod Saith: Addysg, hamdden a gweithgareddau diwylliannol

Chwarae

Marianne Mannello, Chwarae Cymru



CRC/C/GBR/CO/4:69 Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Parti Gwladol yn cryfhau ei ymdrechion i sicrhau hawl y plentyn i orffwys a hamdden, i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae a hamdden sy'n briodol i oed y plentyn a chymryd rhan mewn bywyd diwylliannol a'r celfyddydau. Dylai'r Parti Gwladol dalu sylw penodol i ddarparu gofod maes chwarae hygyrch i blant, yn cynnwys plant ag anableddau, i ymarfer eu gweithgareddau chwarae a hamdden.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru

Cefndir rhyngwladol

Ni wnaeth Arsylwadau terfynol CCUHP 2002 fynd i'r afael â hawl plant i chwarae. Mewn ymateb i hyn, dechreuodd y Gymdeithas Chwarae Ryngwladol (IPA) ar y gwaith o ofyn am Sylwadau Cyffredinol ar Erthygl 31 yng nghynhadledd dair blynedd IPA y byd a gynhaliwyd yn Hong Kong yn 2008. Buan y sefydlodd yr IPA grŵp o gydlofnodwyr rhyngwladol i'r cais. Cafodd adolygiad llenyddiaeth ei gomisiynu gan yr IPA a'i gyhoeddi gan Sefydliad Bernard van Leer²⁵⁷ yn 2010. Dechreuodd hyn y Prosiect Ymgynghoriadau Byd-eang²⁵⁸ oedd â phartneriaid mewn wyth o wledydd, a chafodd y canlyniadau eu cyflwyno mewn person i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig yng Ngenefa. Yng nghynhadledd IPA y byd a gynhaliwyd yng Nghaerdydd yn 2011, roedd yr IPA yn gallu cyhoeddi penderfyniad Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig i ddrafftio Sylwadau Cyffredinol ar Erthygl 31 a bod yr IPA wedi cael gwahoddiad i reoli'r broses ddrafftio. Sefydldd yr IPA gyfnodau a strwythur ar gyfer y Gweithgor rhyngwladol a 'chronfa o arbenigwyr' ar gyfer y gwaith drafftio. Derbyniodd Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru, y gwahoddiad i ymuno â'r Gweithgor rhyngwladol.

Chwarae i'r dyfodol – goroesi a ffynnu

Ym mis Gorffennaf 2011, cynhaliodd Chwarae Cymru 18fed cynhadledd y byd yr IPA yng Nghaerdydd. Roedd y gynhadledd yn cynnig pedwar diwrnod i rannu tystiolaeth, profiad ac arfer da gyda chydweithwyr ar draws y byd. Mynychodd 450 o gynadleddwyr o 37 o wledydd y gynhadledd. Derbyniodd Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones AC, Wobr Hawl i Chwarae y Gymdeithas Chwarae Ryngwladol (IPA) pan agorodd y gynhadledd ar 4 Gorffennaf 2011. Derbyniodd y Wobr ar ran yr holl bobl hynny yng Nghymru sydd yn gweithio i wneud ein gwlad yn lle gwell i blant sydd yn chwarae.

Rhoddir y wobwr i brosiectau arloesol o amgylch y byd sy'n cefnogi hawl plant i chwarae – fe'i cyflwynir bob tair blynedd yng nghynhadledd y byd. Cymru yw'r wlad gyntaf erioed i dderbyn y Wobr Hawl i Chwarae. Rhoddwyd y Wobr i gydnabod y cynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud yn deddfu i gynnal hawliau plant - ac yn arbennig eu hawl i chwarae.

²⁵⁷ Lester, S a Russell, W (2010) *Children's Right to Play: An examination of the importance of play in the lives of children worldwide*. Sefydliad Bernard van Leer

²⁵⁸ Cymdeithas Chwarae Ryngwladol (2010) Adroddiad Ymgynghoriadau Byd-eang yr IPA ar Hawl Plant i Chwarae

Deddfwriaeth a pholisi

Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i wneud cynnydd sylweddol yn bodloni ei hymrwymiad yn unol ag Erthygl 31, yn arbennig yn ymwneud â chwarae plant. O fewn cyd-destun y DU, mae Llywodraeth Cymru'n parhau i fod o flaen gwledydd eraill o ran y camau y mae wedi eu cymryd i gyflenwi ei ymrwymiad i chwarae fel sy'n cael ei gyfleu yn ei *Pholisi Chwarae*²⁵⁹, cenedlaethol, *Cynllun Gweithredu Polisi Chwarae*²⁶⁰ a'r *Rhaglen Lywodraethu*²⁶¹. Yn arbennig, mae Adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn rhoi dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant yn eu hardal.

Mae pwysigrwydd darparu ar gyfer chwarae hefyd wedi cael cyfeiriad yn *Creu Cymru Egniol*,²⁶² y cynllun gweithgaredd corfforol cenedlaethol. Roedd Chwarae Cymru yn rhan o grŵp o randdeiliaid allanol, a oedd yn cefnogi datblygiad *Creu Cymru Egniol* sy'n rhoi cyngor arbenigol i'r Gweinidog Treftadaeth er mwyn helpu i sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu'n effeithiol.

Yn ogystal, mae *Strategaeth Tlodi Plant Cymru*²⁶³ yn nodi'r hawl i chwarae a'i gyfraniad i ddatblygiad a chadernid plant, gan ddatgan bod Llywodraeth Cymru yn ystyried bod chwarae yn elfen hanfodol o ddatblygiad plant ac yn rhywbeth sydd yn gallu rhoi ffactor amddiffynnol iawn i fywydau plant.

Dyletswydd Cyfleoedd Chwarae Digonol

Daw'r Ddyletswydd Cyfleoedd Chwarae Digonol fel rhan o agenda Llywodraeth Cymru yn erbyn tlodi sy'n cydnabod y gall plant ddioddef tlodi o ran profiad, cyfle ac uchelgais, ac y gall y math hyn o dlodi effeithio ar blant o bob cefndir cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ledled Cymru.

Dechreuodd y Gorchymyn²⁶⁴ sydd yn rhoi grym i adran 11(1) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, sydd yn ei wneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol asesu a oes digon o gyfleoedd chwarae i blant yn ei ardal, ar 1 Tachwedd 2012. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gynnal Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a chwblhau Cynllun Gweithredu yn unol â chanllawiau statudol.²⁶⁵ Bydd Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn rhoi'r dystiolaeth angenrheidiol i awdurdodau lleol nodi bylchau mewn darpariaeth a datblygu cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â'r diffygion hyn. Bydd hyn yn helpu awdurdodau lleol i fodloni eu dyletswyddau er mwyn sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant, cyhyd â bo hynny'n rhesymol ymarferol. Y dyddiad cau ar gyfer cwblhau Asesiadau a Chynlluniau Gweithredu yw 1 Mawrth 2013. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y rhain cyn bod ail ran y Ddyletswydd, i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol, yn dechrau.

Er mwyn cefnogi awdurdodau lleol i gynnal Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, mae Chwarae Cymru a Llywodraeth Cymru, ar y cyd â darparwyr chwarae ledled Cymru, wedi creu pecyn cymorth.²⁶⁶ Mae'n rhoi cymorth i bob awdurdod lleol i gyflawni eu dyletswyddau fel y nodir yn Rheoliadau Asesu Cyfleoedd Chwarae Digonol (Cymru) 2012.

Er mwyn cael cymdeithas sydd yn creu cyfle i chwarae sydd yn cynnig ystod eang o gyfleoedd chwarae a hamdden, mae angen i'r holl bartneriaid yn y gymuned gydweithio at y diben hwn. Mae

259 Llywodraeth Cymru (2002) *Polisi Chwarae*

260 Llywodraeth Cymru (2006) *Cynllun Gweithredu Polisi Chwarae*

261 Llywodraeth Cymru (2011) *Rhaglen Lywodraethu*

262 Llywodraeth Cymru (2009) *Creu Cymru Egniol*

263 Llywodraeth Cymru (2011) *Strategaeth Tlodi Plant Cymru*

264 Llywodraeth Cymru (2012) *Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Dechrau Rhif 5) 2012*

265 Llywodraeth Cymru (2012) *Creu Cyfle i Chwarae – Canllawiau Statudol i Awdurdodau Lleol ar asesu a oes digon o gyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd*

266 Llywodraeth Cymru (2012) *Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae*

Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i gydnabod pwysigrwydd chwarae ym mywydau plant a gwneud ymrwymiad cadarn i weithio'n ddiwyd o fewn eu strwythurau eu hunain, gyda sefydliadau partner, plant a'u teuluoedd a chymunedau er mwyn sicrhau bod gan blant fynediad i'r cyfleoedd chwarae y maent yn eu disgwyl a bod ganddynt hawl i'w disgwyl.

Mae arwyddion cynnar gan awdurdodau lleol a'u partneriaid yn awgrymu bod y ddyletswydd i gynnal Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae wedi

- Codi proffil chwarae yn lleol
- Caniatáu cysylltu cynlluniau lleol (fel cynlluniau Diogelwch ar y Ffyrdd a chynlluniau Creu Cymru Egniol lleol) â strategaethau chwarae
- Meithrin cysylltiadau adrannol cryfach rhwng swyddogion llywodraeth leol.²⁶⁷

Gwranddo ar blant

Yn ystod haf 2009, cynhaliodd Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru brosiect cyfranogiad o'r enw *'It's all about you'*. Gofynnwyd i blant a phobl ifanc lenwi papur pleidleisio yn amlinellu'r materion yr oeddent yn credu y dylai'r Pwyllgor ymchwilio iddynt yn y dyfodol. .

Tri phryder pennaf y pleidleiswyr ifanc oedd:

- Yr amgylchedd
- Mannau diogel i chwarae a chymdeithasu; a
- Phryderon am arian.

Cyfeiriodd y Pwyllgor y mater cyntaf a'r olaf i Bwyllgorau eraill y Cynulliad. Yna cytunodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i gynnal ymchwiliad i ddarparu manau diogel i chwarae a chymdeithasu yng Nghymru er mwyn gwneud argymhellion ynghylch sut y gallai Llywodraeth Cymru wella'r ddarpariaeth. Byddai cyfran fwyaf y materion ychwanegol a amlygwyd trwy'r bleidlais – *'ofn pobl eraill' a 'sbwriel a fandaliaeth'* – yn cael eu cynnwys yn yr ymchwiliad.

Cafodd yr ymchwiliad ei lansio ym mis Rhagfyr 2009. Cyhoeddodd y Pwyllgor holiadur wedi ei anelu at blant a phobl ifanc er mwyn gwneud ymholiadau am eu profiadau a'u hofnau wrth ddefnyddio cyfleoedd i chwarae a/neu gymdeithasu. Ymgysylltodd y Pwyllgor hefyd â phlant a phobl ifanc trwy weithdai, cyfarfodydd ac ymweliadau â phrosiectau chwarae. Galwodd y Pwyllgor hefyd am dystiolaeth ysgrifenedig gan randdeiliaid allanol a chynhaliodd wyth sesiwn casglu dystiolaeth, gan gael dros 11 awr o dystiolaeth lafar gan ystod eang o bartïon a diddordeb.

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei argymhellion yn dilyn yr ymchwiliad ym mis Tachwedd 2010.²⁶⁸ Mae'r adroddiad yn cynnwys rhestr o 26 o argymhellion yn cynnwys meysydd fel blaenoriaeth strategol chwarae, trafnidiaeth a diogelwch ar y ffyrdd, cynllunio trefol ac anghenion grwpiau penodol o blant a phobl ifanc. Gofynnodd y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru sefydlu'r ffordd y mae'n bwriadu cyflawni'r newidiadau y mae'r adroddiad yn eu hargymhell ac awgrymodd yr ymateb bod y rhan fwyaf o'r argymhellion a geir yn yr adroddiad yn cyd-fynd yn agos â chyfeiriad polisi presennol Llywodraeth Cymru a bod y gwaith o weithredu llawer ohonynt eisoes ar waith ac y byddent yn debygol o gael

²⁶⁷ (Ionawr 2013) Proses adrodd Cyrff Anllywodraethol Rhwydwaith Chwarae Strategol Cymru Gyfan

²⁶⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2010) *Darparu manau Diogel i Chwarae a Chymdeithasu Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

eu trin trwy ddarparu Canllawiau Statudol ar gyfer Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.²⁶⁹ .
Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad, cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor bryd hynny, sef Helen Mary Jones, AC, drafodaeth fer yn y Cynulliad: *Yr Hawl i Chwarae*.²⁷⁰

Dyrannu adnoddau, datblygu seilwaith a datblygu'r gweithlu

Am y 12 mlynedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu darpariaeth chwarae yn uniongyrchol, yn benodol darpariaeth chwarae â staff, trwy Grant Chwarae, Thema Chwarae Cymorth, ac ar hyn o bryd, trwy raglen ariannu *Teuluoedd yn Gyntaf*.²⁷¹

Yn 2006, darparwyd £1m ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i Bartneriaethau Fframwaith ddarparu cyfleusterau ar gyfer plant anabl. Mae'r cyllid hwn wedi parhau ac mae gan ffrwd ariannu bresennol *Teuluoedd yn Gyntaf* bwyslais ar chwarae ar gyfer plant anabl ar draws y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru.

Rhaglen Chwarae y Gronfa Loteri Fawr oedd un o ddwy raglen yn unol â Menter Teuluoedd lach yng Nghymru. Ei nod oedd:

- Datblygu mannau chwarae newydd ar gyfer plant yn eu cymunedau
- Datblygu cyfleoedd chwarae sy'n galluogi plant i ddewis y ffordd y maent yn chwarae
- Datblygu cyfleoedd chwarae mynediad agored â staff.

Darparodd y Gronfa Loteri Fawr £13 miliwn ar gyfer nifer cyfyngedig o brosiectau strategol. Mae Cylch 1 o'r rhaglen wedi gweld deg cymdeithas chwarae ranbarthol yn y sector gwirfoddol yn cael eu datblygu – sy'n golygu, am y tro cyntaf, bod cymdeithasau chwarae ym mhob cwr o Gymru. Gyda'i gilydd maent yn ffurfio seilwaith.

Canfu gwerthusiad bod y prosiectau ar y cyfan yn effeithiol yn datblygu gallu cymdeithasau a rhwydweithiau chwarae ar draws Cymru. Mae'n awgrymu bod hyn yn cael ei gyflawni trwy seilwaith hyfforddiant mwy proffesiynol, a chreu 'llais' cryfach ar y cyd i lobio ariannwyr a gwneuthurwyr polisiau posibl. Daeth y gwerthusiad i'r casgliad bod y rhaglen yn hyrwyddo cyfleoedd chwarae mynediad agored sy'n cael eu harwain gan y gymuned mewn ffordd sy'n ategu ac yn ychwanegu gwerth i ddarpariaeth statudol. Yn ogystal, dangosodd y prosiectau hygyrddedd cymdeithasau chwarae o ran cyflenwi gwasanaethau lleol ar sail sydd wedi ei chomisynu.²⁷²

Cyfrannodd Cylch 2 o'r rhaglen Chwarae Plant at ddatblygu deg prosiect gwaith chwarae peripatetic rhanbarthol, gan ddarparu cyfleoedd chwarae cynhwysol, am ddim, wedi eu staffio lle nodwyd bod plant a phobl ifanc eu hangen fwyaf – yn eu cymunedau. Mae wedi ei brofi bod y model darpariaeth hwn yn y gymuned yn mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau y mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu wrth gael mynediad i fannau i chwarae yn eu cymuned. Mae'r model hwn yn annog plant i wneud mwy o ddefnydd o barciau a mannau agored, gan leihau ofn plant ynghylch bwlio a sicrhau bod mannau chwarae yn gynhwysol – sy'n cefnogi pob plentyn i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael yn ei ffordd ei hunan.

269 Llywodraeth Cymru (2011) Ymateb Ysgrifenedig i Adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar yr Ymchwiliad i Ddarparu Mannau Diogel i Chwarae a Chymdeithasu

270 Mae trawsgrifiad o'r drafodaeth ar gael yn: <http://assemblywales.org/bus-home/bus-third-assembly/bus-chamber/bus-chamber-third-assembly-rop.htm?act=dis&id=203895&ds=11/2010> [defnyddiwyd 15 Ionawr 2013]

271 Chwarae Cymru (2003, 2006, 2009, 2011) *Adolygiadau Cyflwr Chwarae*

272 Ecotec Research and Consulting (2010) *Evaluation of the Child's Play Programme in Wales*

Mae'r twf yn y sector gwaith chwarae yng Nghymru wedi arwain at well dealltwriaeth o chwarae plant, gyda'r rhan fwyaf o brosiectau gwaith chwarae yn defnyddio damcaniaeth chwarae gyfredol (y cyfeirir ati yn *Play for a Change*²⁷³) wrth ymarfer. Ymddengys bod hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y cyfleoedd chwarae sydd ar gael i blant mewn cymunedau lleol.²⁷⁴

Mae Chwarae Cymru wedi cael cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu cyfres o gymwysterau, Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P3) i fodloni anghenion chwarae pob plentyn yng Nghymru a phawb sydd yn gweithio lle mae plant yn chwarae. Mae cyrsiau Lefel 2 a 3 ar gael fel cymwysterau ar Fframwaith Credydau Cymwysterau, wedi eu hardystio gan SkillsActive ac yn cael cyfradd gyrhaeddiad o 80%.²⁷⁵ Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cefnogi SkillsActive trwy Raglen Cronfa Flaenoriaeth Sgiliau Sector i ddatblygu darnau olaf y jig-so, deunydd cymorth i ddysgwyr ar gyfer Tystysgrif a Diploma Lefel 3.

Yn 2007, ariannodd Llywodraeth Cymru Chwarae Cymru i ddatblygu Canolfan Genedlaethol Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae yng Nghymru – Gwaith Chwarae Cymru. Roedd yn cefnogi'r sector gwaith chwarae i gyflenwi gwasanaethau o ansawdd i blant. Mae datblygiad a gwaith Gwaith Chwarae Cymru wedi galluogi'r sector i ddefnyddio dull cydgysylltiedig o gyflenwi hyfforddiant a chymwysterau, gan fanteisio ar fuddsoddiad a gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael.

Gweithiodd Gwaith Chwarae Cymru mewn partneriaeth â SkillsActive, i gyflenwi'r amcanion y cytunwyd arnynt yn y Cytundeb Sgiliau Sector a *Quality Training, Quality Play, 2006-2011*, Strategaeth y DU ar gyfer Addysg, Hyfforddiant a Chymwysterau Gwaith Chwarae. Yn ystod gwanwyn 2009, darparwyd cyllid interim Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflenwi cymwysterau Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith Lefel 2 yng Nghymru. Yn anffodus, ni fu'n bosibl parhau â'r cyllid ar gyfer y prosiectau hyn. I'r perwyl hwnnw mae Chwarae Cymru bellach yn datblygu ac yn cyflenwi cymwysterau gwaith chwarae fel rhan o'i waith craidd, a ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r cydweithredu rhwng yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) a'r Fforwm Diogelwch Chwarae (y mae Chwarae Cymru yn aelod ohono), sydd wedi datblygu a chyhoeddi Datganiad Lefel Uchel ar y cyd ar chwarae.²⁷⁶

Materion sy'n peri pryder

Er bod Llywodraeth Cymru yn amlwg wedi cymryd camau i gyflenwi ei hymrwymiad i chwarae plant, nid oes digon o adnoddau'n cael eu neilltuo i fonitro a gwerthuso effaith y mentrau ehangach. Yn arbennig, ceir hanes o ganllawiau aneffeithiol ar gyfer ariannu rhaglenni. Mae hyn yn aml wedi arwain at gamddehongli wrth wneud penderfyniadau ar lefel leol, sydd yn cael ei ddwysáu yn aml gan ddiffyg tryloywder. Mae tystiolaeth anecdotaidd sy'n awgrymu na chafodd mentrau ategol fel cyllid Canolfan Integredig i Blant, *Cymunedau yn Gyntaf* ac Ysgolion Bro eu defnyddio yn y ffordd orau yn ymwneud â chwarae plant.²⁷⁷ Yn anffodus, ymddengys bod y diffyg canllawiau clir a chryno, wedi ei ategu gan graffu cadarn ar lefel genedlaethol, wedi arwain at ragdybiaethau a bwriadau da ar lefel polisi cenedlaethol sydd ddim yn cael eu gwireddu ar lefel leol.

Yn fwyaf diweddar, mae'r newid ym mlaenoriaeth cyllid y Llywodraeth sydd wedi arwain at ffrwd ariannu unedig Cymorth yn cael ei gynnwys yn *Teuluoedd yn Gyntaf* wedi arwain at fwlch sylweddol mewn cyllid ar gyfer darpariaeth chwarae ar draws Cymru. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r heriau o ganlyniad wedi cael eu datrys, ond mewn rhai achosion mae hyn wedi arwain at ostyngiad eang yng nghyllid y Llywodraeth sy'n cael ei ddefnyddio i gefnogi darpariaeth chwarae.

²⁷³ Lester, S a Russell, VV (2008) *Play for a Change – Play, Policy and Practice: A review of contemporary perspectives*. Play England

²⁷⁴ (Ionawr 2013) Gweithdy proses adrodd Cyrff Anllywodraethol Rhwydwaith Chwarae Strategol Cymru Gyfan

²⁷⁵ Chwarae Cymru (2012) *Cyfraddau Cyrhaeddiad Cymhwyster Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P3)*

²⁷⁶ Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (2012) *Chwarae a hamdden plant: hyrwyddo agwedd gytbwys*

²⁷⁷ Chwarae Cymru (2003, 2006, 2009, 2011) *Adolygiadau Cyflwr Chwarae*

Yn anffodus, nid oes llawer o waith monitro wedi cael ei wneud ar effaith cymorth y Llywodraeth ar gyfer chwarae ac nid yw wedi cael ei werthuso erioed. Yn ogystal, mae diffyg gwerthusiad allanol Cymru gyfan o Gylch 2 o raglen Chwarae Plant y Gronfa Loteri Fawr wedi colli cyfle o ran gwella effaith y fenter ariannu hon ar fynediad plant i'w hawl i chwarae ar lefel leol.

Ar gyfer y dyfodol, bydd Chwarae Cymru, mewn partneriaeth â Phrifysgol Swydd Gaerloyw, yn cynnal ac yn ariannu ymchwil i ymatebion awdurdodau lleol i Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Bydd canfyddiadau'r ymchwil yn llywio gwaith Chwarae Cymru yn y dyfodol yn ymwneud â deddfwriaeth a dyletswyddau. Mae cyllid ychwanegol yn cael ei geisio ar gyfer ail gam i werthuso effaith y ddyletswydd i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol.

Er bod y Cyfnod Sylfaen wedi cyfrannu at ddealltwriaeth well yn lleol o bwysigrwydd chwarae plant, ymddengys bod gormod o bwyslais ar rôl chwarae wrth ddysgu i fodloni agenda addysg, yn hytrach na mater yn seiliedig ar hawliau mewn ysgolion.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi cefnogi Chwarae Cymru, fel aelodau o'r Fforwm Diogelwch Chwarae, i ddatblygu a chyhoeddi'r Datganiad Lefel Uchel ar y cyd, mewn cydweithrediad â'r HSE, mae pryder nad yw Llywodraeth Cymru wedi ardystio a mabwysiadu'r HLS eto.

Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau chwarae (yn y sectorau statudol a gwirfoddol) wedi eu hariannu gan grantiau. Mae'r diffyg ariannu craidd ar gyfer chwarae plant wedi arwain at amser ac egni swyddogion allweddol yn cael ei ddefnyddio'n aml i ysgrifennu ceisiadau yn hytrach na datblygu neu gyflenwi gwasanaethau chwarae.

Argymhellion allweddol

Dylai Llywodraeth Cymru:

- Ymrwymo i ddechrau Rhan 2 o'r Ddyletswydd Cyfleoedd Chwarae Digonol yn amserol, fel y mae wedi ymrwymo i wneud yn y Rhaglen Lywodraethu, fydd yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau cyfleoedd chwarae diogel ar gyfer plant er mwyn cynnal y momentwm a'r ymrwymiad a welir ar lefel awdurdod lleol ar hyn o bryd.
- Nodi cyllid wedi ei neilltuo ar gyfer cyflenwi cymwysterau gwaith chwarae lefel 2 a 3 ac ar gyfer ailsefydlu cymorth ar gyfer datblygu'r gweithlu chwarae.
- Parhau i weithio gyda phartneriaid allanol, fel Chwarae Cymru, er mwyn craffu ar enillion Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.
- Sicrhau dull ar draws adrannau wrth ymateb i ganfyddiadau'r enillion Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.
- Cefnogi ymchwil barnaus, yn arbennig ail gyfnod datblygu ymchwil ar y prosiect cyfredol rhwng Chwarae Cymru a Phrifysgol Swydd Gaerloyw, fydd yn rhoi sylw i'r ffyrdd y mae awdurdodau lleol yn sicrhau cyfleoedd chwarae digonol.
- Ardystio a mabwysiadu *Managing Risk in Play Provision: Implementation Guide*²⁷⁸, sy'n cael ei olygu ar hyn o bryd i ddileu'r cyfeiriad at bolisiau blaenorol llywodraeth y DU, a ddiwddarwyd gyda'r HLS a'i ailgyhoeddi.
- Ystyried ffyrdd o gynnal y twf mewn darpariaeth gymunedol sy'n cael ei hariannu ar hyn o bryd gan raglen Chwarae Plant y Gronfa Loteri Fawr.
- Adolygu'r holl strategaethau cenedlaethol presennol ac, yn arbennig, cynlluniau gweithredu i sicrhau bod yr holl weithredoedd, teimladau a'r graddfeydd amser yn ystyrlon.
- Gwneud y defnydd gorau o arbenigedd allanol a ddarperir gan Gyrff Anllywodraethol fel Chwarae Cymru, wrth ddatblygu polisiau neu raglenni a fwriadwyd i gefnogi neu hyrwyddo chwarae plant.

Pennod 8: mesurau amddiffyn arbennig

Camfanteisio'n rhywiol ar blant a masnachu mewn plant

Menna Thomas, Barnardo's Cymru



CRC/C/GBR/CO/4 para. 74: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Parti Gwladol yn dwysáu ei ymdrechion i gasglu data ar raddau camfanteisio a cham-drin plant yn rhywiol, sy'n hanfodol i baratoi ymatebion digonol i'r ffenomena hyn a brwydro yn eu herbyn, yn cynnwys y Tiriogaethau Tramor. Dylai'r Parti Gwladol bob amser ystyried, mewn deddfwriaeth ac ymarfer, plant sy'n ddiodef yr arferion troseddol hyn, yn cynnwys puteindra plant, fel dioddefwyr yn unig y mae angen adferiad ac ailintegreiddio arnynt yn hytrach na throseddwyr

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru

Sylwadau ar y cynnydd

Er 2007, pan gafodd adroddiad diwethaf Cyrff Anllywodraethol Cymru ei gyhoeddi, cafwyd gwelliannau sylweddol yn mynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE) yng Nghymru. Yn 2008, cafodd Protocol Cymru Gyfan ar gyfer Diogelu a Hyrwyddo Lles Plant sydd mewn Perygl o gael eu Cam-drin drwy Gamfanteisio Rhywiol ei gyhoeddi ac mae'n cael ei ddiweddarau ar hyn o bryd gan y Grŵp Adolygu Canllawiau Amddiffyn Plant (AWCPPRG) er mwyn sicrhau ei fod yn dal yn addas at y diben, ac yn cysylltu'n briodol â'r canllawiau statudol, a gyhoeddwyd yn 2011. Caiff y gwaith hwn ei gwblhau erbyn gwanwyn 2013. Yn 2011, cafodd Diogelu Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol – Canllawiau Atodol i Ddiogelu Plant: Cydweithio yn unol â Deddf Plant 2004 ei gyhoeddi.

Ym mis Mawrth 2011, comisiynodd Llywodraeth Cymru Barnardo's Cymru i gyflenwi hyfforddiant ar y canllawiau ar draws 4 Ardal Awdurdod yr Heddlu gyda phob Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn cynnig 10 lle i gefnogi dealltwriaeth a gweithredu. Yn 2012, cynhaliodd y Llywodraeth arolwg ar-lein fel rhan o adolygiad o'r Canllawiau Atodol i Ddiogelu Plant. Dangosodd hyn, ymysg 59 o'r 77 o ymatebwyr a gwblhaodd yr arolwg llawn, bod lefelau ymwybyddiaeth uchel o'r protocol a'r canllawiau, ond llai o hyder ei fod yn cael ei weithredu'n effeithiol.

Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Barnardo's Cymru i greu taflen codi ymwybyddiaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ar CSE.

Hyfforddi gweithwyr proffesiynol ac adnabod CSE

Mae llwyddiant yr uchod yn ddibynnol iawn, yn y lle cyntaf, ar ymarferwyr rheng flaen yn gallu adnabod yr arwyddion bod plentyn neu berson ifanc yn agored i ddiodef camfanteisio rhywiol neu fod hynny'n digwydd, ac ymateb yn briodol. Mae hyfforddiant cychwynnol Barnardo's a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru wedi arwain at fwy o ymwybyddiaeth o'r angen am fynediad gwell i hyfforddiant ar draws yr holl sectorau.²⁷⁹ 'Mae angen gwaith i sicrhau bod yr holl asiantaethau'n gallu adnabod camfanteisio rhywiol, cefnogi plant, a thynnu sylw at bryderon'²⁸⁰. Er bod gwelliant sylweddol o ran ymwybyddiaeth o'r mater hwn dros y pum mlynedd diwethaf, profiad ymarferol gwasanaeth CSE

²⁷⁹ Crynodeb o ganlyniadau arolwg Canllawiau Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Llywodraeth Cymru 2012

²⁸⁰ Out of Sight, Out of Mind; Breaking down the barriers to understanding child sexual exploitation/ CEOP Mehefin 2011

Barnardo's yw nad oes cysondeb o hyd o ran ymwybyddiaeth a gwybodaeth am arfer da, ac mae hyn hefyd yn ymestyn at ymwybyddiaeth o'r protocol a'r canllawiau.

Mae tystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r gwerthusiad o hyfforddiant Barnardo's yn awgrymu bod y dulliau hyfforddi yn dameidiog yng Nghymru, sydd yn adlewyrchu sefyllfa debyg yn Lloegr. *'Mae codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant yn dameidiog ac yn annigonol'*.²⁸¹

Roedd y sylwadau a wnaed gan ymatebwyr i arolwg Canllawiau CSE yn cefnogi'r sefyllfa hon. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y dylai hyfforddiant gael ei sefydlu yn hyfforddiant gorfodol cychwynnol a pharhaus gweithwyr proffesiynol allweddol yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, ymwelwyr iechyd, nyrsys ysgol, bydwragedd, yr heddlu ac eraill sydd â chyswllt rheolaidd â phlant, pobl ifanc a theuluoedd. Cafodd yr angen i reolwyr strategol a goruchwylwyr yn ogystal â'r holl staff rheng flaen a'r rheolwyr gael hyfforddiant ei amlygu hefyd. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y dylid darparu hyfforddiant i staff y sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol lleol hefyd sydd yn aml mewn swyddi allweddol o ran adnabod plant sy'n agored i ddioddef camfanteisio rhywiol a/neu'r rheiny y mae'n digwydd iddynt, yn gynnar.²⁸²

Dylai'r Byrddau Lleol Diogelu Plant fod yn gyfrifol am hyfforddiant gorfodol parhaus gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr allweddol y sector statudol a gwirfoddol ar lawr gwlad. Fodd bynnag, nododd Arolygiad ar y Cyd o Fwrdd Lleol Diogelu Plant gan AGGCC yn 2011 broblemau gyda sawl agwedd ar weithrediad Byrddau Lleol Diogelu Plant, yn arbennig diffyg llywodraethu ac atebolrwydd, absenoldeb fframwaith canlyniadau clir, ac absenoldeb trefniadau ariannu diogel. Yn ogystal, mae gwybodaeth gan Fyrddau Lleol Diogelu Plant yn cael eu dosbarthu i sefydliadau yn aml ac nid yn uniongyrchol i weithwyr proffesiynol allweddol.²⁸³ Yn y cynnig ar gyfer Bil Newydd Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sefydlu Bwrdd Diogelu cenedlaethol a sefydlu fframwaith canlyniadau newydd ar gyfer ei waith. Mae hwn yn cael ei ystyried fel cam blaengar.

Mae'n bwysig pan fydd achos o CSE yn cael ei adnabod bod ymarfer ac ymateb priodol, clir gan y gwasanaeth. Oni bai bod hyn yn digwydd neu ar gael mae perygl y bydd ymarferwyr yn colli ffydd yn y polisi a'r canllawiau sydd ar gael.²⁸⁴

Dull aml-asiantaeth

Ceir tystiolaeth glir bod yr ymateb mwyaf priodol ac effeithiol i CSE yn cynnwys dull aml-asiantaeth yn ddelfrydol *'cafodd unedau yn yr un lle, lle gall ymarferwyr allweddol o wasanaethau plant a'r heddlu gydweithio mewn tîm, eu nodi fel y 'math delfrydol'*²⁸⁵. Awgrymodd ymatebwyr i Arolwg Canllawiau Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant *'y gall timau aml-asiantaeth sy'n delio â honiadau CSE. Roi ymateb parhaus ar draws ardal'*.

Mae rhai enghreifftiau o waith aml-asiantaeth yn amlwg yng Nghymru e.e. Ymgyrch Artemis o dan arweiniad Heddlu Gwent a fforwm rhannu gwybodaeth a hyfforddiant aml-asiantaeth Gwent, a sefydlu'r Grŵp Niwed Rhywiol, cyfarfod aml-asiantaeth bob deufis ar gyfer ymarferwyr Byrddau Lleol Diogelu Plant yng Nghaerdydd. Galluogodd rhannu tystiolaeth ar draws asiantaethau a brofwyd trwy Ymgyrch Artemis gynnydd yng nghyfraddau colffarnu cyflawnwyr a mwy o gyfeiriadau ar gyfer y gwasanaeth CSE.²⁸⁶

281 S.Jago et al, What's Going On to Safeguard Children and Young People from Sexual Exploitation? How local partnerships respond to child sexual exploitation. Prifysgol Swydd Bedford 2011.

282 Crynodeb o Ganlyniadau Arolwg Canllawiau Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Llywodraeth Cymru: 2012

283 Inquiry into Local Safeguarding Children Boards. Health, Wellbeing and Local Government Committee. Tachwedd 2004

284 Ymateb i holiadur – BILI Caerdydd a'r Fro

285 S.Jago et al. What's Going On?, to Safeguard Children and Young People from Sexual Exploitation? How local partnerships respond to child sexual exploitation. Prifysgol Swydd Bedford, 2011

286 Inside Out. Kwaya-James E. Barnardo's 2012

Mae'r dystiolaeth gyffredinol, fodd bynnag, yn awgrymu nad yw dulliau aml-asiantaeth yn cael eu defnyddio'n gyson ar draws Cymru i fynd i'r afael â CSE, ac o'r rheiny sy'n bodoli, bydd angen datblygiad proffesiynol sylweddol er mwyn iddynt fod yn effeithiol.

Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau arbenigol yn dal yn allweddol i fynd i'r afael â'r broblem gyda phobl ifanc ar lawr gwlad²⁸⁷. Fodd bynnag, mae'r diffyg cyllid yn golygu nad oes digon o adnoddau i fodloni'r angen sy'n cael ei weld ar draws Cymru.

Data

Mae absenoldeb data da ar lefelau cenedlaethol a lleol ar broffil CSE a Masnachu mewn Plant yng Nghymru. Mae rhai awdurdodau'n casglu data, ond nid yw hyn yn gyson ar draws yr holl awdurdodau, ac nid yw'n gyson ar draws sectorau chwaith. Mae gwasanaeth Seraf Barnardo's yn casglu data yn ymwneud â'i gyfranogiad yn yr holl atgyfeiriadau a wneir, sy'n galluogi datblygu gwasanaeth mewn ffordd fwy deallus a'r gallu i olrhain newidiadau ym mhatrymau CSE a masnachu. Oni bai bod y mater hwn yn cael ei drin ar draws asiantaethau statudol, bydd cael darlun clir o raddfa'r broblem bob amser yn rhwystr i gynllunio da a chyflenwi gwasanaeth.

Mae tystiolaeth a gasglwyd yn ddiweddar gan wasanaethau CSE arbenigol Barnardo's ar draws y DU yn dangos bod CSE yn newid ac yn mynd yn fwy cymhleth gyda lefelau cynyddol o gamfanteisio ar gyfoedion, meithrin perthynas amhriodol ar-lein a masnachu domestig. Yng Nghymru, mae'r tueddiadau o ran lefelau cynyddol masnachu a chamfanteisio ar gyfoedion yn arbennig o gyffredin.

Camfanteisio'n rhywiol ar fechgyn

Mae camfanteisio'n rhywiol ar fechgyn hefyd yn fater sy'n peri pryder yng Nghymru. Mae Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr yn ddiweddar wedi cyhoeddi adroddiad interim ar ymchwil y maent wedi ei chomisiynu ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant mewn gangiau a grwpiau. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu diffyg adnabod, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar fechgyn gydag adroddiadau bod bechgyn yn dioddef camfanteisio'n dod yn bennaf o asiantaethau oedd yn edrych amdanynt *'lle'r oedd asiantaethau yn chwilio am fechgyn a dynion ifanc oedd yn ddioddefwyr, roedd yr hollt rhwng y rhywiau, er ei fod yn dal yn bresennol, yn llai amlwg'*²⁸⁸.

Roedd bechgyn oedd yn ansicr am eu hunaniaeth rywiol yn fwy tebygol o fod mewn perygl o gamfanteisio rhywiol. Nodwyd proses gymhleth o gamfanteisio lle'r oedd bechgyn yn cael eu paratoi at bwrpas rhyw a'u gorfodi i gynllwynio gydag oedolion sydd yn cam-drin trwy gael eu hanfon i *'baratoi merched a menywod ifanc at ddefnydd rhyw a chamfanteisio arnynt, cyn eu trosglwyddo i ddyn hŷn ... Byddai rhai yn cael rhoddion neu sylw, neu'n cael eu gorfodi i gyflawni troseddau gyda dynion hŷn. Byddai rhai yn cael eu gorfodi i gael rhyw gyda merched neu gyda'i gilydd. Mewn un enghraifft roedd tystiolaeth bod hyn wedi cael ei ffilmio a bod y ffilm wedi cael ei defnyddio at ddibenion rheoli.'*²⁸⁹ O ganlyniad i brofiadau o'r fath *'Roedd y panel yn bryderus bod y bechgyn a'r dynion ifanc hyn yn cael eu hadnabod fel pobl oedd yn cam-drin, heb roi ystyriaeth ddyledus i'r ffaith eu bod yn dioddef camfanteisio eu hunain'*²⁹⁰. Gan fod y mater hwn yn agos gysylltiedig â chamfanteisio ar gyfoedion, maes lle bu cynnydd amlwg yng Nghymru, rydym yn awgrymu bod hwn yn fater y mae angen ymchwilio ymhellach iddo a bod angen cynnal peilot o ddulliau gwahanol o gyflenwi gwasanaeth.

Roedd tystiolaeth hefyd o rôl cynyddol ganolog y cyfryngau cymdeithasu mewn camfanteisio'n rhywiol ar blant yn arolwg Barnardo's. Ar y cyfan ceir teimlad bod angen i ni weithredu'n gyflymach er mwyn cadw i fyny â'r newidiadau hyn er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon yn effeithiol.

²⁸⁷ Out of Mind, Out of Sight: Breaking down the barriers to understanding child sexual exploitation. CEOP Mehefin 2011

²⁸⁸ S.Berlowitz et al, 'I thought I was the only one. The only one in the world', The Office of the Children's Commissioner's Inquiry into Child Sexual Exploitation in Gangs and Groups'. Adroddiad Interim. Tachwedd 2012.

²⁸⁹ Fel uchod

²⁹⁰ Fel uchod



CRC/C/GBR/CO/4 para. 76: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Parti Gwladol yn darparu'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r Cynllun Gweithredu Atal Masnachu Mewn Pobl yn effeithiol. Mae hefyd yn argymhell bod y Parti Gwladol yn cadarnhau Confensiwn Ewrop ar Weithredu yn erbyn Masnachu mewn Pobl ac yn gweithredu ei rwymedigaethau trwy sicrhau bod safonau amddiffyn plant ar gyfer plant sy'n cael eu masnachu yn bodloni safonau rhyngwladol.

Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU a Chymru

Sylwadau ar y cynnydd

Cafodd Confensiwn Ewrop ar Weithredu yn erbyn Masnachu mewn Pobl ei gadarnhau ar 17/12/2008 a daeth i rym ar 01/04/2009. O ran Masnachu mewn Plant, cafodd canllawiau Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd i ategu *Gweithio gyda'n Gilydd: Diogelu Plant dan Ddeddf Plant 2004*, ei cyhoeddi yn 2008. Cynhyrchwyd Protocol Masnachu ym mis Medi 2011 gan AWCPPRG ac mae bellach yn rhan o Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Comisiynodd Llywodraeth Cymru ECPAT (Dileu Puteindra a Masnachu mewn Plant) i greu adnodd hyfforddiant ar-lein i ymarferwyr yn 2011. Penododd Llywodraeth Cymru Gydlynnydd Atal Masnachu Cymru Gyfan yn 2011.

Er gwaetha'r ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ymarfer ynghylch sut i fynd i'r afael â masnachu rhyngwladol mewn plant ac wedi comisiynu ECPAT i greu adnodd hyfforddiant ar-lein, nid oes llawer o dystiolaeth bod hyn wedi arwain at adnabod plant a phobl ifanc sy'n cael eu masnachu yng Nghymru yn well. Cyhoeddwyd y canllawiau cyntaf yn 2008 ond yn y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Medi 2011, dim ond 10 o blant oedd wedi eu masnachu a gafodd eu hadnabod yng Nghymru.²⁹¹

Mae'r rheiny sydd wedi ymateb i'r broses ymgynghori ar gyfer yr adroddiad hwn yn nodi bod cyfyngiadau o ran amser, adnoddau a chyllid yn esbonio'r diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth eang ynghylch masnachu, domestig a rhyngwladol. Fodd bynnag, mae masnachu mewn plant wedi ei leoli yn gadarn o fewn ymarfer amddiffyn a diogelu plant ac mae angen trin codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant yn y maes gwaith hwn yn gyfwerth â'r holl faterion eraill yn ymwneud ag amddiffyn a diogelu plant.²⁹²

Mae sicrhau argaeledd llety diogel ar gyfer oedolion sydd wedi dioddef masnachu wedi cynyddu'r potensial i roi cymorth priodol ac adsefydlu dioddefwyr. Fodd bynnag, nid oes unrhyw lety arbenigol diogel i ddioddefwyr masnachu mewn plant yng Nghymru.

Argymhellion allweddol

Dylai Llywodraeth Cymru:

- Wrth ffurfio elfen ddiogelu Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), sicrhau bod CSE a Masnachu mewn Plant wrth wraidd ymarfer amddiffyn a diogelu plant a bod angen strategaeth glir ar gyfer codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant parhaus ar gyfer staff ar draws yr holl asiantaethau perthnasol. Dylai fod gofyniad i sefydlu fframwaith canlyniadau sy'n gweithredu ar lefelau llywodraeth, lleol ac ymarfer a bod llinellau atebolrwydd clir ar gyfer hyn.

²⁹¹ Child Trafficking Update. CEOP Hydref 2011

²⁹² Heriau Masnachu mewn Pobl yng Nghymru: rhoi'r rethreg ar waith. Adroddiad gan y Ford Gron Strategol ar Fasnachu mewn Pobl ar gyfer y sector cyhoeddus. Cynhaliwyd gan Fforwm Rheng Flaen Atal Masnachu mewn Pobl Cyrff Anllywodraethol Cymru mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd. 2012

- Achub ar y cyfle trwy deddfwriaeth newydd, yn arbennig Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Bil Cam-drin Domestig (Cymru), i'w wneud yn ofynnol i'r Heddlu, Iechyd, Addysg ac awdurdodau lleol (ac Asiantaeth Ffiniau'r DU lle y bo'n berthnasol) gydweithio i rhannu gwybodaeth yn well, asesu a chynllunio yn well er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag CSE a masnachu a bod y cyflawnwyr yn cael eu herlyn.
- Defnyddio deddfwriaeth newydd sydd wedi ei chynllunio, yn arbennig Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) fel cyfrwng i sicrhau llety diogel i blant sydd wedi dioddef masnachu a bod y llety hwn yn cael ei gyflenwi yn unol ag egwyddorion llety diogel ECPAT
- Defnyddio deddfwriaeth newydd sydd wedi ei chynllunio, yn arbennig Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r Bil Cam-drin Domestig, i'w wneud yn ofynnol i'r heddlu, iechyd, addysg ac awdurdodau lleol (ac Asiantaeth Ffiniau'r DU lle y bo'n briodol) i gydweithio, o bosibl trwy drefniadau'r Bwrdd Diogelu newydd, i gydlyn prosesau casglu data effeithiol mewn perthynas â CSE a masnachu.
- Gwneud ymchwil a chynnal peilot i wasanaeth newydd i fodloni anghenion bechgyn a dynion ifanc y camfanteisir arnynt yn rhywiol.

Cyfiawnder yr Ifanc

Pat Dunmore, Simon Hoffman a Sue Thomas, Arsyllfa Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc Cymru



CRC/C/GBR/CO/4 para 78: Sefydlu system cyfiawnder yr ifanc sy'n cydymffurfio'n llawn â darpariaethau ac egwyddorion y Confensiwm a safonau rhyngwladol eraill.

Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU

Ni chafwyd unrhyw newid perthnasol yn sefyllfa Llywodraeth y DU yn ymwneud â chydymffurfio â CCUHP a chyfiawnder yr ifanc ers adroddiad y Parti Gwladol yn 2008. Mae cyfraith droseddol, cyfiawnder troseddol yn cyfiawnder yr ifanc yn faterion heb eu datganoli.

Ym mis Mai 2012, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, sy'n ei wneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i CCUHP wrth ymarfer eu swyddogaethau.²⁹³ O fis Mai 2014 bydd yn ofynnol ar Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i CCUHP, yn cynnwys ei ddarpariaethau ar gyfiawnder yr ifanc, wrth ymdrin â materion o fewn cymhwysedd Gweinidogion Cymru. Er 2008 mae Llywodraeth Cymru wedi caffael mwy o bwerau i gyflwyno deddfwriaeth. Fodd bynnag, mae cyfiawnder yr ifanc yn dal heb ei ddatganoli yng Nghymru. O ganlyniad, nid oes gan Lywodraeth Cymru'r pŵer i gyflwyno deddfwriaeth i ddiwygio'r system cyfiawnder yr ifanc yng Nghymru yn unig – hyd yn oed pan nad yw deddfwriaeth o'r fath yn gyson â CCUHP.

Mae angen diwygio Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan²⁹⁴ (AWYOS) a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2004, a'i gynllun cyflenwi ategol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyrdd yn 2012

²⁹³ Mae'n rhaid rhoi sylw dyledus i Ran 1 o CCUHP, ac erthyglau penodol o'r protocolau dewisol. Mae'r ddyletswydd i roi sylw dyledus yn cael ei gyflwyno mewn camau. O fis Mai 2012 mae'n rhaid i Weinidogion Cymru roi 'sylw dyledus' wrth ymarfer eu swyddogaethau yn ymwneud â: darpariaeth i gael ei gynnwys wrth ddeddfu; ffurfio polisi newydd; neu, adolygu neu newid i bolisi presennol. O fis Mai 2014 bydd y ddyletswydd i roi sylw dyledus yn berthnasol pan fydd Gweinidogion Cymru yn ymarfer unrhyw un o'u swyddogaethau.

²⁹⁴ Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid. (Gorffennaf 2004) *Strategaeth Troseddau Ieuencid Cymru Gyfan*. Caerdydd, LICC.

i ymgynghori ar gynigion i atal troseddau ymysg y rheiny sydd mewn perygl o fynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol.²⁹⁵ Mae hyn yn ceisio datblygu egwyddorion craidd yr AWYOS. Mae'r AWYOS yn cael ei ddylanwadu gan yr egwyddorion a ddiogelir yn CCUHP sy'n ymrwymo Llywodraeth Cymru i ymagwedd hawliau plant tuag at gyfiawnder yr ifanc. Dyma'r hyn sy'n cael ei awgrymu hefyd yn yr ymgynghoriad diweddar (mae hwn yn asesiad dros dro tan bod canlyniad yr ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi a bod yr argymhellion polisi yn hysbys).

Er nad yw'n gallu newid swm a sylwedd cyfiawnder yr ifanc yng Nghymru a Lloegr, ac yn fwy penodol yng Nghymru, Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i leihau troseddau ieuenctid ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a thrin plant sy'n cyflawni troseddau fel plant yn gyntaf ac fel troseddwy'r yn ail. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cyllid yng Nghymru i helpu i ddatblygu mentrau lleol i atal troseddau ieuenctid, a cheir rhywfaint o dystiolaeth o ymagwedd gwrthdymadrol ac ataliol yn ymwneud â hawliau plant ar lefel leol.²⁹⁶ Mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn y defnydd o ASBOs; canlyniad sydd yn gyson yn rhannol â'r argymhellion gan y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn y dylai Llywodraeth y DU ddiddymu'r ASBO.²⁹⁷

Yn ystod y cam hwn nid yw'n glir pa effaith y bydd Comisiynwyr newydd yr Heddlu a Throseddau²⁹⁸ yn ei gael ar gyfiawnder ieuenctid yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y Comisiynwyr yn cydnabod yr ymagwedd tuag at blant yng Nghymru, a'u bod yn gwneud blaenoriaethu atal troseddau ieuenctid yn un o'u prif amcanion, a bod cysondeb o ran ymagwedd.



CRC/C/GBR/CO/4 para 78a: Codi oedran gofynnol cyfrifoldeb troseddol yn unol â sylw cyffredinol Rhif 10 y Pwyllgor, ac yn arbennig paragraffau 32 a 33

Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU

Ers adroddiad y Parti Gwladol yn 2008, mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau na fydd oed cyfrifoldeb troseddol yn cael ei godi. Mae'n aros felly yn ddeg oed yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn erbyn argymhellion y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn yn Sylw Cyffredinol 100²⁹⁹ a'r pryderon a fynegwyd yn Arsylwadau Terfynol y Pwyllgor. Mae Llywodraeth y DU wedi cadw at ei safbwynt er gwaethaf lobio parhaus ar y mater gan elusennau plant a meddylwyr arweiniol ar faterion polisiâu plant, yn cynnwys: Maggie Atkinson, Comisiynydd Plant Lloegr;³⁰⁰ Barnardo's;³⁰¹ Cymdeithas Cenedlaethol Cyfiawnder Ieuenctid,³⁰² a'r Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol.³⁰³ Yng nghynhadledd y Democratiaid Rhyddfrydol ym mis Medi 2012, nododd yr Arglwydd Dholakia, Llywydd Nacro, ei fwriad i gyflwyno

295 Llywodraeth Cymru. (Medi 2012) *Cynigion i wella gwasanaethau yng Nghymru er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn rhan o'r System Cyfiawnder Ieuenctid, neu sydd eisoes yn rhan ohoni*. Papur Gwyrdd LIC15866

296 Gweler er enghraifft: Hoffman, S. a MacDonald, S, 2010. The Tiered Approach to Youth Anti-social Behaviour in Swansea, Adroddiad Ymchwil Ysgol y Gyfraith Prifysgol Abertawe.

297 CRC/C/GBR/CO/4 para 80.

298 Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn trosglwyddo rheolaeth lluoedd yr heddlu oddi wrth awdurdodau'r heddlu i Gomisiynwyr etholedig yr Heddlu a Throseddau. Cynhelir etholiadau cyntaf comisiynwyr yr heddlu ar 15 Tachwedd 2012, a phob pedair blynedd wedi hynny.

299 Sylw Cyffredinol Rhif 10 Comisiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2007) Hawliau Plant mewn Cyfiawnder yr Ifanc

300 Llyfrgell Tŷr Cyffredin 'The Age of Criminal Responsibility in England and Wales' SN/HA/3001, 18 Ebrill 2012.

301 Barnardo's, (2010) *From playground to prison: the case for reviewing the age of criminal responsibility*, Ilford: Barnardo's.

302 <http://www.guardian.co.uk/society/2012/dec/05/age-criminal-responsibility-childrens-rights>

303 Canolfan Cyfiawnder Cymdeithasol: Gweithgor Cyfiawnder Ieuenctid. (Ionawr 2012) *Rules of Engagement – changing the heart of youth justice*. Llundain: Canolfan Cyfiawnder Cymdeithasol

Bil Aelodau Preifat i godi oed btroseddol o 10 i 12 yng Nghymru a Lloegr. Cafodd Bil yr Arglwydd Dholakia ei ddarllen am y tro cyntaf yn Nhy'r Arglwyddi ar 16 Ionawr 2013. Nododd Crispin Blunt, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Carchardai a Chyfiawnder Ieuencid yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder bryd hynny, wrth lansio adroddiad y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol ar gyfiawnder ieuencid ar 16 Ionawr 2012, er bod y sail ar gyfer ei godi wedi ei chyflwyno'n dda, ni fyddai'n rhywbeth y byddai'r llywodraeth yn ei gefnogi.



CRC/C/GBR/CO/4 para 78b: Datblygu ystod eang o fesurau yn lle cadw plant sy'n gwrthdaro â'r gyfraith yn y ddalfa; a sefydlu'r egwyddor y dylid defnyddio cadw yn y ddalfa fel dewis olaf ac am gyfnod mor fyr â phosibl fel egwyddor statudol.

Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU

Er 2008, cafwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl ifanc o Gymru a gadwyd yn y ddalfa: o 143 ym mis Awst 2009,³⁰⁴ i 86 ym mis Gorffennaf 2012³⁰⁵. Un o'r prif resymau dros y gostyngiad hwn yw'r newidiadau i arferion yr heddlu: mae nifer y bobl ifanc sydd â gorchymyn llys ac yn y manau diogel³⁰⁶ wedi ei adlewyrchu yn y gostyngiad dilynol yn nifer y rheiny sy'n dod i mewn i'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf. Fodd bynnag, mae'r Howard League³⁰⁷ wedi tynnu sylw at gadw plant a phobl ifanc nad ydynt yn cael mechniaeth gan yr heddlu (y mwyafrif ohonynt yn cael eu rhoi ar fechniaeth i ymddangos gerbron llys), yn ddiangen, sy'n awgrymu bod hyn yn torri rheolau CCUHP sydd yn ei wneud yn ofynnol eu bod yn cael eu cadw yn y ddalfa am gyfnod mor fyr a phosibl, ac fel dewis olaf.

Mae dewisiadau amgen i gadw yn y ddalfa. Gwnaed goruchwyliaeth a gwyliadwraeth ddwys yn ofyniad yng ngorchymyn adsefydlu ieuencid (dedfryd cymunedol i ieuencid) ym mis Tachwedd 2009. Cyflwynodd Deddf Cymorth Cyfreithiol, Cosbi a Dedfrydu Troseddwy'r 2012 drefniadau remánd newydd o fis Rhagfyr 2012: un o'r rhain yw gwneud awdurdodau lleol yn gyfrifol am gostau remánd. Er ei bod yn rhy gynnar i ddweud, gallai hyn fod yn gymhellant i sicrhau bod dewisiadau amgen yn y gymuned yn cael eu sefydlu ar gyfer y rheiny lle mae'n debygol y caiff mechniaeth ei gwrthod.



CRC/C/GBR/CO/4 para 78c: Bod plant sydd yn gwrthdaro â'r gyfraith bob amser yn cael eu trin yn system cyfiawnder yr ifanc a byth yn cael eu profi fel oedolion mewn llysoedd arferol, waeth pa mor ddifrifol yw'r drosedd y maent wedi ei chyhuddo o'i chyflawni.

Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU

304 Morgan R (Rhagfyr 2009) *Report to the Welsh Assembly Government on the question of Devolution of Youth Justice Responsibilities*.

305 Youth Justice Board. Monthly Youth Custody Report Gorffennaf 2012 <http://www.justice.gov.uk/statistics/youth-justice/custody-data>

306 Bateman T (2012). *Children in Conflict with the Law: an overview of trends and developments - 2010/2011*. Cymdeithas Cenedlaethol Cyfiawnder Ieuencid (NAYJ).

307 Howard League (2011) *The Overnight Detention of Children in Police Cells* Llundain: Howard League

308 Cyflwyniad Cymdeithas yr Ynadon i Ymchwiliad Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Gyfiawnder Ieuencid yng Nghymru http://www.magistrates-association.org.uk/dox/consultations/1255515757_80_inquiry_into_youth_justice_wales_10.09.pdf?PHPSESSID=vbkeituu1k6c07r7128o3dc7p2

Ni chafwyd unrhyw newid mewn polisi er 2008 ac mae plant yn dal i gael eu cyflwyno gerbron llysoedd ynadon oedolion fel mater o drefn pan fyddant wedi eu cyhuddo gydag oedolyn, neu os nad oes llys ieuencid yn eistedd a gallant gael eu rhoi ar brawf yn y llys oedolion (y goron). Gallai arferion o'r fath gynyddu gyda'r gostyngiad yn nifer y llysoedd ieuencid a pha mor aml y maent yn eistedd.³⁰⁸ Effaith arall y gostyngiad mewn llysoedd ieuencid yw nad yw llysoedd ynadon ieuencid yn gallu cynnal eu lefel gwybodaeth ac arbenigedd, am nad ydynt yn eistedd mor aml er mwyn gallu cael profiad perthnasol.³⁰⁹

Gall ymddangos gerbron llys oedolion gael effaith sylweddol ar berson ifanc. Mae llysoedd ynadon ieuencid wedi cael hyfforddiant i ymdrin â phlant a phobl ifanc sy'n ymddangos mewn llys, ac mae ystod y penderfyniadau sydd ar gael i'r llys ieuencid yn gwahaniaethu o ran nifer a natur i'r rheiny yn y llys oedolion. Mae'r rhagdybiaeth o wahardd enwi unigolion sy'n ymddangos yn y llys ieuencid, nad yw'n rhagdybiaeth mewn llysoedd oedolion, yn diogelu hunaniaeth diffinyddion sy'n ieuencid. Yn ogystal, mae'r ffordd y mae'r trafodion yn y llys ieuencid yn cael eu cynnal wedi eu haddasu i fodloni anghenion pobl ifanc, i adlewyrchu lefel eu dealltwriaeth.³¹⁰

Nid yw swyddog ar ddyletswydd yn y llys y tîm troseddwy'r ifanc bob amser yn rhoi cymorth i bobl ifanc sy'n ymddangos yn y llys ar benwythnosau. Mae'n fwy arferol i dîm ar ddyletswydd brys yr awdurdod lleol ddarparu'r gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, efallai na fydd ganddynt yr un wybodaeth a'r arbenigedd o ran darpariaethau mechnïaeth a remánd â staff y tîm troseddwy'r ifanc, ac efallai na fyddant mor effeithiol â'r rheiny sy'n eirioli bod buddiannau plant yn cael eu hystyried yn gywir mewn trafodion a phenderfyniadau llys.



CRC/C/GBR/CO/4 para 78d: Yn dilyn tynnu'r amheuaeth ynghylch erthygl 37 (c) y Confensiwn yn ôl, sydd wedi cael ei groesawu, sicrhau bod pob plentyn sy'n colli ei ryddid yn cael ei wahanu oddi wrth oedolion, oni bai bod hynny er budd iddo/iddi.

Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU

Trwy rinwedd Deddf Cymorth Cyfreithiol, Cosbi a Dedfrydu Troseddwy'r 2012, ni fydd pobl ifanc 17 oed yn cael eu trin fel oedolion bellach at ddibenion remánd (o fis Rhagfyr 2012). Nododd y Llywodraeth Glymblaid mai'r bwriad y tu ôl i'r newid hwn yn y gyfraith yw gwneud trefniadau ar gyfer pobl ifanc 17 oed yn fwy 'cydnaws' â CCUHP.³¹¹ Er bod hwn yn gam cadarnhaol, mae'r Llywodraeth Glymblaid wedi cadarnhau na fydd yn newid y trefniadau ar gyfer pobl ifanc 17 oed pan fyddant yn cael eu harestio a'u cyhuddo o drosedd gan yr heddlu.³¹² Mae hyn yn creu amryfusedd o ran triniaeth pobl ifanc 17 oed yn y system cyfiawnder troseddol. Mae'r sefydliad elusennol *Just For Kids Law* wedi cael adolygiad barnwrol; bydd y llys bellach yn ystyried y ffordd y mae pobl ifanc 17 oed yn cael eu trin yn y ddalfa.³¹³

309 Nacro Cymru (2011) *Reducing Custody* Bridgend Llundain: Nacro

310 NCB a'r All Party Parliamentary Group for Children (Ionawr 2010) *Children and Young People in the Youth Justice System* Llundain: NCB

311 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2010a) *Breaking The Cycle: Effective Punishment, Rehabilitation and Sentencing of Offenders* Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

312 Cyfeiriad Hansard 16 Gorffennaf 2012 : Colofn 549W
<http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201213/cmhansrd/cm120716/text/120716w0004.htm>

313 http://www.cypnow.co.uk/cyp/news/1075246/judicial-review-examine-treatment-olds-police-custody?utm_content=&utm_campaign=081112_YouthJustice&utm_source=Children%20%26%20Young%20People%20Now&utm_medium=adestra_email&utm_term=http%3A%2F%2Fwww.cypnow.co.uk%2Fnews%2F1075246%2Fjudicial-review-examine-treatment-olds-police-custody

Pryder arall yw bod pum person ifanc o dan 18 oed wedi cael eu trosglwyddo i garchardai oedolion yn ystod 2011, a'r rheswm a roddwyd am hyn oedd i ddiogelu lles pobl ifanc eraill. Mae hyn yn amlwg yn torri rheolau Erthygl 37.³¹⁴



CRC/C/GBR/CO/4 para 78e: Darparu ar gyfer hawl statudol i bob plentyn sy'n colli ei ryddid i gael hawl statudol i addysg.

Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru

Mae gan blant o Gymru hawl statudol i 25 awr o addysg yr wythnos: mae gan awdurdodau lleol â sefydliadau cadw ieuenctid yn y ddalfa yn eu hardal awdurdod lleol ddyletswydd i fodloni'r gofyniad hwn.³¹⁵ Tan yn ddiweddar, mae cwricwlwm Cymru wedi cael ei gynnig i bob person ifanc o Gymru sydd yn y ddalfa yng Nghymru yn ogystal â'r rheiny sy'n cael eu cadw mewn sefydliadau yn Ashfield a Hindley yn Lloegr. Cyhoeddwyd yn ddiweddar y bydd Ashfield yn cael ei ddatgomiynu ar gyfer ieuenctid, fydd yn lleihau nifer y sefydliadau lle mae'r cwricwlwm Cymreig ar gael i blant o Gymru sy'n cael eu cadw yn Lloegr o 50%. Mewn unrhyw achos, gellir anfon plant o Gymru unrhyw le yn y mannau diogel,³¹⁶ y rhan fwyaf ohonynt wedi eu lleoli yn Lloegr, ac os yw hyn yn digwydd (gyda'r eithriad uchod) nid oes unrhyw sicrwydd y byddant yn gallu ymarfer eu hawl i'r cwricwlwm addysg Cymreig.



CRC/C/GBR/CO/4 para 78f: adolygu cymhwyso'r Bil Gwrthderfysgaeth i blant.

Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU

Ni chafwyd unrhyw newid i'r sefydliad er 2008. Mae plant yn dal yn destun pwerau y gellir eu hymarfer yn unol â Deddf Gwrthderfysgaeth 2008. Methodd adolygiad o'r pwerau hyn ym mis Ionawr 2011 gan yr Ysgrifennydd Cartref³¹⁷ ystyried eu heffaith ar blant.



CRC/C/GBR/CO/4 para 78h: Mabwysiadu mesurau priodol i ddiogelu hawliau a buddiannau plant sy'n ddioddefwyr neu'n dystion troseddau yn ystod pob cam o'r broses cyfiawnder troseddol.

Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU

Cafwyd gwelliannau ar lefel polisi yn ymwneud â dioddefwyr a thystion sydd yn blant. Mae'r rhain wedi cynnwys diwygio'r Safonau Cenedlaethol a nodwyd yn *Achieving Best Evidence in Criminal Proceedings* i gynnwys diogelu a safonau eraill sy'n ofynnol gan y rheiny sy'n cefnogi dystion ifanc. Er gwaethaf hyn, ceir tystiolaeth nad yw'r safonau hyn yn cael eu dilyn yn ymarferol gan Wasanaeth Eryl y Goron a gwasanaethau'r heddlu.³¹⁸

314 <http://www.cypnow.co.uk/cyp/news/1075953/government-admits-placing-offenders-adult-jails>

315 Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif 008/2011 'Dysgu ar gyfer Plant a Phobl Ifanc mewn Lleoliad Dalfa'r Ifanc yng Nghymru – Canllawiau Statudol ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru'.

316 Mae hyn yn cynnwys sefydliadau troseddwy'r ifanc, canolfannau hyfforddiant diogel a cartrefi plant diogel awdurdodau lleol.

317 Children's Rights Alliance for England (2011) State of Children's Rights in England 2011 Llundain: Children's Rights Alliance for England

318 Sefydliad Nuffield a'r NSPCC (2011) Young witnesses in criminal proceedings: A progress report on *Measuring up?* Llundain: NSPCC

Yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar gynigion i wella cymorth i ddioddefwyr a thystion, mae'r NSPCC a Chymorth i Ddioddefwyr; mewn ymateb ar y cyd, wedi datgan bod dros 40 o ddogfennau polisi, ymarfer a chanllawiau yn nodi ymrwymadau gan asiantaethau cyfiawnder troseddol i dystion ifanc. Mae'r safonau gofynnol a nodir yn yr ymgynghoriad, 'Gwneud Pethau'n lawn i Ddioddefwyr a Thystion', ymhell islaw'r gofynion a nodir mewn canllawiau eraill sydd ar gael sy'n berthnasol i driniaeth dystion ifanc.³¹⁹ Nid oes unrhyw gôd ymarfer ar hyn o bryd ar gyfer plant sydd naill ai'n ddioddefwyr neu'n dystion. Nid yw'r argymhellion yn yr ymgynghoriad presennol yn ymddangos yn ddigonol i ddiogelu hawliau a buddiannau dioddefwyr a thystion sydd yn blant.



CRC/C/GBR/CO/4 para 80: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Parti Gwladol yn cynnal adolygiad annibynnol o ASBOs, gyda'r bwriad o ddiddymu eu cymhwyso i blant.

Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU

Mae Llywodraeth y DU yn cynnig disodli Gorchymynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBO) gyda dau offeryn newydd:³²⁰ Gwaharddeb Atal Troseddu (CPI) a'r Gorchymyn Ymddygiad Troseddol (CBO). Mae'r cynigion yn ymwneud â CPI yn dangos bod y trothwy ar gyfer ei ddefnyddio yn debygol o fod yn 'achosi niwsans neu annifyrrwch' sy'n ymddangos yn brawf llai llethol nag 'achosi aflonyddu, pryder neu drallod' sy'n berthnasol i ASBOs. Fel y mae gydag ASBOs, byddai torri rheolau CBO yn drosedd gydag uchafswm o bum mlynedd yn y carchar. Byddai torri rheolau CPI yn golygu cost fel dirmyg llys, na fyddai'n arwain at gofnod troseddol ond byddai'n golygu cyfnod cadw. Er nad yw carcharu am ddirmyg llys ar gael yn erbyn plentyn, roedd cynigion y Llywodraeth yn cynnwys y posibilrwydd o ofynion cyrffiw, gweithgaredd neu oruchwyliaeth, i bobl ifanc 10-17 oed, neu, fel 'dewis olaf, gallai torri rheolau dro ar ôl tro arwain at gael eu cadw yn y ddalfa am hyd at dri mis ar gyfer rhywun 14 i 17 oed.'³²¹ Er bod y CPI yn dileu'r perygl o droseddoli, mae'r bygythiad o gael eu cadw yn y ddalfa am dorri rheolau'r CPI a'r CBO – yn cynnwys cael eu cadw yn y ddalfa am ymddygiad na fyddai'n droseddol fel arall. Mae pryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn am ASBOs a'u cymhwyso i bobl ifanc (gan adlewyrchu pryderon eang academaidd ac ymarferwyr), yr un mor berthnasol mewn perthynas â'r CPI a'r CBO.

Safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â defnyddio ASBOs yw y dylid eu defnyddio fel dewis olaf – pan fydd yr opsiynau eraill wedi cael eu holrhain i'r eithaf. Mae pwyslais wedi cael ei roi ar ymyrraeth gynnar i fynd i'r afael â phroblemau sy'n arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol.³²²

Argymhellion allweddol

Dylai Llywodraeth y DU:

- Gymryd pa gamau bynnag sy'n briodol i gynyddu oed cyfrifoldeb troseddol yng Nghymru a Lloegr ac, fel isafswm, cymryd camau brys i gynyddo oed cyfrifoldeb troseddol i 12 oed yn unol â safbwynt y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn.³²³

319 NSPCC a Chymorth i Ddioddefwyr 'Joint Response to Ministry of Justice Consultation Getting it Right for Victims and Witnesses' Ebrill 2012

320 Nodyn Safonol Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin. (20 Awst 2012) Anti-social Behaviour: the Governments Proposals.

321 Y Swyddfa Gartref, 2012, Ymateb mwy effeithiol i ymddygiad gwrthgymdeithasol, CM 8367, tud.49, C.12.

322 Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin - *The Police Service, Crime and Anti Social Behaviour in Wales Fourth Report of Session 2004-05 Cyfrol 1* (Mawrth 2005). Gweler hefyd fn 5 a'r tesun ategol uchod.

323 Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn Sylw Cyffredinol Rhif 10 (2007) Hawliau Plant mewn Cyfiawnder yr Ifanc

- Sicrhau bod gan lysoedd penwythnos ac arbennig ynad llys ieuenctid bob tro.
- Diddymu defnyddio'r ASBO yn erbyn plant.
- Rhoi'r gorau i gynlluniau i wneud y Waharddeb Atal Troseddu a/neu Orchmynion Ymddygiad Troseddol yn berthnasol i blant.
- Adolygu ar frys yr arfer o drin plant 17 oed fel oedolion pan gânt eu cadw gan yr heddlu er mwyn gwneud triniaeth o'r fath yn gyson â thriniaeth gerbron llys.

Dylai Llywodraeth Cymru:

- Adolygu'r AWYOS gyda'r bwriad o sicrhau bod cyfiawnder yr ifanc yng Nghymru yn digwydd, cyhyd â phosibl, yn unol â CCUHP.
- Sicrhau bod canlyniadau a phenderfyniadau polisi a gymerir yng ngoleuni'r ymgynghoriad ar gynigion i wella gwasanaethau yng Nghymru i fodloni anghenion plant sydd mewn perygl o fynd i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid, neu sydd ynddo yn barod, yn cyd-fynd â CCUHP.
- Cefnogi asiantaethau cyfiawnder yr ifanc yng Nghymru ac asiantaethau sy'n gweithio gyda phlant sydd mewn perygl o fynd i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid, neu sydd ynddo'n barod, er mwyn atal troseddu a gwroddi wrth y system cyfiawnder troseddol.
- Gweithredu i ddylanwadu ar lywodraeth y DU i gydymffurfio ag argymhellion y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn.
- Gweithredu i ddylanwadu ar gomisiynwyr yr heddlu a throseddu yng Nghymru i weithredu mewn ffordd sydd yn cyd-fynd â pholisi ar blant a phobl ifanc yng Nghymru ac sy'n cydymffurfio â CCUHP.